# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 5 RHAGFYR 2024 am 10:00 y bore** | **THURSDAY, 5 DECEMBER 2024 at 10:00 a.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Sedd Wag/Vacant Seat, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024.

3 **LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 **ENWEBU I GYD BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 13 - 22)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

5 **LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023/24** (Tudalennau 23 - 40)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

6 **DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU ADOLYGIAD EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 41 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 47 - 54)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **DIWEDDARIAD AR WAITH Y CYNGOR I GYFLAWNI'R CYNLLUN STRATEGOL TUAG AT SERO NET YN 2023/24** (Tudalennau 55 - 72)

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr.

9 **ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN 2024** (Tudalennau 73 - 98)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**10** **ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2023/24** (Tudalennau 99 - 120)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**11** **ARCHWILIO ALLANOL - ADRODDIAD MONITRO** (Tudalennau 121 - 136)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**12** **ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU** (Tudalennau 137 - 152)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**13** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 153 - 160)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**14** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 161 - 162)

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**15** **ADRODDIAD DIOGELWCH SEIBER TGCH BLYNYDDOL 2023/24** (Tudalennau 163 - 178)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 19 Medi 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Keith Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Sharon Warnes, William Parry, Michael Wilson. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (NM) (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (CE) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Busnes a Pherfformiad (Addysg) (AH) (ar gyfer eitem 4)<br>Swyddog Diogelu Data a Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (HP) (ar gyfer eitemau 4 a 5)<br>Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (TO) (ar gyfer eitem 4)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris, Ieuan Williams, Liz Wood. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio – Cyllid), Alan Hughes (Archwilydd Arweiniol (Archwilio Perfformiad) – Archwilio Cymru), Rachel Freitag (Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) – Archwilio Cymru), Andrew Lewis (Uwch Archwilydd Mewnol) |

---

Gan nad oedd y Cynghorydd Euryn Morris, yr Is-gadeirydd, yn bresennol, etholwyd y Cynghorydd Margaret M. Roberts i wasanaethau fel Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, yn ymgorffori log gweithredoedd y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ynglŷn â statws y

gweithredoedd/penderfyniadau y cytunwyd arnynt ers cyflwyno'r log gweithredoedd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024.

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at weithred rhif wyth yn y cofnod a dywedodd bod cais wedi'i wneud i'r Prif Swyddog Digidol drefnu i arbenigwr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyflwyno briff i'r pwyllgor ynglŷn â Deallusrwydd Artiffisial a'r mesurau y gellir eu cymryd i liniaru'r risgiau mewn perthynas â'r maes technoleg hwn sy'n datblygu.

Mewn perthynas â gweithred rhif deuddeg yn y log gweithredoedd, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y gofynion ynglŷn â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a dywedodd fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi pŵer cymhwysedd newydd i gynghorau yng Nghymru a rydd yr hawl i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth y gallai unigolyn ei wneud yn gyfreithlon, er enghraifft ymgymryd â mentrau masnachol ac arloesi. Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael ac wedi cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol yn Lloegr ers cryn amser. Nid yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi defnyddio'r pŵer hyd yma ac nid yw'r rhagweld y bydd yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo penderfyniad i ddefnyddio'r pŵer, a hynny'n seiliedig ar gyngor a dilyn y drefn briodol. Gan nad oes bwriad defnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar hyn o bryd, nid ystyrir bod darparu hyfforddiant i Aelodau'n flaenoriaeth.

**Penderfynwyd nodi'r gweithredoedd y manylir arnynt yn y tabl log gweithredoedd a chadarnhau fod y Pwyllgor yn fodlon â'r gweithredoedd a roddwyd ar waith.**

## 4. LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO) 2023/2024

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys dadansoddiad o faterion llywodraethu gwybodaeth allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gan gynnwys y risgiau gwybodaeth presennol a'r mesurau lliniaru. Roedd yr adroddiad yn darparu datganiad a throsolwg yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ynglŷn â'r modd yr oedd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol, yn ogystal â chydymffurfio â GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliad Deddf Pwerau Ymchwilio 2000 (Gwyliadwriaeth) a chodau ymarfer perthnasol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data a Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol mewn perthynas â chyswllt â rheoleiddwyr allanol, digwyddiadau diogelwch, torri cyfrinachedd a/neu achosion fu bron â digwydd yn ystod y cyfnod.

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd Swyddogion ar ran y gwasanaethau Dysgu, Gwarchod y Cyhoedd, Adnoddau a Thechnoleg Gwybodaeth i egluro pam fod y gwasanaethau hynny wedi ymateb yn hwyr i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd, a'r camau unioni a gymerir i gyflawni disgwyliadau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod 90% o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn derbyn ymateb cyn pen ugain diwrnod gwaith. Y rhesymau a nodwyd am beidio ag ymateb yn brydlon i bob cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth oedd diffyg adnoddau dynodedig i reoli ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn y gwasanaeth, cymhlethdod y ceisiadau a'r rheidrwydd i gydbwyso'r gwaith o adalw a darparu gwybodaeth i ymgeiswyr gyda dyletswyddau gweithredol o ddydd i ddydd.

Trafododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Cyfrifoldeb o fewn y Cyngor am ddyrannu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r gwahanol feysydd gwasanaeth a ph'un a yw'r amserlen ar gyfer ymateb yn weithredol o'r dyddiad y caiff y cais ei dderbyn yn ganolog gan y Cyngor, neu o'r dyddiad y caiff ei ddyrannu i wasanaeth a/neu'r sawl sy'n dal y wybodaeth.
- Y broses mewn perthynas â'r 29 cais gwrthrych am wybodaeth sydd wedi cael eu gohirio dros dro er mwyn cadarnhau neu egluro hunaniaeth yr ymgeiswyr.
- P'un a yw'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod sefydliadau partner, cyrff allanol a/neu gwmnïau y mae'n gweithio â nhw, â chytundeb â nhw, neu'n sy'n gweithredu ar ei ran, yn cydymffurfio â gofynion GDPR a diogelu data.

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth bellach fel a ganlyn –

- Er bod ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu derbyn a'u dosbarthu'n ganolog fel arfer, gan dîm y Swyddog Diogelu Data a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol, gallai cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth fod wedi'i ymgorffori weithiau mewn gohebiaeth sy'n mynd rhagddo neu mewn ymholiad cyffredinol ac yn yr achos hwnnw byddai'n cael ei anfon ymlaen at y tîm canolog. Mae diwrnod cyntaf yr amserlen o ugain diwrnod gwaith yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu system CRM (system reoli cysylltiadau cwsmeriaid) fel modd o gynnal a rheoli'r gwaith o weinyddu prosesau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a chwynion. Rhagwelir y bydd defnyddio'r system CRM i reoli'r cyswllt rhwng y tîm canolog a swyddogion yn arwain at wella perfformiad.
- Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor brosesu'r 29 cais gwrthrych am wybodaeth sydd wedi cael eu gohirio am y tro oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu profi ei hunaniaeth gan y byddai'n anghyfreithlon datgelu gwybodaeth i unigolyn nad oes hawl ganddo i dderbyn y wybodaeth honno. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn wedi'u gohirio am fod yr ymgeisydd wedi methu â darparu tystiolaeth o hunaniaeth i'r Cyngor. Bydd y ceisiadau'n cael eu dileu ar ôl cyfnod o amser gan nad ydynt yn ddilys ac ni ellir gweithredu arnynt heb dorri'r union gyfraith y mae'r Cyngor yn ceisio ei gynnal.
- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau fod ei gyfrifoldebau GDPR a diogelu data yn ymestyn ar hyd y gadwyn wrth ddyfarnu contractau am wasanaethau. Pan fydd y Cyngor yn comisiynu corff arall i ddarparu gwasanaeth sy'n golygu prosesu data personol, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar y cyngor i sicrhau fod cytundeb yn cael ei roi ar waith sy'n gosod yr un cyfrifoldebau am reoli risgiau gwybodaeth a sicrhau diogelwch y data ar y corff a gomisiynwyd, ac ar unrhyw isgontractwyr y gallai'r corff ei gyflogi. Er nad oes gofyn cyfreithiol am gytundeb o'r fath pan fydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau eraill a/neu elusennau, mae disgwyl i'r un safonau diogelu data gael eu parchu. Yn ogystal, pan fydd y Cyngor yn caffael gwasanaethau gan ddarparwyr eraill, dylai dderbyn sicrwydd fod risgiau seiber ddiogelwch wedi cael eu hystyried a'i fod yn caffael dim ond gan gwmnïau sy'n gweithredu yn unol â safonau diogelu data a seiber ddiogelwch uchel.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhelliad bod y SIRO ac uwch arweinwyr y Cyngor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y bygythiadau seiber a'r mesurau lliniaru fel y gellir gwneud penderfyniadau strategol seiliedig ar wybodaeth brydlon ac effeithiol mewn perthynas â'r bygythiad seiber cyson i uniondeb a chyfrinachedd asedau data'r Cyngor.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2023/2024

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn amlinellu'r materion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor, ynghyd â nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a wnaethpwyd o dan

Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond dim ond y rhai hynny lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion gan ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar wahân o dan y Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol – Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion, ac mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â'r cwynion hynny.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol. Cyflwynodd y swyddog drosolwg o'r pwyntiau allweddol mewn perthynas â'r modd yr ymdriniwyd â chwynion a phryderon gan wasanaethau'r Cyngor o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion ffurfiol yn ystod 2023/24. Bu iddo hefyd ddiweddaru'r pwyllgor ynglŷn â datblygu'r CRM fel dull o gynnal a rheoli'r broses gwynion, a bydd y system yn darparu gwybodaeth amser real i wasanaethau ynglŷn â'r perfformiad trwy gyfrwng dangosfwrdd fydd ar gael i Uwch Reolwyr ac Arweinwyr. Byddant, yn sgil hynny, yn gallu cael mynediad yn ddyddiol at ddata'n ymwneud â chwynion, amserlenni a chynnydd yr ymatebion.

Wedi iddo dderbyn gwahoddiad gan y Cadeirydd i esbonio'r nifer uchel o bryderon a chwynion a gofnodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Tai, esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y lefel uchaf o gysylltiadau gyda'r cyhoedd yn digwydd trwy'r Gwasanaethau Tai, yn rhinwedd swyddogaeth y gwasanaeth wrth reoli stoc dai'r Cyngor, gan olygu fod cyswllt rheolaidd gyda thenantiaid ac ymgeiswyr am dai. Oherwydd lefel y cyswllt, mae nifer y sylwadau a chwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth Tai yn debygol o fod yn uwch nag ar gyfer gwasanaethau eraill. Sicrhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y pwyllgor fod Tîm Perfformiad y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddelio â chwynion fel maes y gellir ei wella, a maes lle mae gwelliannau'n cael eu gwneud, yn enwedig mewn perthynas â chyfathrebu, gan fod cyfathrebu gwael wedi'i gofnodi fel achos mwyaf cyffredin y cwynion yn erbyn y gwasanaeth, ac roedd yn obeithiol y byddai'r adroddiad ar gyfer 2024/25 yn adlewyrchu'r gwelliant hwnnw.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Er eu bod yn nodi fod cwynion defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn sylw ar wahân o dan y prosesau statudol perthnasol a'u bod yn cael eu hadrodd i bwyllgor arall, awgrymodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol derbyn y prif ffigyrau mewn perthynas â chwynion a phryderon y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u bod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol, er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael darlun cyflawn o reoli cwynion o fewn y cyngor cyfan.
- Yr amser y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ei gymryd i benderfynu ar gwynion yn erbyn aelodau etholedig. Nododd un o'r aelodau fod dwy o'r bum gŵyn cod ymddygiad yn erbyn aelodau etholedig yn ystod 2023/24 yn parhau i gael eu hymchwilio (gyda'r tair arall wedi cael eu cau heb unrhyw ymchwiliad yn dilyn yr asesiad cychwynnol) ac roedd yn pryderu am effaith yr oedi a diffyg datrysiad ar yr aelod dan sylw a'r achwynydd. Nodwyd y pryder ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'n briodol dwyn y pryder i sylw'r Pwyllgor Safonau.

Mewn perthynas â chwynion defnyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ychwanegodd y Swyddog Diogelu Data a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol y gallai gwybodaeth am gwynion gan ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gael eu cynnwys, mewn egwyddor, yn yr adroddiad blynyddol er mwyn rhoi darlun o'r sefyllfa o ran cwynion a rheoli cwynion o fewn y sefydliad cyfan, ond rhybuddiodd nad yw'n ymarferol tynnu cymhariaeth gan fod gweithdrefn, polisi ac amserlenni cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wahanol i rai Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol y Cyngor.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad fel un sy'n darparu sicrwydd rhesymol fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau gofynnol o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a'r Polisi Chwythu'r Chwiban.**
- **Nodi'r wybodaeth a ddarparwyd gan y gwasanaethau i'r Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol yn y Tabl Gwersi a Ddysgwyd yn Atodiad 2 yn yr adroddiad a chadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn fodlon â lefel y manylion a gofnodwyd.**

**Gweithredoedd ychwanegol –**

- **Bod yr Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban ar gyfer 2024/25 a gyflwynir i'r pwyllgor yn cynnwys y brif wybodaeth ynglŷn â phryderon a chwynion defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Bod y pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r oedi ym mhrosesau OGCC mewn perthynas â chwynion yn erbyn dau aelod etholedig yn cael eu cyfeirio er sylw'r Pwyllgor Safonau.**

## 6. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL 2023/24

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn darparu adolygiad o weithgareddau rheoli trysorlys yn 2023/24. Roedd yr adroddiad yn nodi'r prif faterion rheoli trysorlys yn ystod y cyfnod adrodd, yn ogystal â darparu cymhariaeth o berfformiad yn erbyn Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 a'r Dangosyddion Darbodus.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a bu iddo grynhoi'r pwyntiau allweddol mewn perthynas â'r cyd-destun allanol, gwariant cyfalaf y Cyngor a chyllido cyfalaf yn ystod y flwyddyn, sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, gweithgareddau benthyca a buddsoddi, a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus, gan gadarnhau fod perfformiad yn unol â'r strategaeth a'r dangosyddion.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Y gostyngiad yn y balansau ysgolion a'r oblygiadau i ysgolion yn y dyfodol.
- Y defnydd o'r amser presennol yn yr adroddiad, yn ogystal â chyfeiriadau at ddigwyddiadau yn dilyn y cyfnod adrodd, er bod yr adroddiad yn cofnodi gweithgareddau a pherfformiad o'r flwyddyn flaenorol, 2023/24.

Derbyniodd y Pwyllgor esboniadau pellach fel a ganlyn –

- Bod balansau ysgolion wedi disgyn o £6.7m i £5.5m yn ystod 2023/24 gan fod ysgolion wedi defnyddio'r balansau oedd ar gael iddynt i osod cyllideb gytbwys. Mae ysgolion llai sydd â llai o ddisgyblion yn fwy tebygol o wynebu anawsterau os yw'r cyllid yn gostwng gan nad oes ganddynt fawr o hyblygrwydd ynghylch maint dosbarthiadau. Mae'n rhaid i ysgolion sydd â diffyg fod â chynllun adfer ariannol ac, mewn rhai ysgolion, byddai'r diffyg yn cael ei wrthdroi'n naturiol wrth i niferoedd disgyblion gynyddu. Rhagwelir y bydd ysgolion yn gwneud defnydd pellach o'u balansau yn 2024/25 ac os nad yw'r sefyllfa ariannol a'r rhagolygon yn newid mae'n debygol y bydd balansau ysgolion yn parhau i ostwng. Byddai diffyg cyfanredol ar falansau ysgolion yn dangos fel atebolrwydd yng nghyfrifon y Cyngor a byddai'n gostwng balansau cyffredinol y Cyngor y maent yn rhan ohonynt.
- Bod rhai adrannau o'r adroddiad e.e. adolygiad o'r economi, yn dod yn uniongyrchol o gyngor a ddarparwyd gan Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor sydd yn darparu



DRAFT

diweddariad economaidd i'r Cyngor ac efallai mai dyna pam fod amser y ferf yn wahanol. Bydd yr adroddiad yn cael ei adolygu cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, er mwyn sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei chyfleu'n gywir a bod amser y ferf a ddefnyddir yn briodol.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2023/24 a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach.**

**Gweithred ychwanegol – adolygu'r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol i sicrhau cysondeb o ran amser y ferf ac eglurder.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2023/24

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn amlinellu gweithgareddau a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2023/24 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn Cyngor Sir Ynys Môn ac yn ei erbyn. Roedd yr adroddiad yn darparu asesiad o effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll a'i gynnydd o ran ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac roedd yn amlygu'r meysydd lle mae'r risg o dwyll yn bodoli ar hyn o bryd, yn ogystal â'r heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol. Roedd Atodiad 2 yn yr adroddiad yn cynnwys manylion am wireddu cynllun gweithredu atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd 2022-2025.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y pwyllgor –

- P'un a fydd y gweithgor atal twyll tebyg i'r gweithgor atal twyll rhanbarthol, sydd yn is-grŵp o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn cael ei sefydlu ar Ynys Môn er mwyn archwilio materion twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn lleol.
- Y ffyrdd y gallai'r system CRM a'r rhaglen STAR, sydd â'r nod o wella prosesau caffael o fewn y Cyngor, gefnogi gweithgareddau atal twyll.

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol i'r pwyllgor fel a ganlyn –

- Sefydlwyd y gweithgor atal twyll rhanbarthol er mwyn cydweithio i fynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol oedd yn berthnasol i lywodraeth leol trwy rannu gwybodaeth, data a dysg. Bu'r gweithgor yn datblygu templed o arfer orau o ran trefniadau atal twyll fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i gyfarfod nesaf Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru. Y nod yn fewnol o fewn y Cyngor yw dynodi pencampwyr atal twyll ym mhob gwasanaeth a fyddai'n gweithio gyda'i gilydd i rannu profiadau a chodi ymwybyddiaeth o feysydd lle mae'r risg o dwyll yn bodoli. Gan ddefnyddio eu gwybodaeth leol am bob gwasanaeth, a chyda chefnogaeth arbenigedd y tîm Archwilio Mewnol, byddent yn nodi lle gallai twyll fod yn digwydd a chymryd camau priodol.
- Bydd yr Ymgynghoriaeth STAR yn gweithio ar ddatblygu gofynion datgan diddordebau er mwyn sicrhau bod diddordebau'n cael eu datgan mewn perthynas â'r holl gontractau caffael. Bydd y system CRM (system reoli cysylltiadau cwsmeriaid) yn cynnal yr offeryn adrodd am dwyll lle gall pobl adrodd am weithgareddau twyllodrus trwy ddefnyddio gwefan y Cyngor ac wedyn byddant yn cael eu cofnodi a'u holrhain ar y system CRM.

**Penderfynwyd nodi'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 2023-24 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn, ynghyd â nodi'r sicrwydd a ddarparwyd i'r Pwyllgor ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll.**

## 8. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad diweddaru'r Pennaeth Archwilio a Risg ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf (30 Mehefin 2024) hyd at 31 Awst 2024. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi rhaglen waith bresennol y tîm Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau yn y tymor byr a chanolig. Derbyniodd aelodau'r pwyllgor gopïau ar wahân o'r adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, mewn perthynas â Rheoli Debyd Uniongyrchol (Sicrwydd Rhesymol) a Monitro Parhaus – Taliadau Dyblyg (Sicrwydd Rhesymol).

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adroddiad a chyfeiriodd at y cynnydd a wnaed gan y Tîm Taliadau trwy wneud gwelliannau allweddol i'r rheolaethau mewnol, er mwyn lleihau nifer yr anfonebau sy'n cael eu talu fwy nag unwaith a chadarnhawyd bod adolygiad pellach wedi'i gynllunio yn ystod y deuddeg mis nesaf er mwyn parhau i fonitro'r ymdrechion i wella'r sefyllfa.

Roedd y pwyllgor yn dymuno trafod sut y caiff taliadau dyblyg eu trin yng nghyfrifon y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'r cyflenwr yn cael ei hysbysu ar unwaith ar ôl canfod fod yr un anfoneb wedi cael ei thalu ddwywaith, ac os yw'r cyflenwr yn gyflenwr rheolaidd i'r Cyngor yna byddai'r arian yn cael ei adennill wrth wneud taliadau yn y dyfodol. Gallai cyflenwr a ddefnyddir yn achlysurol gan y Cyngor ddarparu nodyn credyd a byddai'n aros ar y system hyd nes bod taliadau o'r un gwerth â'r nodyn credyd wedi cael eu gwneud. Ar gyfer cyflenwr sydd ddim ond yn cael ei ddefnyddio unwaith, byddai anfoneb yn cael ei chodi a byddai'n aros ar y ffeil dyledwyr hyd nes iddi gael ei thalu. Mewn ymateb i gwestiwn pellach am ddyledion drwg, eglurodd y Swyddog Adran 151, os nad yw dyledion yn cael eu talu yna mae darpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn cael ei gyfrifo yn ôl oedran a gwerth y ddyled. Mae gwerth cario'r ddarpariaeth yn cael ei gymharu â'r ddyled a'i gynyddu/leihau yn unol â hynny, cyn ei gynnwys fel credyd neu ddebyd yn y cyfrif refeniw ac mae'r gost yn cael ei chodi yn ystod y flwyddyn ar y gwasanaeth y mae'r ddyled yn perthyn iddo. Mae dyledion yn cael eu dileu yn erbyn y ddarpariaeth ac os nad yw'r ddarpariaeth yn ddigonol mae'r gost ychwanegol yn cael ei godi ar y gwasanaeth.

**Penderfynwyd nodi canlyniad gwaith y tîm Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen.**

## 9. MATERION, RISGIAU A CHYFLEOEDD SY'N WEDDILL

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn nodi perfformiad y Cyngor o ran mynd i'r afael â chamau y mae angen rhoi sylw iddynt.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol, a bu iddi ddiweddaru'r pwyllgor ar statws y risgiau sy'n weddill a godwyd gan Archwilio Mewnol.

**Penderfynwyd nodi bod cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau/cyfleoedd Archwilio Mewnol sy'n weddill yn foddhaol.**

## 10. ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD CHWARTEROL AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU (CH1 2024/25)

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r pwyllgor, adroddiad Archwilio Cymru, yn cynnwys diweddariad, hyd at 30 Mehefin 2024, ar ei raglen waith a'i amserlen mewn perthynas â'i

waith yng Nghyngor Sir Ynys Môn ac yn genedlaethol. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu trosolwg o'r gwaith rheoleiddio gan Estyn ac AGC.

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan Ms Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) Archwilio Cymru, a Mr Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol (Archwilio Perfformiad) Archwilio Cymru, ar gynnydd wrth wireddu rhaglen waith Archwilio Cymru mewn perthynas â'r gwaith archwilio ariannol a gwaith archwilio a amlinellir yn yr adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, mewn perthynas â'r cyfeiriad yn yr adroddiad rhagarweiniol i'r Adolygiad Thematig o Ofal Heb Ei Drefnu, y byddai canlyniad y gwaith hwn yn cael ei adrodd yn awr i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac y byddai cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r sicrwydd a ddarparwyd.**

## 11. ADOLYGU'R FLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor wedi'i diweddaru a'r Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer 2024/25.

Gofynnwyd pam nad oedd cyfarfod o'r pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer y cyfnod rhwng Medi a Rhagfyr 2024 ac mewn ymateb cafwyd diweddariad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar yr amserlen a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo'r cyfrifon achwiliedig i'r pwyllgor hwn a'r Cyngor Llawn, gan olygu efallai y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod tua diwedd mis Tachwedd. Mae'r opsiynau'n cael eu hystyried ac mae'n dibynnu pryd fydd yr archwiliad o'r cyfrifon yn cael ei gwblhau.

**Penderfynwyd derbyn y Flaen Raglen Waith 2024/25 a nodi ei bod yn cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 18/04/24 | 8 | Yn y dyfodol, diwygio ffurf a chynnwys adroddiadau sy’n ymwneud ag adolygiadau cenedlaethol a’u hargymhellion, yn unol â’r awgrym. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. Bydd fformat byrrach newydd gyda chrynodeb o statws argymhellion yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod.<br><br>Mae gwaith parhaus gyda ‘4action’ ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol yn parhau. | Cwblhawyd. |
| 6 | 18/04/24 | 13 | Yn y dyfodol, dylai’r Adroddiad Seiber Ddiogelwch Blynyddol gynnwys unrhyw achosion (os bu rhai) lle mae amddiffynfeydd TG / seiber ddiogelwch y Cyngor wedi cael eu goresgyn a’r camau adfer a gymerwyd. | Rheolwr TG | Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024 yn cynnwys achosion lle mae amddiffynfeydd diogelwch TG / seiber y Cyngor wedi'u treiddio a'r camau unioni a gymerwyd. | Cwblhawyd. |
| 8 | 27/06/24 | 7 | Pennaeth Archwilio a Risg i drefnu sesiwn ar liniaru risg a chyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial o fewn rhaglen hyfforddi’r Pwyllgor ar gyfer 2024/25. | Pennaeth Archwilio a Risg / Prif Swyddog Digidol | Bydd y Prif Swyddog Digidol yn rhoi briff i'r Pwyllgor ar Ddeallusrwydd Artiffisial a'r mesurau y gellir eu cymryd i liniaru'r risgiau mewn perthynas â'r maes technoleg hwn sy'n datblygu. Bydd dewis y Pwyllgor ar gyfer fformat ac amseriad y briff hwn yn cael ei drafod gyda'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024. | I'w gadarnhau. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 27/06/24 | 7 | Cyflwyno diweddariad pellach ar Gynllun Gweithredu Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor ar ddiwedd chwe mis. | Pennaeth Archwilio a Risg | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024. | Cwblhawyd. |
| 10 | 27/06/24 | 9 | Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Mae'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad sosio-economaidd o boblogaeth yr ynys, mae hyn yn cynnwys anweithgarwch economaidd, cyflwynwyd adroddiad ar gyfer rhanbarth gogledd Môn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2024.<br><br>Mae adroddiad ar gyfer yr ynys gyfan hefyd ar y gweill a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. | Ar y gweill – bydd yn cael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024 |
| 11 | 18/07/24 | 4 | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i adolygu'r defnydd o'r term cyfalafu mewn cysylltiad â'r swm o £50.574m yn y tabl ar dudalen 4 yr Adroddiad Naratif. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Mae'r defnydd o'r term cyfalafu wedi'i ystyried yn fersiwn derfynol yr Adroddiad Naratif a gynhwysir gyda'r Datganiad Cyfrifon, a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2024. | Cwblhawyd. |
| 13 | 18/07/24 | 6 | Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024 ar gynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd gan broses asesu 2023/24. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Bydd y Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol yn darparu diweddariad llafar yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Rhagfyr 2024. | Cwblhawyd. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | 19/09/24 | 5 | Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor i gynnwys gwybodaeth amlwg am bryderon a chwynion defnyddwyr gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | | Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025. |
| 17 | 19/09/24 | 5 | Mae'r pryder a fynegwyd mewn perthynas â'r oedi ym mhroses Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â'r cwynion yn erbyn dau aelod etholedig yn cael ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Safonau. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Pasiodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y pryder a fynegwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar 04/10/24. | Cwblhawyd. |
| 18 | 19/09/24 | 6 | Mae'r adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol i'w adolygu er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder pendant. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | | Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **05/12/2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Enwebu i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |

## 1. ARGYMHELLION

1.1 Enwebu un cynghorydd sir i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ynghyd ag un cynghorydd sir i wasanaethu fel dirprwy.

1.2 Ystyried p’un a ddylid enwebu aelod/aelodau lleyg i Gyd-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gogledd Cymru.

## 2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

2.1 Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ar 30/06/2022.

2.2 Mae’r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe phrif gyngor y rhanbarth ac erbyn hyn mae’n arfer ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio strategol a thrafnidiaeth.

2.3 Mae disgwyl i Fargen Twf Gogledd Cymru, sydd o dan awdurdodaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar hyn o bryd, ddod yn un o swyddogaethau’r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyda hyn.

2.4 Yn y cyfamser, mae’n rhaid i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu trefniadau llywodraethu corfforaethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â sgriwtini a safonau, ond gofynnir yn awr i chwe chyngor sir y rhanbarth enwebu aelodau i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 3 GWYBODAETH SY'N BERTHNASOL I BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

3.1 Roedd Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn darparu ar gyfer creu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.2 Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn darparu bod rhaid i bob prif gyngor yng Nghymru fod â Phwyllgor Archwilio. Yn ddiweddarach, cafodd y pwyllgorau hyn eu hailenwi'n Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.3 Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn darparu bod rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fod â'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun. Mae'n rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg.

3.4 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penderfynu creu ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun, ac mae'r Cylch Gorchwyl ar ei gyfer i'w weld yn **Atodiad 1**. Er bod y Cylch Gorchwyl wedi cael ei fabwysiadu, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei adolygu a'i ddiweddaru maes o law.

3.5 Bydd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig naw aelod: sef chwe chynghorydd sir, un o bob cyngor cyfansoddol, a thri aelod lleyg. Y cworwm fydd saith, a bydd yn bodoli pan fydd cynghorydd o bob cyngor cyfansoddol ac un aelod lleyg yn bresennol. Mae'n rhaid dewis y Cadeirydd o blith y tri aelod lleyg.

3.6 Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, ond trefnwyd iddo gyfarfod unwaith bob chwarter a disgwylir i gyfarfodydd bara tua dwy awr. Byddant yn gyfarfodydd o bell. Gan fod y ddarpariaeth ar gyfer mynychu o bell yn hawl statudol, hyd yn oed os cyflwynir opsiwn i fynychu "mewn person" yn y dyfodol, bydd hawl bob amser gan aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fynychu o bell.

3.7 Bydd swyddog a benodir neu a gaiff ei secondio gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithredu fel ymgynghorydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.8 Darperir hyfforddiant, datblygu a chefnogaeth i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant rôl benodol yn ogystal â chefnogaeth TG.

3.9 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penderfynu penodi aelodau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio presennol y cynghorau cyfansoddol. Gofynnwyd i bob cyngor cyfansoddol enwebu cynghorydd o'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ynghyd ag ail aelod i wasanaethu fel dirprwy er mwyn sicrhau y gellir cael cworwm os nad yw'r prif enwebai ar gael. Ni fydd enwebeion cynghorau sir yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol.

3.10 Dylid nodi na chaiff y rhai hynny a enwebir fel prif / dirprwy gynghorwyr sir fod yn aelodau o’r Pwyllgor Gwaith nac yn aelodau, neu’n aelodau cyfetholedig, o unrhyw is-bwyllgor arall o’r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

3.11 Yn ogystal, gofynnir i bob un o’r cynghorau cyfansoddol p’un a ydynt yn dymuno enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cyflwyniad byr i’r rôl a disgrifiad rôl ynghlwm yn Atodiad 2. Os bydd cyfanswm yr enwebiadau’n fwy na thri, yna mae’r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi penderfynu penodi yn ôl teilyngdod, yn unol â phroses ymgeisio, gan ddechrau gyda chais ysgrifenedig ar ffurflen fydd yn cael ei darparu.

3.12 Bydd aelodau lleyg a benodir i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol yn unol ag unrhyw benderfyniad perthnasol a gyhoeddir o dro i dro gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'n ofynnol i CBC y Gogledd sefydlu is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â pharagraff 16(1) Rheoliadau Sefydlu'r CBC. (*Nodir bod hwn yn cael ei alw'n 'bwyllgor llywodraethu ac archwilio' mewn deddfwriaeth llywodraeth leol, ond gan fod CBC y Gogledd ei hun yn bwyllgor, mae'n briodol cyfeirio ato fel is-bwyllgor mewn perthynas â CBCau*.)

### Swyddogaethau

Mae cylch gorchwyl yr is-bwyllgor wedi'i nodi yn Rheoliadau Sefydlu'r CBC sy'n nodi bod rhaid i'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio:

a) Weithredu o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

b) Bod y pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol a ganlyn o dan Adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd:

c) adolygu a chraffu ar faterion ariannol y CBC,

d) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y CBC.

e) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC,

f) gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

g) adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol,

h) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol,".

i) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CBC; ac

j) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CBC.

k) Ymgymryd â swyddogaethau pellach y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dan Bennod 1, Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu prif gynghorau)

l) Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a ganlyn:-

1(i) hyrwyddo archwilio mewnol, sefydlu amserlen i gynnal adolygiad o reolaeth, datblygu diwylliant gwrth-dwyll ac adolygu gweithrediadau ariannol;

2(ii) ystyried arsylwadau a phryderon ar wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion y Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwilydd Dosbarth a monitro'r ymateb a'r camau gweithredu ar yr argymhellion a'r canfyddiadau.

**Aelodaeth**

Ni all aelodau o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Rhaid i o leiaf un rhan o dair o aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg ac o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorau cyfansoddol. Bydd y penodiad(au) yn cael eu gwneud gan CBC y Gogledd.

Rhaid i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg.

Ni all aelodau o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Dylai'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei sefydlu gan y CBC sy'n cynnwys aelodau lleyg i'w tynnu o bwyllgorau llywodraethu ac archwilio cynghorau cyfansoddol (neu eu hysbysebu'n allanol os nad yw hyn yn bosibl) ac aelodau o bob cyngor cyfansoddol.

Efallai na fydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn arfer ei swyddogaethau os yw'r aelodaeth yn mynd yn groes i'r gofynion hyn.

**Canllawiau Gweinidogion Cymru**

Rhaid i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 85(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**Cworwm**

Y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio yw 7 aelod gydag o leiaf un aelod yn bresennol o bob Cyngor Cyfansoddol ac o leiaf un Aelod Lleyg.

## Rheolau Sefydlog

2.22 Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.22.1 Rhaid i'r CBC sefydlu is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

2.22.2 Nodir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhan 4 o'r Adran 5 hon a gall y CBC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd o fewn gofynion statudol.

2.22.3 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 9 Aelod, gyda 6 ohonynt yn aelodau etholedig a dynnir o Bwyllgorau Llywodraethu ac

Archwilio pob un o'r 6 Chyngor Cyfansoddol ac a enwebir ganddynt a bydd 3 ohonynt yn Aelodau Lleyg.

Cyfarfodydd

2.23 Mae'n ofynnol i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod unwaith bob blwyddyn galendr o leiaf.

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gogledd Cymru**

**Gwybodaeth gefndir i Aelodau (lleyg) Annibynnol**

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd) yn gorff rhanbarthol cyhoeddus newydd a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 ymhellach i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae aelodaeth CBC y Gogledd yn cynnwys 6 Aelod o'r Cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yng ngogledd-orllewin Cymru, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae gan CBC y Gogledd gyfrifoldeb am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac am wneud beth bynnag y bernir ei fod yn angenrheidiol i wella neu hyrwyddo lles economaidd yr ardal.

Mae CBC y Gogledd yn chwilio am dri aelod annibynnol i ymuno â'n His-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd am gyfnod o bedair blynedd.

Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol CBC y Gogledd. Diben yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd adolygu a chraffu ar faterion ariannol CBC y Gogledd a rhoi ffocws annibynnol ar y trefniadau archwilio, sicrwydd, perfformio ac adrodd sy'n sail i safonau llywodraethu ac ariannol da.

Bydd gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 aelod, gan gynnwys 6 Chynghorydd a 3 aelod (lleyg) annibynnol. Cynhelir y cyfarfodydd yn chwarterol mewn unrhyw flwyddyn galendr, ac ar-lein ar hyn o bryd.

Amgaeir yr hyn a ganlyn:

- Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor - bydd yn gweithredu gan roi sylw dyladwy i ganllaw arfer da Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

- Disgrifiad rôl a manyleb person – rydym yn chwilio am weithwyr proffesiynol annibynnol eu meddyliau, sy'n barod i gefnogi'r Is-Bwyllgor drwy eu gwybodaeth a'u profiad personol mewn meysydd sy'n berthnasol i'w rôl.

Er nad oes angen gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol, disgwylir y byddai gan ymgeiswyr posibl ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus ac archwilio. Bydd hyfforddiant anwytho yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd. Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gadeirio gan Berson Lleyg, felly mae parodrwydd a gallu i gyflawni'r rôl hon yn ddymunol.

## Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

## Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Aelod (Lleyg) Annibynnol

**Atebolrwydd:**

- I'r CBC
- I Gadeirydd yr Is-Bwyllgor

**Cyfrifoldebau Cyffredinol ar gyfer Aelodau Lleyg:**

- Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a bod yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn ddiduedd
- Rhoi sylw i ofynion Cadeirydd yr Is-bwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion CBC y Gogledd
- Gweithio yn unol â Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor
- Cyfrannu at ddatblygu'r flaen-raglen waith ar gyfer yr Is-bwyllgor
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl
- Dangos annibyniaeth, cywirdeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau yn unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Cynnal egwyddorion ymddygiad Nolan a gweithredu yn unol â Chyfansoddiad CBC y Gogledd a'i God Ymddygiad
- Adrodd yn ôl yr angen i'r CBC
- Ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Pwrpas a gweithgareddau'r rôl**

Adolygu, craffu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar faterion ariannol CBC y Gogledd:

- Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod
- Gweithio gydag archwilwyr mewnol ac allanol
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan CBC y Gogledd

Adolygu, asesu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar drefniadau rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol CBC y Gogledd a'i effeithiolrwydd:

- Cyfrannu at berfformiad effeithiol y CBC
- Adolygu adroddiad drafft hunanasesiad blynyddol y CBC a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r CBC yn bwriadu eu cymryd
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Panel y CBC

Adolygu, asesu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar broses rheoli cwynion CBC y Gogledd:

- Adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol.
- Llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

Adolygu ac asesu Llywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth y CBC:

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC
- Llunio adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
- Adolygu ac asesu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd y CBC, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw weithgareddau sydd eu hangen i'w wella.

**Sgiliau Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Darparu her a chefnogaeth yn eich rôl o fod yn ffynhonnell annibynnol o gefnogaeth i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth, cwestiynu, holi a cheisio eglurhad i ddod i farn annibynnol a diduedd.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf a'r gallu i weithio, dylanwadu a chynghori rhanddeiliaid amrywiol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i gyfrannu at drafodaethau
- Hyder i herio a dal uwch staff yn atebol
- Annibyniaeth, gwrthrychedd a disgresiwn gyda barn gadarn
- Y gallu i gadw cyfrinachedd llym

**Cymwysterau a Phrofiad**

Yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad o un neu fwy o'r hyn a ganlyn:

- Cefndir ariannol neu fath archwilio a/neu brofiad priodol o reoli ariannol
- Gwerthfawrogiad cryf o egwyddorion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a'u defnydd ymarferol
- Dealltwriaeth gadarn o rolau archwilio mewnol ac allanol
- Gwybodaeth am ofynion adrodd allanol o dan safonau cyfrifeg y DU
- Rheoli cyllideb a phrofiad cynllunio busnes
- Dealltwriaeth o strwythurau, strategaethau ac amcanion sefydliadol
- Profiad o weithio mewn neu gyda sefydliadau mawr, cymhleth sydd â dealltwriaeth o'r amgylchedd gwleidyddol y mae llywodraeth leol yn gweithredu ynddo

**Ymrwymiad Amser**

- Mynychu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhelir yn rhithiol.
- Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod bob chwarter o fewn unrhyw flwyddyn galendr.
- Cefnogi'r cadeirydd lleyg yn ei rôl a chyfrannu yn rheolaidd wrth i faterion godi.
- Mynychu hyfforddiant/digwyddiadau drwy gytundeb.

**Telerau**

- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi am gyfnod o bedair blynedd. Gall Aelodau Lleyg dreulio hyd at uchafswm o wyth mlynedd ar y pwyllgor.
- Bydd disgwyl i chi fynychu tua phedwar cyfarfod Is-bwyllgor y flwyddyn.
- Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod yn ystod y dydd, gan ddechrau am 10am neu 2pm fel arfer. Mae'r cyfarfodydd yn para 2 i 3 awr (ond gallant fod yn hwy o bryd i'w gilydd) a byddai angen i chi hefyd ddarparu rhywfaint o amser paratoi. Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol ar-lein ac fe'u gweddarlledir i'r cyhoedd eu gweld.

- Rôl wirfoddol yw'r swydd, ond mae gennych hawl i dâl am amser yn paratoi ac yn mynychu'r Is-bwyllgor. Cyfradd fesul awr Cadeirydd lleyg yr Is-bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yw £33.50; cyfradd fesul awr aelodau lleyg cyffredinol yw £29.75.

**Cyfyngiadau**

Ni ddylech:

- feddu ar swydd neu gyflogaeth, penodiad cyflogedig cyfredol neu arfaethedig, neu fod wedi cael eich ethol i CBC y Gogledd neu un o'i is-bwyllgorau
- bod wedi cael eich gwahardd rhag bod yn Aelod o Gyngor Cyfansoddol neu BC Eryri
- bod ag unrhyw euogfarnau troseddol neu fod yn fethdalwr heb ei ryddhau
- bod ag unrhyw fusnes sylweddol yn ymwneud â CBC y Gogledd neu unrhyw un o'r chwe chyngor cyfansoddol

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith**<br>**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| Dyddiad: | **26 Tachwedd 2024**<br>**5 Rhagfyr 2024** |
| Pwnc: | **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023/2024** |
| Aelod Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| Awdur yr Adroddiad | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| Aelodau Lleol: | **Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau:** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**1. Argymhellion:**

Bod y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor yn:

- nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2023/2024.

- awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol.

- rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion, a thrwy hynny, ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.

- parhau i gefnogi'r Cyngor i ddatblygu ei system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) fel llwyfan i brosesu cwynion a darparu data "byw" ar berfformiad o ran ymdrin â chwynion, fesul gwasanaeth, i swyddogion perthnasol, penaethiaid gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth.

**2. Cefndir**

Ers 2006, mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd gan ei swyddfa yn ystod y 12 mis diwethaf.

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau: |
|---|
| Yn ddiweddar, cyhoeddodd OGCC ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/2024.<br><br>Mae OGCC hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad pob cyngor; a elwir y llythyr blynyddol.<br><br>Mae Llythyr Blynyddol 2023/2024, ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), ynghlwm yn **Atodiad 1**.<br><br>**3. Llythyr Blynyddol 2023/2024 ar gyfer CSYM**<br><br>Mae'r Llythyr Blynyddol (y Llythyr) yn ymwneud yn bennaf â chwynion ynglŷn â gwasanaethau, ond mae'n cynnwys adran hefyd ar gwynion a wnaethpwyd o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.<br><br>**Y Prif Ddata ar gyfer CSYM mewn perthynas â Chwynion Gwasanaeth:**<br><br>▪ derbyniodd OGCC 38 o gwynion am wasanaethau, yn ymwneud â CSYM, yn 2023/2024 (Atodiad A i'r Llythyr). Mae hyn yn fwy na'r 25 o gwynion a dderbyniwyd yn 2022/2023 a 28 yn 2021/2022.<br><br>▪ Er hynny, ni wnaeth OGCC ymchwilio i'r un o'r 38 o gwynion (Atodiad C i'r Llythyr). Ni ymchwiliwyd i unrhyw gwynion yn 2022/2023 nac yn 2021/2022 chwaith.<br><br>▪ Roedd nifer y cwynion gwasanaeth a dderbyniodd OGCC ynglyn â CSYM, yn ystod 2023/2024, y trydydd uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, sef 0.55 fesul 1000 o drigolion (Atodiad A i'r Llythyr). Mae hyn yn cymharu â pherfformiad canolrifol CSYM o 0.36 fesul pen o'r boblogaeth yn 2022/2023 a 0.41 fesul pen o'r boblogaeth yn 2021/2022.<br><br>▪ Roedd 24% o'r cwynion ynglyn â CSYM, yn 2023/2024, yn ymwneud â'r ffordd yr oedd CSYM wedi ymdrin â chwynion (9 cwyn). (Atodiad B i'r Llythyr).<br><br>Mae hyn yn gyson â pherfformiad CSYM yn 2022/2023 pan roedd 24% o'r cwynion am CSYM hefyd yn ymwneud ag ymdrin â chwynion (6 chwyn).<br><br>Yn 2021 roedd 10% o'r cwynion am CSYM yn ymwneud ag ymdrin â chwynion (3 chwyn).<br><br>▪ Cafodd 24% o gwynion a dderbyniodd OGCC am CSYM, yn 2023/2024, eu datrys trwy ymyrraeth gynnar (datrysiad) gan OGCC (10 cwyn). (Atodiad C i'r Llythyr). Dyma'r lefel uchaf o ymyraethau yng Nghymru (24%), o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 14% yn 2023/2024.<br><br>Y perfformiad cyfatebol ar gyfer CSYM yn 2022/2023 oedd 20% (5 o gwynion). Y gyfradd ymyrraeth genedlaethol, ar gyfartaledd, oedd 13%.<br><br>Yn 2021/22, roedd lefel ymyraethau cynnar gan OGCC yn 11% (3 o gwynion), o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 14%. |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Y Prif Ddata ar gyfer CSYM mewn perthynas â Chwynion Cod Ymddygiad**

Yn ogystal â'r cwynion y mae OGCC yn eu derbyn ynglŷn â gwasanaethau, cyfeiria'r Llythyr hefyd at gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir, Tref a Chymuned.

- Ni chyfeiriodd OGCC unrhyw gwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag aelodau'r Cyngor Sir (i'r Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru) yn ystod 2023/2024. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion yn ystod 2022/2023 nac yn 2021/2022 chwaith.

- Ni chyfeiriodd OGCC unrhyw gwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag Aelodau Cyngor Tref neu Gymuned (i'r Pwyllgor Safonau, neu Banel Dyfarnu Cymru) yn ystod 2023/2024. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion yn ystod 2022/2023 nac yn 2021/22 chwaith.

**Casgliadau**

- Bu cynnydd yn nifer y cwynion gwasanaeth a gyflwynwyd i OGCC ond, unwaith eto, ni ymchwiliodd OGCC i'r un o'r cwynion. Gwelwyd cysondeb yn hynny o beth ers tair blynedd.

- Mae perfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion wedi dirywio ac mae mwy o ddibyniaeth ar ymyrraeth gan OGCC.

- Er bod gwasanaethau'n gyfrifol am ymateb i'w cwynion eu hunain, yn ogystal â'u datrys lle bo hynny'n briodol ac yn bosib, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod materion staffio corfforaethol yn rheswm tebygol/ffactor cyfrannol sylweddol mewn perthynas â'r dirywiad hwn yn y perfformiad o ran ymdrin â chwynion.

  Mae un o ddwy swydd allweddol yn parhau i fod yn wag, er bod tri chynnig wedi'u gwneud i recriwtio i'r swydd, ac mae staff asiantaeth yn cefnogi ar hyn o bryd.

  Bydd yr ail swydd allweddol yn dod yn wag ddiwedd Tachwedd 2024. Mae'n annhebygol iawn, felly, y bydd y lefel flaenorol o gefnogaeth gorfforaethol ar gael i wasanaethau yn y dyfodol agos, er bod recriwtio i'r swyddi hyn yn parhau i fod yn amcan.

- Mae'r prosiect CRM (y cyfeirir ato yn yr argymhelliad olaf ym mharagraff 1 uchod) yn parhau i ddatblygu, diolch yn bennaf i gefnogaeth gan y gwasanaeth Trawsnewid a'r adran Dechnoleg Gwybodaeth. Mae disgwyl i'r system fynd yn "fyw" yn gynnar yn 2025 ac mae trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu hyfforddiant i swyddogion perthnasol ar y system, ynghyd â hyfforddiant diweddaru'n ymwneud ag ymdrin â chwynion yn gyffredinol. Yn hwylus iawn, mae OGCC wedi cynnig darparu'r hyfforddiant ymdrin â chwynion. Bwriedir i'r llwyfan CRM awtomeiddio prosesau a darparu mwy o ddata amser real ynglŷn â pherfformiad ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol.

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth. Er hynny, nid yw gwasanaethau'n debygol o fod â rhagor o gapasiti i ddelio â chwynion.

- Rydym yn dibynnu felly at y datrysiad canlynol:

- Llenwi'r ddwy swydd wag gorfforaethol
- Cyflwyno system CRM newydd
- Darparu hyfforddiant a datblygiad pellach i staff perthnasol
- Trosolwg gan uwch reolwyr o fewn y gwasanaeth
- Trosolwg gan y Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; yn ogystal ag Aelodau'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'u portffolios eu hunain
- Cyhoeddi data ynglŷn â chwynion ar wefan y Cyngor bob chwarter, fel sy'n cael ei rannu ag OGCC.

**Mae OGCC yn gofyn am y canlynol:-**

- "*Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn*"

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r cais uchod, ac yn ychwanegol at hynny, mae'n cael ei gyhoeddi ar gyfer yr holl Aelodau a'r cyhoedd. Mae OGCC wedi derbyn gwybodaeth am ddyddiadau'r cyfarfodydd hyn.

- *"Ystyried y data yn y llythyr hwn, ynghyd â'ch data eich hunain, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa".*

- "*Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl*".

Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 4. Gwybodaeth Ychwanegol

Yn ogystal â'r Llythyr Blynyddol, mae gwybodaeth am bryderon, cwynion a chanmoliaeth yn cael ei gyhoeddi bob chwarter ar wefan y Cyngor o dan Ystadegau Cwynion y Cyngor (llyw.cymru)

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion. Cyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer 2023/2024 i'r Pwyllgor ar 19 Medi 2024.

| B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Nid oedd unrhyw opsiynau eraill. |

| C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gais OGCC. |

| Ch - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amherthnasol |

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol |

| Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys | Diben y Polisi Cwynion Corfforaethol yw dysgu gwersi pan fydd pethau'n mynd o chwith a gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn ôl yr angen a lle bo hynny'n bosibl. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, dywedwch gyda phwy: | Mae'r ffeithiau a gyflwynir yn cyfrannu at adeiladu gwell gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae cwynion ynglŷn â'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol ac ymdrinnir â nhw os cânt eu derbyn.<br><br>Os derbynnir cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg, byddant yn cael eu |

| Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys yn yr Adroddiad ar Safonau'r Gymraeg 2023-24. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Ystyriwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth ar 15 Hydref 2024. Holl aelodau'n gefnogol o'r Adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Ymgynghorwyd fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Mae'r gwasanaeth Trawsnewid a'r adran TGCh yn cefnogi'r prosiect CRM |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | Mae'r adroddiad hwn ar gyfer yr holl Aelodau |

| F - Atodiadau |
|---|
| Copi o Lythyr Blynyddol 2023/2024 |

| Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

**Ombwdsmon**
**Ombudsman**
Cymru • Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
☎ 01656 641150
✉ Caseinfo@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 9 Medi 2024

---

Cynghorydd Gary Pritchard
Cyngor Sir Ynys Môn

**Trwy ebost yn unig**
garypritchard@anglesey.gov.uk
dylanwilliams@ynysmon.gov.uk

**Llythyrau Blynyddol 2023/24**

Annwyl Cynghorydd Pritchard

**Rôl OGCC**

Fel y gwyddoch, rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus, ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr, gosod safonau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gyrff cyhoeddus a sbarduno gwelliant mewn ymdrin â chwynion a dysgu o gwynion. Rwyf hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar fy liwt fy hun.

**Diben y llythyr**

Bwriad y llythyr hwn yw rhoi diweddariad ar waith fy swyddfa, rhannu materion allweddol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a thynnu sylw at unrhyw faterion penodol ar gyfer eich sefydliad, ynghyd â chamau yr hoffwn i'ch sefydliad eu cymryd.

**Trosolwg o 2023/24**

Mae'r llythyr hwn, fel bob amser, yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "Pennod Newydd yn Datblygu" - a daw ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod o dan y chwyddwydr, ac o dan bwysau sylweddol. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynnydd o 17% mewn cysylltiadau cyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda bron i 10,000 o ymholiadau a chwynion wedi'u derbyn. Mae ein llwyth achosion wedi cynyddu yn sylweddol - gan 37% - ers 2019.



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Yn 2023/24, gwnaethom ystyried a chau mwy o ymholiadau a chwynion nag yr ydym erioed wedi'u gwneud o'r blaen, a gwnaethom leihau'r gost gyfartalog ar gyfer pob achos ac ymchwiliad. Dechreuom y flwyddyn gyda ffocws ar leihau ein hachosion sy'n heneiddio, sef y rhai dros 12 mis oed, o 50% erbyn diwedd y flwyddyn. Yr achosion hyn yn aml yw'r rhai mwyaf cymhleth a gofidus i'r bobl sy'n cwyno. Mae'n bleser mawr gennyf ddweud ein bod wedi rhagori ar y targed hwn, gan leihau ein hymchwiliadau hŷn o dros 70%. Rydym bellach ar y trywydd cywir i gyflawni ein hamcan i gwblhau ymchwiliadau i gwynion o fewn 12 mis.

**Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydymffurfiaeth ag Argymhellion**

Gwnaed cyfanswm o 1,108 o gwynion am awdurdodau lleol i ni'r llynedd - tua'r un nifer â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 14% o gwynion awdurdodau lleol - cyfran debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

Cawsom 38 o gwynion am Cyngor Sir Ynys Môn yn 2023/24 a gwnaethom gau 41 - gwnaed rhai argymhellion yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd ymyrryd Cyngor Sir Ynys Môn yn 24%. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gwynion am eich sefydliad yn yr atodiadau.

Gwnaethom 26 argymhelliad i'ch cyngor yn ystod y flwyddyn. I sicrhau bod ein hymchwiliadau a'n hadroddiadau yn sbarduno gwelliant, gwnawn waith dilynol ar gydymffurfiaeth â'r argymhellion y cytunwyd arnynt gyda'ch sefydliad. Yn 2023/24, roedd angen cydymffurfio â 24 argymhelliad a chydymffurfiwyd â 92% o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Cydymffurfiwyd â'r gweddill, ond y tu allan i'r amserlenni y cytunwyd arnynt neu maent yn parhau i fod heb eu cyflawni yn ystod 9 Ebrill 2024.

Caiff argymhellion ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio ag argymhellion bob amser eu cytuno gyda'r corff cyhoeddus dan sylw cyn eu cwblhau, ac felly rydym yn disgwyl sefydliadau i gydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

**Ein gwaith Cod Ymddygiad**

Fy rôl yw ymchwilio i honiadau bod cynghorwyr wedi torri eu Cod Ymddygiad. Pan fydd ymchwiliad yn canfod tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn ar fater sy'n ddigon difrifol fel bod angen ei gyfeirio er budd y cyhoedd, caiff yr achosion hyn eu cyfeirio naill ai at y Pwyllgor Safonau lleol neu'r Panel Dyfarnu Cymru i'w hystyried.

Yn 2023/24, cawsom 16% yn fwy o gwynion y Cod Ymddygiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Gwnaeth fy swyddfa 21 o atgyfeiriadau - at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, cynnydd o 12 y flwyddyn flaenorol.

Rwy'n ddiolchgar i'ch Swyddog Monitro am eu hymgysylltiad cadarnhaol gyda'm swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf. Eleni byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw ar faterion sy'n ymwneud â'r fframwaith safonau moesegol, gan gynnwys Gweithdrefnau Datrys Lleol.

## Adolygiad Annibynnol

Fel y gwyddoch, deuthum yn ymwybodol o sylwadau amhriodol, o natur wleidyddol, a wnaed gan aelod o'm staff ar gyfryngau cymdeithasol. Adroddwyd y sylwadau hyn yn eang yn y cyfryngau. Ataliwyd yr aelod o staff dan sylw o'i gwaith, ac wedi hynny, ymddiswyddodd. Fodd bynnag, ysgogodd y sylwadau gwestiynau am waith fy swyddfa ar achosion Cod Ymddygiad Cynghorwyr.

Oherwydd difrifoldeb y mater, comisiynais Dr Melissa McCullough i gynnal adolygiad annibynnol o'n gwaith Cod Ymddygiad, ac rwyf wedi cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl llawn ar gyfer yr adolygiad hwnnw. Rwyf i a'm staff yn ymgysylltu yn agos â'r Grŵp Swyddogion Monitro a'r Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau mewn perthynas â'r mater hwn. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad terfynol Dr McCullough ar ôl iddi gwblhau'r adolygiad a byddwn yn ei rannu â Phwyllgor Cyllid y Senedd yr Hydref hwn.

## Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus

Gwnaethom barhau â'n gwaith ar gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus y llynedd a buom yn gweithio ar ein hail ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain. Mae'r ymchwiliad yn cynnwys pedwar awdurdod lleol ac yn ystyried asesiadau o anghenion gofalwyr. Rwy'n ddiolchgar i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt am eu cydweithrediad a'u gonestrwydd drwy gydol y flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at rannu ein hadroddiad terfynol yr hydref hwn. Bydd hwn yn gwneud argymhellion i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt a bydd yn gofyn i'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru i wneud gwelliannau tebyg.

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar safonau ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac erbyn hyn mae gennym 56 o gyrff cyhoeddus yn dilyn ein polisi enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae'r cyrff cyhoeddus hyn yn cyfrif am tua 85% o'r cwynion a gawn. Rydym wedi parhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion, a gasglir gan gyrff cyhoeddus, gan gyhoeddi data ddwywaith y flwyddyn.

Gwnaethom barhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am drydedd flwyddyn, gyda data bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Mae'r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, aeth 14% o'r cwynion a wnaed i Cyngor Sir Ynys Môn ymlaen i gael eu cyfeirio at OGCC.

## Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.

- Ystyried y data yn y llythyr hwn, ynghyd â'ch data eich hunain, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Hoffwn ddiolch i chi, a'ch swyddogion, am barhau i fod yn agored, ac am ymgysylltu, gyda fy swyddfa.  Mae ein gwybodaeth yn dangos bod awdurdodau lleol yn ystyried mwy o gwynion nag erioed o'r blaen ac yn defnyddio gwybodaeth o gwynion i sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Yn gywir,



**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cc.    Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn

**Taflen Ffeithiau**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| Awdurdod Lleol | Cywnion a Gafwyd | Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 15 | 0.22 |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 59 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 56 | 0.32 |
| Cyngor Caerdydd* | 149 | 0.41 |
| Cyngor Sir Gâr | 69 | 0.37 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 32 | 0.45 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 36 | 0.32 |
| Cyngor Sir Ddinbych** | 31 | 0.33 |
| Cyngor Sir y Fflint | 51 | 0.32 |
| Cyngor Gwynedd | 38 | 0.55 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 38 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 12 | 0.31 |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 29 | 0.25 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 35 | 0.33 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 52 | 0.32 |
| Cyngor Sir Penfro | 40 | 0.41 |
| Cyngor Sir Powys | 54 | 0.27 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 64 | 0.34 |
| Cyngor Abertawe | 81 | 0.34 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 14 | 0.15 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 77 | 0.58 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 76 | 0.56 |
| **Cyfanswm** | **1108** | **0.36** |

* yn cynnwys 2 Rhentu Doeth Cymru

** yn cynnwys 1 Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru • Wales

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 0 | 0% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 3 | 8% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 6 | 16% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 1 | 3% |
| Ymdrin â Chwynion | 9 | 24% |
| Covid-19 | 0 | 0% |
| Addysg | 1 | 3% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 0 | 0% |
| Cyllid a Threthiant | 6 | 16% |
| Tai | 3 | 8% |
| Trwyddedu | 1 | 3% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 6 | 16% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 1 | 3% |
| Amrywiol Eraill | 1 | 3% |
| Cyfanswm | **38** | |

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Tu hwnt i Awdurdodaeth | 4 | 10% |
| Cynamserol | 13 | 32% |
| Achosion eraill wedi’u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 14 | 34% |
| Datrys yn Gynnar/ setliad gwirfoddol* | 10 | 24% |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill - Heb eu Cadarnhau | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill Wedi’u Cadarnhau | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Cyhoeddus* | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Arbennig* | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **41** | |

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 8 | 59 | 14% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 3 | 48 | 6% |
| Cyngor Caerdydd | 28 | 144 | 19% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 0 | 3 | 0% |
| Cyngor Sir Gâr | 8 | 60 | 13% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 7 | 32 | 22% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 37 | 0% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 2 | 32 | 6% |
| Cyngor Sir Ddinbych - Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru | 0 | 1 | 0% |
| Cyngor Sir y Fflint | 8 | 57 | 14% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 39 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 10 | 41 | 24% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3 | 14 | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 3 | 32 | 9% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 34 | 15% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 5 | 51 | 10% |
| Cyngor Sir Penfro | 7 | 38 | 18% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 53 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 11 | 63 | 17% |
| Cyngor Abertawe | 12 | 77 | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 14 | 14% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 15 | 71 | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7 | 79 | 9% |
| **Cyfanswm** | **158** | **1095** | **14%** |

Atodiad E – Cymhariaeth o berfformiad cydymffurfio

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer yr argymhellion a wnaed yn 2023-24** | **Nifer yr argymhellion sy'n ddyledus yn 2023-24** | **% yr argymhellion, y cydymffurfiwyd â nhw ar amser** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 1 | 1 | 100% |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 18 | 20 | 35% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 9 | 9 | 11% |
| Cyngor Caerdydd | 74 | 75 | 92% |
| Cyngor Sir Gâr | 25 | 25 | 52% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 23 | 23 | 78% |
| Cyngor Abertawe | 29 | 32 | 63% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 1 | 0% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 5 | 6 | 67% |
| Cyngor Sir y Fflint | 17 | 17 | 59% |
| Cyngor Gwynedd | 12 | 19 | 74% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 26 | 24 | 92% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 11 | 9 | 56% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 4 | 4 | 25% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 14 | 14 | 29% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 10 | 7 | 43% |
| Cyngor Sir Penfro | 24 | 23 | 96% |
| Cyngor Sir Powys | 18 | 16 | 31% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 26 | 26 | 77% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 3 | 3 | 67% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 50 | 48 | 92% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 16 | 19 | 42% |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

Atodiad F - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | | Cyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|
| Ymchwiliadau | **Penderfyniad i beidio ag ymchwilio** | 3 |
| | **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 0 |
| | **Dim tystiolaeth o dorri'r cod** | 0 |
| | **Dim angen gweithredu** | 0 |
| | **Cyfeirio at y Panel Dyfarnu** | 0 |
| | **Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** | 0 |
| | **Cyfanswm** | **3** |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

## Atodiad G - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | | Ymchwiliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tynnwyd yn ôl | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Cyfanswm |
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pentraeth Community Council | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

**Taflen Wybodaeth**

Mae **Atodiad A** yn dangos nifer y cwynion a gafodd OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2023/24.  Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae **Atodiad B** yn dangos categori pob cwyn a gafwyd, a pha gyfran o'r cwynion a gafwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad C** yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2023/24.  Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad D** yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2023/24.  Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae **Atodiad E** yn dangos perfformiad o ran cydymffurfiad ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad F** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2023/24.  Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad G** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2023/24.  Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am hynt y gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed gan CIPFA yn dilyn ei adolygiad o effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn 2024. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad yn dilyn darn o waith a gwblhawyd i fodloni gofynion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022, sy'n argymell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.

1.2. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2024 a gofynnodd am ddiweddariad arall ymhen chwe mis.

1.3. Mae'r adroddiad hwn y rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed gan CIPFA. O ran y 10 argymhelliad a wnaed a 13 cam gweithredu a gynigiwyd i ddatrys yr argymhelliad, mae 10 cam gweithredu wedi'u gweithredu'n llawn, dau wedi'u nodi ac mae un cam yn parhau i fynd rhagddo, sef:

- darparu hyfforddiant i swyddogion ar adrodd i'r Pwyllgor.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau gweithredu yn y tabl isod a'i fod yn fodlon gyda'r modd y mae'r argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith.

## Cynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Diwygio a symleiddio cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys pob agwedd ar ei waith, a dileu unrhyw ddyblygu. | Cytunwyd. Bydd yn cael ei wneud yn ystod yr adolygiad o'r Cyfansoddiad. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>31 Mawrth 2024 | **Wedi'i gwblhau.** Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fersiwn derfynol yn ffurfiol ar 27/06/24. |
| 2 | Cynllunio agendâu pwyllgor i flaenoriaethu'r eitemau lle gall y Pwyllgor gael effaith, a'i gefnogi i wneud hynny. Sicrhau bod adroddiadau i'r Pwyllgor yn nodi'n glir pam mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno, a rôl aelodau'r pwyllgor wrth dderbyn ac ystyried yr adroddiadau hyn. | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu'r agenda drafft i sicrhau bod trefn yr eitemau yn briodol, a bydd yr eitemau i'w nodi yn cael eu symud i'r diwedd.<br><br>Mae'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiadau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad trosolwg. Fodd bynnag, bydd Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu pob un i sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n llawn ac yn ddigonol.<br><br>Mae'r Flaenraglen Waith hefyd yn cyfeirio at gylch gorchwyl y Pwyllgor mewn perthynas â phob eitem, felly mae adroddiadau'n cael eu blaenoriaethu a'u cyflwyno fesul un drwy gydol y flwyddyn. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | **Wedi'i gwblhau.** |

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Annog swyddogion i roi cyflwyniadau byr i'w hadroddiadau er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol. Ystyried gosod terfyn amser ar gyfer cyflwyniadau swyddogion. | Fel yr uchod, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu adroddiad trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau ei fod yn ddigonol ac wedi'i gwblhau'n llawn. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | **Wedi'i gwblhau.** |
| | | Bydd yn trafod gyda'r Cadeirydd ynghylch cyfeirio at yr adroddiadau trosolwg hyn. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | **Wedi'i gwblhau.** |
| | | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn trafod darparu hyfforddiant i swyddogion ar adrodd i'r Pwyllgor gyda'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu AD. | Rheolwr Hyfforddi a Datblygu AD<br><br>31 Mawrth 2025 | **Ar waith.** Mae'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu AD wedi cadarnhau bod hyfforddiant ar gyfer swyddogion sy'n adrodd i bwyllgorau wedi'i gynnwys ar y cynllun hyfforddi ar gyfer 2024/25. |
| 4 | Ailystyried cydbwysedd rolau gweinyddol y pwyllgor i gefnogi'r Pwyllgor i weithio'n fwy effeithiol. | Mae adnoddau presennol y Gwasanaethau Democrataidd yn golygu nad oes cynhwysedd i gefnogi ymhellach. Mae hyn yn annhebygol o newid oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol. | Prif Weithredwr a Swyddog Monitro | **Wedi'i nodi.** |
| 5 | Symud at gofnodion sy'n canolbwyntio ar weithredu, sy'n cofnodi elfennau allweddol y drafodaeth a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn unig. Defnyddio termau | Cytunwyd. Byddwn yn cynhyrchu cofnodion sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu a phenderfyniadau'r Pwyllgor. | Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyfarfod nesaf | **Wedi'i gwblhau.** |

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| | cyson ynghylch penderfyniadau. | | | |
| 6 | Cefnogi'r aelodau lleyg presennol i gael eu hintegreiddio'n fwy i'r Pwyllgor. | Y Cadeirydd i ystyried proses arfarnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor. | Cadeirydd | **Wedi'i nodi.** Rydym wedi atgoffa'r aelodau lleyg bod modd iddynt ymuno yn y sesiynau briffio i aelodau. |
| 7 | Gweithio gyda chynghorwyr risg y Cyngor i sicrhau bod y Pwyllgor yn glir ynghylch ei rolau risg ac yn eu cyflawni. | Bydd y mater yn cael ei adolygu fel rhan o'r asesiad o drefniadau Rheoli Risg y Cyngor sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Zurich. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | **Wedi'i gwblhau.** Mae'r Polisi, Strategaeth a Chanllawiau Rheoli Risg wedi cael eu diweddaru i sicrhau bod y rolau'n glir. Mae paragraff wedi cael ei ychwanegu i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor o dan y pennawd Rheoli Risg er mwyn cadarnhau cyfrifoldebau'r Pwyllgor pan fydd yn gweithredu fel pwyllgor risg. |
| 8 | Ystyried sut y gall archwilio mewnol weithio'n agosach gyda'r Pwyllgor, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda'r Cadeirydd cyn ac ar ôl cyfarfodydd, i nodi ffyrdd o ddatblygu'r Pwyllgor. | Cytunwyd. Ar hyn o bryd mae Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfarfod â'r Cadeirydd ar sail ad hoc. Fodd bynnag, yn y dyfodol bydd yn cyfarfod yn fwy ffurfiol gyda'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn dilyn pob cyfarfod. | Pennaeth Archwilio a Risg/ Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd<br><br>Ar unwaith | **Wedi'i gwblhau.** Mae'r Cadeirydd a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfarfod yn anffurfiol yn rheolaidd cyn ac ar ôl cyfarfodydd ac maent yn trafod ffyrdd o ddatblygu'r Pwyllgor. |
| 9 | Cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol ar wahân, yn ffurfiol ac yn breifat o leiaf unwaith y | Cytunwyd. Fe drefnir cyfarfod preifat ar wahân rhwng Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol a'r Pwyllgor, heb i swyddogion eraill fod yn bresennol. Ni | Pennaeth Archwilio a Risg | **Wedi'i gwblhau.** Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael ei ddiweddaru fel bod hyn yn cael ei nodi'n glir. |

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| | flwyddyn, a chwrdd â'r archwilwyr mewnol yn anffurfiol rhwng cyfarfodydd. | fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gofnodi na'i weddarlledu. Mae’r cyfarfod preifat cyntaf wedi’i drefnu ar gyfer 18 Ebrill 2024, i’w gynnal yn dilyn y cyfarfod ffurfiol. | Archwilio Cymru<br>Cadeirydd<br>Unwaith y flwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2024 | Cynhaliwyd y cyfarfod preifat cyntaf ar 18 Ebrill 2024. |
| 10 | Ystyried cynhyrchu nodyn briffio byr gan y Cadeirydd ar ôl pob cyfarfod, yn crynhoi'r pwyntiau allweddol i'w rhannu gyda'r holl aelodau. | Bydd cofnodion sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu yn cynorthwyo'r Cadeirydd i baratoi nodyn briffio, os yw'n teimlo bod hynny’n angenrheidiol. | Cadeirydd | **Wedi’i gwblhau.** Mae’r Cadeirydd wedi cynhyrchu Nodyn Briffio ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024 a chafodd ei rannu ag Aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Mai 2024. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol fod y Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'r ddyletswyddau deddfwriaethol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1).

Mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt (3.4.8.10.10)

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 , yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, sy'n nodi'r angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio adrodd ar wybodaeth am gynnydd a chanlyniadau gweithgareddau archwilio (Safon 2060).

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor am y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 28 Tachwedd 2024 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 31 Awst 2024 llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:

- canlyniad y gwaith Archwilio mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd ac
- ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

## Rhagfyr 2024





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**




# Cynnwys


Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ____ 1
Trosolwg o Bartneriaethau (YM15) ____ 2
Mesurau rheoli atal twyll ar gyfer ad-daliadau Refeniw ____ 2
Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch (YM3) ____ 3
Gwaith ar y Gweill ____ 3
Camau Gweithredu sy'n Weddill ____ 4
Blaenoriaethau ____ 4
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ____ 4
Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy ____ 4
Tendr ar gyfer darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol ____ 4
Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028 ____ 4
Datblygiadau Eraill ____ 5
Newidiadau i'r Safonau Archwilio Mewnol ____ 5
Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU ____ 5
Adolygiad o Ganllawiau CIPFA a Solace ar yr Adolygiad Blynyddol a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ____ 6






# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Medi 2024, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **tri** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Trosolwg o Bartneriaethau (YM15) | **Rhesymol** | 0 | 0 | 6 |
| Mesurau Rheoli Atal Twyll ar gyfer Ad-daliadau Refeniw | **Rhesymol** | 0 | 0 | 4 |
| Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch | **Rhesymol** | 0 | 0 | 12 |

## Trosolwg o Bartneriaethau (YM15)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/ Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 6 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer partneriaethau a threfniadau cydweithio o bwys?**

4. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi sefydlu elfennau allweddol o fframwaith llywodraethu partneriaethau, gan gynnwys polisi, pecyn cymorth a rhaglen sgriwtini. Serch hynny, nid yw'r mesurau rheoli hyn yn gyson effeithiol gan nad yw rheolwyr yn ddigon ymwybodol ohonynt. Ar ôl edrych ar ddetholiad o bartneriaethau gwelwyd nad yw trefniadau llywodraethu rhwng y Cyngor a'i bartneriaid strategol yn cael eu ffurfioli mewn cytundebau bob amser, gan fod dryswch ynglŷn â beth sy'n cael ei ystyried yn bartneriaeth ac nid yw'r mesurau rheoli'n cael eu rhoi ar waith yn gyson. Mae'r broblem yn waeth oherwydd diffyg trosolwg gorfforaethol.



5. Mae gan y Cyngor gofrestr o bartneriaethau i gefnogi ei strategaeth a'i weithgareddau sgriwtini, ac mae'n cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn gywir ac yn berthnasol. Mae angen gwella trefniadau rheoli perfformiad gan fod bylchau o ran monitro canlyniadau a chynnal adolygiadau hunanasesu rheolaidd. Nid yw'r prosesau cyfredol ar gyfer herio gwasanaethau chwaith yn arfarnu effeithiolrwydd partneriaethau'n llawn.

6. Mae risgiau partneriaethau'n cael eu cydnabod yn y gofrestr risgiau strategol. Mae'r Cyngor wrthi'n diweddaru ei Gofrestr Partneriaethau a'r Pecyn Cymorth er mwyn gwella'r ystyriaeth o risg ar gyfer partneriaethau o bwys. Mae'r pwyllgorau Sgriwtini wedi sefydlu cynllun adolygu 24 mis ar gyfer partneriaethau allweddol, ac mae'r Cyngor Llawn yn derbyn adroddiad blynyddol ar y deilliannau er mwyn cynorthwyo gyda chyfrifoldebau llywodraethu.

7. Er bod yr adolygiad yn tynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella, mae'n darparu sicrwydd rhesymol mewn perthynas â llywodraethiant a rheoli risg yn y maes hwn a chytunwyd ar gynllun gweithredu gydag uwch arweinwyr.



## Mesurau rheoli atal twyll ar gyfer ad-daliadau Refeniw

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 4 | Cymedrol |

8. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A oes gan y Cyngor fesurau rheoli atal twyll effeithiol ar waith yn ei broses ad-daliadau Refeniw er mwyn lleihau'r risg o dwyll 'bygythiadau mewnol'?**

9. Sbardunwyd yr adolygiad hwn gan dwyll gwerth £1m yng Nghyngor Dinas Aberdeen a dderbyniodd gryn dipyn o gyhoeddusrwydd. Er bod gan y Cyngor rai mesurau effeithiol ar waith i liniaru'r risg o dwyll mewnol yn gysylltiedig ag ad-daliadau refeniw, canfuom fod gwendidau allweddol yn y mesurau rheoli, swyddogaethau systemau a chyfrifon credyd segur yn cynyddu'r risg o dwyll.

10. Er bod rhaid i ad-daliadau gael eu hawdurdodi gan reolwr annibynnol sy'n cynnal gwiriadau sylfaenol, oherwydd bod gwendid yn y system byddai ad-daliad yn cael ei brosesu'n llwyddiannus hyd yn oed os nad yw enw'r talai yn cyd-fynd â chyfrif banc y sawl sy'n derbyn yr ad-daliad, gan olygu bod twyll yn bosib. Yn ogystal, gall swyddogion awdurdodi addasu manylion banc cyn cwblhau'r ad-daliad ac mae hynny'n creu'r risg y gallai taliadau gael eu hailgyfeirio.

11. Mae nifer o gyfrifon Treth Gyngor a Threthi Busnes segur ac maent yn agored iawn i dwyll, fel y gwelwyd gydag achos Aberdeen. Er y gallai twyll yn gysylltiedig â chyfrifon gweithredol gael ei ddarganfod wrth i gwsmeriaid honni nad ydynt wedi derbyn eu had-daliadau, ond mae twyll yn gysylltiedig â chyfrifon segur yn llai tebygol o gael ei ddarganfod yn brydlon, gan olygu bod y risg yn fwy.

12. Y gwendidau hyn a ganiataodd i'r twyll yn Aberdeen ddigwydd. Serch hynny, er bod y posibilrwydd o dwyll yn bodoli, ystyrir bod y risg cyffredinol o dwyll yn y maes hwn yn isel ac mae'r Cyngor wedi cytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

## Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch (YM3)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 12 | Cymedrol |

13. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A oes gan y Cyngor lefel briodol o gadernid seiber, yn unol â gofynion Fframwaith Asesu Seiber y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol?**

14. Canfu'r adolygiad o drefniadau seiberddiogelwch y Cyngor, a gynhaliwyd gan arbenigwyr archwilio TG allanol, fod y mesurau sydd ar waith yn gymharol effeithiol yn gyffredinol, gyda nifer o fesurau rheoli cadarn i leihau risgiau seiberddiogelwch.

15. Er hynny, mae'r bylchau a nodwyd yn golygu nad yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio'n llawn â Fframwaith Asesu Seiber y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn y tymor byr, oni bai bod rhagor o arian yn cael ei fuddsoddi mewn technoleg, personél a phrosesau.



16. Amlygodd yr adolygiad 12 maes i'w gwella, gan adlewyrchu cwmpas cynhwysfawr yr archwiliad. Ni ddylai rheolwyr fod yn orbryderus ynglŷn â hyn gan y bydd y gwelliannau a nodwyd yn sail i gynllun gweithredu i fynd i'r afael â bylchau a gwella trefniadau seiberddiogelwch ymhellach.

17. Mae'r Cyngor yn symud tuag at gydymffurfio'n llawn â'r Fframwaith Asesu Seiber ac mae'n cymryd rhan mewn prosiect cenedlaetholo dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi'r ymdrech hwn.

# Gwaith ar y Gweill

18. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Cyflwynwyd y data yn unol â'r amserlen. Rydym yn disgwyl derbyn yr adroddiadau paru ddiwedd mis Rhagfyr 2024. |
| Datganiadau o Ddiddordeb | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Wedi'i ohirio gan ei fod wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gwella Caffael. Mae canlyniadau'r gwaith profi wedi'u rhannu â'r tîm. |
| Ymchwiliad - Gwasanaethau Tai | Cwyn | Wedi'i gohirio o ganlyniad i broses ddisgyblu |
| Recriwtio a Chadw Staff | Cofrestr Risgiau Strategol (YM2) | Adroddiad drafft |
| Strategaeth Dai y Cyngor | Cofrestr Risgiau Strategol (YM9) | Adroddiad drafft |
| Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo | Cwyn | Adroddiad drafft |
| Darpariaeth Gofal Plant ac Addysg Cyfrwng Cymraeg | Ar gais y Prif Weithredwr | Gwaith Maes |
| Rheoli Asedau'r Cyngor | Cofrestr Risgiau Strategol (YM14) | Gwaith Maes |
| Archwiliad TG: Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Prynu (PCI DSS) | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Gwaith Maes |
| Rheoli Perfformiad | Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25 | Pennu Cwmpas |
| Sail y Dreth Gyngor | Ar gais y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Pennu Cwmpas |

# Camau Gweithredu sy'n Weddill

19. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

20. Ar 28 Tachwedd 2024 roedd saith mater / risg / cyfle cymedrol yn hwyr a heb dderbyn sylw erbyn y dyddiad targed, fel y gwelir isod. Mae'r holl weithredoedd hyn yn ymwneud â'r Gwasanaeth Adnoddau.

21. Mae chwech o'r gweithredoedd yn gysylltiedig ag archwiliad o drefniadau Adennill y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a Dyledion Amrywiol ac mae adolygiad dilynol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

22. Mae'r weithred sy'n weddill yn ymwneud â mater sydd â gradd 'resymol' a godwyd yn ystod adolygiad o drefniadau 'Cynnal Cyflenwyr a Dyblygu Taliadau' mewn perthynas ag adennill taliadau wedi'u dyblygu i gredydwyr ac mae camau'n mynd rhagddynt.

**Materion / Risgiau / Cyfleoedd Hwyr fesul Gwasanaeth**






# Blaenoriaethau

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

23. Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran Gwaith ar y Gweill yn gynharach yn yr adroddiad.

24. Rydym yn gwneud cynnydd cyson o ran ein Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25 a Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025.

## Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy

**Tendr ar gyfer darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol**

25. Mae timau archwilio mewnol Llywodraeth Leol ar draws y Deyrnas Unedig yn wynebu anawsterau mewn perthynas ag adnoddau, oherwydd swyddi gweigion, diffyg sgiliau arbenigol a thoriadau cyllidebol.

26. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham wedi cynnal ymarfer tendr ar ran rhanbarth gogledd a chanolbarth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol. Maent yn cynnwys rolau arbenigol, gan gynnwys archwilio TG.

27. Mae'r ymatebion cychwynnol wedi cael eu harfarnu ond siomedig ydynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r canlyniad.

**Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028**

28. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth newydd ar gyfer 2025-2028 wedi dechrau, a bwriedir ymgynghori â chydweithwyr mewnol ac allanol ynglŷn â datblygu Asesiad Risg Twyll.

29. Cyflwynir y Strategaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hystyried yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025.

# Datblygiadau Eraill

**Newidiadau i'r Safonau Archwilio Mewnol**

30. Ers 2013, Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS), sy'n seiliedig ar Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) Sefydliad yr Archwilwyr Allanol (IIA), yw'r safonau archwilio mewnol gorfodol ar gyfer sector llywodraeth leol y DU.

31. Cyhoeddodd y Bwrdd Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol (IIASB) Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang newydd ym mis Ionawr 2024.

32. Yn dilyn yr adolygiad, mae'r Gosodwr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) wedi cytuno y bydd Sector Cyhoeddus y DU yn mabwysiadu'r safonau hyn ac mae Bwrdd Ymgynghori ar Safonau Archwilio Mewnol y DU (IASAB) wedi cael y dasg o'u hasesu er mwyn llunio dehongliadau penodol ar gyfer gwahanol sectorau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio gan sector cyhoeddus y DU.[1]

33. Ar wahoddiad CIPFA, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi bod yn rhan o weithgor i gyflawni'r gwaith hwn.

34. Cyhoeddwyd y deilliant (Nodyn Cymhwyso) er mwyn ymgynghori arno ym mis Hydref 2024. Cyfarfu'r IASAB ym mis Tachwedd 2024 i ystyried y 44 ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Yn sgil hynny mae'r IASAB yn mireinio'r cynnwys a'i gyflwyno i'r holl RIASS er mwyn ei gymeradwyo, gyda'r nod o gwblhau'r broses hon a chyhoeddi cyn y Nadolig.

35. Os aiff popeth yn ôl y disgwyl, bydd y safonau newydd - Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang (sector cyhoeddus y DU) yn cael eu mandadu a byddant yn cynnwys:

- Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol yr IIA (GIAS)
- Nodyn Cymhwyso: Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol sector cyhoeddus y DU

**Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU**

36. Mae CIPFA wedi datblygu Cod newydd i gynorthwyo awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu trosolwg a chefnogaeth ar gyfer archwilio mewnol.

37. Lluniwyd y Cod i weithio ochr yn ochr â'r safonau archwilio mewnol newydd - GIAS (sector cyhoeddus y DU (y cyfeirir atynt uchod)) ac mae'n cymryd lle'r cyfrifoldebau sefydliadol a gynhwysir yn y Datganiad ar rôl y pennaeth archwilio mewnol (CIPFA, 2019).

38. Mae wedi'i anelu at y rhai hynny sy'n gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer archwilio mewnol:

- y corff neu'r unigolion sy'n gyfrifol am lywodraethiant
- y pwyllgor archwilio
- uwch reolwyr, gan gynnwys y swyddogion statudol, pennaeth y gwasanaeth cyflogedig, y swyddog monitro a'r swyddog adran 151.

39. Nid yw'r GIAS (sector cyhoeddus y DU) yn creu unrhyw ofynion ychwanegol i sector cyhoeddus y DU mewn perthynas â llywodraethu ond, er mwyn cydymffurfio, mae'n rhaid i'r swyddogaeth archwilio mewnol ddangos bod trefniadau llywodraethu addas a phriodol yn bodoli.

40. Mae Maes III y GIAS yn nodi 'amodau hanfodol' sylfaenol ar gyfer llywodraethiant, ond mae angen eu haddasu i adlewyrchu sut mae llywodraethiant yn gweithredu o fewn sector llywodraeth leol y DU. Mae Cod Ymarfer CIPFA yn darparu sail ar gyfer amodau hanfodol sydd wedi'u haddasu'n briodol, a phan fydd y Cod yn cael ei roi ar waith bydd amcanion yr amodau GIAS yn cael eu cyflawni.

41. Ymgynghorwyd ar y Cod gan wahodd ymatebion gan y rhai hynny sydd â diddordeb yn y maes archwilio mewnol o fewn sector cyhoeddus y DU, gan gynnwys aelodau pwyllgorau archwilio, uwch reolwyr mewn llywodraeth leol, archwilwyr mewnol, y rhai hynny mewn rolau llywodraethu a rhanddeiliaid. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion oedd 28 Tachwedd 2024.

Y RIASS yw: Trysorlys EM ar gyfer llywodraeth ganolog; Llywodraeth yr Alban, Adran Gyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llywodraeth ganolog a'r sector iechyd o fewn eu gweinyddiaethau; yr Adran Iechyd mewn perthynas â'r sector iechyd yn Lloegr (ac eithrio Ymddiriedolaethau Sefydledig); a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg mewn perthynas â llywodraeth leol ledled y DU.

**Adolygiad o Ganllawiau CIPFA a Solace ar yr Adolygiad Blynyddol a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol**

42. Mae’r Pennaeth Archwilio a Risg yn aelod o Grŵp Cyfeirio a sefydlwyd gan CIPFA i oruchwylio adolygiad o ganllawiau 2016 ar yr adolygiad blynyddol a’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn cyrff llywodraeth leol yn y DU a chyflwyno argymhellion i CIPFA a Solace.

43. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei gynnwys fel atodiad i’r canllawiau.

44. Dyma’r tro cyntaf i’r canllawiau gael eu diweddaru ers 2016 ac mae’n disodli Pennod 7 yn y Fframwaith. Nid yw’r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2016 a’r saith egwyddor llywodraethu da wedi newid.

45. Cynhaliwyd tri chyfarfod ac mae drafft terfynol o’r atodiad bellach wedi’i lunio. Bwriedir ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno cyn mis Mawrth 2025.

46. Bydd rhaid i awdurdodau sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2025-26 ymlaen yn cydymffurfio â’r canllawiau ac maent yn cael eu hannog i ystyried hynny ar gyfer 2024-25.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar waith y Cyngor i gyflawni'r Cynllun Strategol 'Tuag at Sero Net' yn 2023/24 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>RhysHughes2@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Rhys A Williams<br>Rheolwr Newid Hinsawdd<br>RhysWilliams3@anglesey.gov.wales |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol bod y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru am feysydd risg strategol o bwys, risgiau gweithredol sylweddol a risgiau prosiect sylweddol (3.4.8.8.1).<br>Yn dilyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2023, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad blynyddol ar gynnydd tuag at 'sero net' er mwyn dangos effeithiau cadarnhaol gwaith y Cyngor. | |

## Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2023, cyflwynodd y Rheolwr Newid Hinsawdd ddiweddariad ar gynnydd y Cyngor tuag at wireddu ei uchelgais sero net, a hynny'n dilyn cyflwyno dogfennaeth gan Archwilio Cymru a Zurich Municipal ynglŷn â'r ymateb i newid hinsawdd i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Nodwyd ar y pryd mai un o flaenoriaethau'r Cyngor yw creu llinell sylfaen er mwyn deall sefyllfa bresennol y Cyngor, ynghyd â dangosfwrdd er mwyn dangos cynnydd ar ffurf weledol y gellir ei ddiweddaru a'i fonitro yn ôl y gofyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad blynyddol ar gynnydd tuag at 'sero net' er mwyn dangos i Aelodau effeithiau cadarnhaol y buddsoddiadau a wnaed a'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor trwy gyflwyno 'Tuag at Sero Net - Adroddiad Blynyddol 2023/24'. Mae'r adroddiad blynyddol yn dangos cynnydd y Cyngor o ran rheoli risgiau newid hinsawdd a'i gynnydd tuag at gyflawni 'sero net' yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad, sef dadansoddiad o'r data allyriadau 2023/24 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

## Argymhelliad

Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau newid hinsawdd fel eu bod ar lefel dderbyniol.

# Adroddiad Blynyddol

# Cynllun Tuag at Sero Net 2023 - 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg | This document is available in English

**Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024**

# Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol Tuag at Sero Net

**Trosolwg**
Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gynnydd y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net Mawrth 2023 – Mawrth 2025.
Mae'n gwerthuso sut yr aethom ati i gyflawni amcanion blynyddol y cynllun yn ystod 2023 i 2024.

**Mwy o wybodaeth**
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rhys Alun Williams – Rheolwr Newid Hinsawdd
E-bost: newidhinsawdd@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg. This publication is also available in English.

## Cynnwys

Cefndir a Phwrpas yr Adroddiad ..... 2
Uchafbwyntiau o'r flwyddyn ..... 3
Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni ..... 4
Trafnidiaeth ..... 5
Defnydd Tir a Bioamrywiaeth ..... 7
Addasu Sefydliad, Data ag Monitro ..... 8
Edrych ymlaen a Casgliadau ..... 10
Atodiad 1 – Allyriadau Carbon y Cyngor 23/24 ..... 11

# Cefndir a Phwrpas yr Adroddiad

Her fyd-eang fwyaf ein hoes ac i genedlaethau'r dyfodol yw newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys Ynys Môn, ei chymunedau, a'i hymwelwyr ac mae'n fater pwysig i'n plant a phobl ifanc. Rydym eisoes yn gweld ei effaith ar y bobl fwyaf bregus mewn cymunedau ar draws Cymru ac ym mhedwar ban byd.

Mae allyriadau carbon wedi eu rhyddhau i'r atmosffer eisoes wedi arwain at godi tymheredd byd-eang. Heb gymryd camau i leihau allyriadau carbon, bydd tymheredd y Ddaear yn parhau i godi'n sylweddol.

Mae newid hinsawdd wedi ei adnabod fel un o'r chwe phrîf amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor. Gellir darllen mwy am Gynllun y Cyngor yma - [Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)].

**Yr iaith Gymraeg**
Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**Gofal cymdeithasol a Lles**
Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

**Addysg**
Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Tai**
Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

**Economi**
Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

**Newid Hinsawdd**
Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

*Ffigwr 1 - Amcanion Strategol Cynllun y Cyngor*

Pwrpas yr adroddiad hwn ydi adlewyrchu cynnydd y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net yn ystod 2023/24 wrth grynhoi'r Cynllun Gweithredu Blynyddol Sero Net. Mae atodiad 1 sydd ynghlwm i'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o allyriadau carbon blynyddol y Cyngor gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Medi 2024.

# Uchafbwyntiau’r flwyddyn

## Canlyniadau Allyriadau Carbon

Cyfanswm Allyriadau Carbon Cyngor Sir Ynys Môn yn 2023/24 oedd 42,022 tunnell CO2e. Mae hyn yn ostyngiad o 19.7% o gymharu ag uchafswm yr allyriadau yn 2021/22 (graff 1 – tudalen 8).

## Datgarboneiddio eiddo'r Cyngor

Mae’r Cyngor wedi llwyddo i ddenu £14M mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru i uwchraddio systemau gwresogi a gwella effeithlonrwydd ynni mewn 27 o’n hasedau dros 3 blynedd. Rhagdybir y bydd y buddsoddiad yma’n arwain at leihad o thua 66% mewn allyriadau carbon o wresogi asedau a chynhesu dŵr. Mi fydd hefyd yn gosod sylfaen ar gyfer buddsoddiadau pellach yn y dyfodol.

## Cartrefi newydd i safonau carbon niwtral

Mae'r Cyngor wedi ychwanegu 28 o gartrefi newydd at ein stoc tai. Gyda'u graddfa ynni uchel (EPC A a B), mi fydd y tai yn darparu cartrefi i bobl leol ac yn fforddiadwy i’w cynnal.

## Ymestyn rhwydwaith gwefru cerbydau trydan a llwybrau teithio llesol

Gyda chefnogaeth grant Llywodraeth Cymru, mae’r Cyngor wedi ymestyn rhwydwaith gwefru trwy osod pwyntiau gwefru newydd yng Nghemaes a Rhosneigr a rhagbaratoi nifer o leoliadau ychwanegol ar draws yr Ynys.
Bu gwaith hefyd i wella darpariaeth teithio llesol yng Nghaergybi a Bae Trearddur er mwyn gwella isadeiledd ar gyfer cerddwyr a beicwyr gyda chefnogaeth grant Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

## Meithrinfa Goed Newydd

I gefnogi amcanion hir dymor i blannu coed brodorol ar draws Ynys Môn, sefydlwyd meithrinfa goed ger Llangoed.

## Hyfforddiant Newid Hinsawdd

Yn ystod y flwyddyn, darparwyd hyfforddiant i roi cyflwyniad ar newid hinsawdd i Aelodau Etholedig ag uwch rheolwyr ar draws y Cyngor. Pwrpas yr hyfforddiant oedd codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd, yr hyn sy’n ei achosi a’i effeithiau, ynghyd ag adnabod sut ellir ymateb i’r her.

# Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni

Lleihau defnydd ynni a gwella effeithlonrwydd ynni ar draws ein portffolio asedau.

## Gweithredu prosiectau datgarboneiddio eiddo

Mewn blwyddyn heriol i'r Cyngor oherwydd cymhlethdodau yn deillio o RAAC llwyddwyd hefyd i ddenu £14M o Grant Gwres Carbon Isel i ddatgarboneiddio ein heiddo.

Dros y 3 blynedd nesaf byddwm yn buddsoddi i leihau ôl troed carbon y Cyngor mewn 27 o adeiladu'r Cyngor e.e. ysgolion, canolfannau hamdden a chartrefi gofal. Byddwm yn uwchraddio systemau gwresogi, gosod mesuriadau effeithlonrwydd ynni ychwanegol ac uwchraddio isadeiledd trydanol. Rhagdybir y bydd lleihad o 66% mewn allyriadau carbon o wresogi'r adeiladau a chynhesu dŵr poeth

Mae'r grant wedi galluogi'r Cyngor i gyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio ein hasedau wrth ariannu 90% o gost y buddsoddiadau.

Ar sail data blynyddol y Cyngor bu gostyngiad o 8.5% mewn allyriadau carbon o ddefnydd trydan a gwres ar draws ein hasedau rhwng 2021/22 a 2022/24.



*Ffigwr 2 - Pympiau Gwres yn Ysgol Rhosneigir*



*Ffigwr 3 - Pympiau Gwres yn Ysgol Kingsland*

## Cartrefi newydd i safonau carbon niwtral

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu tai fforddiadwy a chynaliadwy, mae'r Cyngor wedi ychwanegu 28 o gartrefi newydd at ein stoc dai. Gyda'u graddfa ynni uchel (EPC A a B), bydd y tai hyn yn helpu i leihau ein hôl troed carbon a darparu cartrefi cost-effeithiol i'n trigolion.



*Ffigwr 4 -Datblygiad Pentraeth*



*Ffigwr 5 – Parc y Coed*

## Cynlluniau ôl osod i wella effeithlonrwydd ynni'r stoc dai –

Bu'r Cygnor yn cynnal rhaglenni ôl-osod ac uwchraddio tai gyda 93 o gartrefi yn derbyn buddsoddiad cyf unol o £9.7M i'w huwchraddio, gwella perfformiad ynni neu wella'r systemau gwresogi.

Bu hefyd arolwg o gyflwr yr holl stoc dai tŷ Cyngor er mwyn datblygu cynlluniau manwl o'r gwaith fydd angen ei wneud i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a lleihau allyriadau carbon. Bydd cyflawni rhaglen adnewyddu ac uwchraddio'r stoc dai yn y tymor hir yn dibynnu ar gyllid, y math o dai a'u potensial ar gyfer gwelliannau.



*Ffigwr 4 - Maes Cynfor*



*Ffigwr 5 – Tyddyn To, Porthaethwy*

# Trafnidiaeth

Lleihau allyriadau drafnidiaeth y Cyngor a chefnogi datrysiadau carbon isel ar draws Ynys Môn

## Hyrwyddo teithio llesol

Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau isadeiledd teithio llesol gyda chefnogaeth gyllidebol gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

Gyda rhaglen gwerth £1.7m yn ystod 2023/24, bu i'r Cyngor gychwyn ar welliannau i lwybrau rhwng Caergybi a Bae Trearddur, lledu llwybrau aml ddefnydd, gosod arwyddion a chodi ymwybyddiaeth yn yr ardal.

Cwblhawyd hefyd gwaith man welliannau hefyd yn Amlwch, Malltraeth a'r Fali er mwyn gwella diogelwch defnyddwyr drwy ystod o welliannau e.e. gwella llwybrau a chroesfannau, gosod arwyddion newydd ac adnewyddu'r parth cyhoeddus yn benodol ym Malltraeth



*Ffigwr 6 - Datblygiadau Teithio Llesol*

## Datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan

Ers i'r Cyngor sefydlu rhaglen datblygu rhwydwaith gwefru yn 2022, mae nifer y pwyntiau gwefru cyhoeddus wedi cynyddu ar draws Ynys Môn.

Gyda chymorth grant o £385k gan Lywodraeth Cymru yn 2023/24, mae 4 pwynt gwefru newydd (chwim a chyflym) wedi'u gosod yn Rhosneigr a Chemaes. Mae gwaith ar y gweill mewn sawl lleoliad arall e.e. creu *Hwb Cerbydau Trydan (EV) gerllaw Canolfan Hamdden Plas Arthur*, *ynghyd â* rhagbaratoi lleoliadau ychwanegol

Hyd at Fawrth 2024, mae'r rhwydwaith wedi gwefru digon i arbed 221 tunnell o allyriadau carbon teithio sy'n cyfateb i 1327 o goed - cyfraniad sylweddol at wella'r amgylchedd a thuag at garbon sero net.



*Ffigwr 7 - Pwyntiau Gwefru Newydd*

## Trawsnewid Fflyd y Cyngor

Mae ymdrechion y Cyngor i ddatgarboneiddio ei fflyd gerbydau yn mynd o nerth i nerth. Derbyniwyd grant £100K gan Lywodraeth Cymru i osod 30 pwynt gwefru ynghyd ag isadeiledd trydan. Gyda hyn, mae'r Cyngor wedi mynd ati i brynu 7 cerbyd trydan newydd, gan ddod â'r cyfanswm i 22 cerbyd trydan.

Erbyn diwedd 2023/24, mae'r Cyngor wedi trosi 10% o'r fflyd i gerbydau trydan.

# Defnydd Tir a Bioamrywiaeth

Lleihau allyriadau carbon drwy brosiectau carbon positif

## Gwella Bioamrywiaeth a choetiroedd.

Yn ystod 2023/24, bu'r Cyngor yn gweithredu ei rhaglen bioamrywiaeth mewn nifer o leoliadau ar draws Ynys Môn :-

- Drwy'r rhaglenni lleoedd lleol ar gyfer natur, mae cynefinoedd wedi cael eu gwella ar draws y Sir e.e. prosiect ar gyfer peillwyr mewn 11 ysgol ar draws y Sir, sefydlu pyllau dŵr i annog bioamrywiaeth ym Mharc y Morglawdd
- Bu gwaith adfer natur mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru ar hen safle tirlenwi ym Mhenhesgyn. Yno gwelwyd rhaglen plannu rhywogaethau brodorol a sefydlu arwyddion i addysgu ymwelwyr â'r safle am brosiectau bioamrywiaeth.
- Bu gwaith hefyd i blannu 2000 o goed yng Nghaergybi, Bodorgan, Benllech, Carreglwyd, ac Aberffraw.
- I gefnogi amcanion plannu coed brodorol hir dymor ar Ynys Môn sefydlwyd meithrinfa goed ger Llangoed.

## Cynlluniau Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol

Sefydlwyd Cynllun Strategol Rheoli Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn ar gyfer 2023 - 2028. Pwrpas y Cynllun ydi adnabod rhinweddau arbennig yr ardal a nodi pa gamau sy'n ofynnol i sicrhau bod y rhinweddau hynny'n cael eu gwarchod a'u cyfoethogi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



*Ffigwr 8 - Meithrinfa Goed ger Llangoed*



*Ffigwr 9 - Pwyllau Dŵr, Parc Morglawdd*

# Addasu'r Sefydliad, Data a Monitro

Lleihau allyriadau'r Cyngor wrth addasu a newid y ffordd mae'n gweithio a sicrhau trefniadau mewnol i allu cyflawni'r newid sydd ei angen.

## Darparu rhaglen hyfforddiant newid hinsawdd

Darparwyd cwrs 'Cyflwyno Newid Hinsawdd' i aelodau etholedig, y Tîm Arweinyddiaeth a Thimau Rheoli Gwasanaethau'r Cyngor. Mynychodd dros 60 o unigolion y cyflwyniad gan y Rheolwr Newid Hinsawdd oedd yn amlygu achosion newid hinsawdd, ei effaith a sut mae'r Cyngor yn ymateb. Yn dilyn adborth adeiladol i'r cwrs, bwriedir parhau ei ddarparu i'r gweithlu ehangach yn ystod 2024/25.

## Adrodd data i Lywodraeth Cymru a dashfwrdd allyriadau

Yn unol â gofynion blynyddol Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn adrodd ar ddata allyriadau yn flynyddol. Drwy fesur ystod o weithgareddau (e.e. defnydd ein hasedau a fflyd, gwastraff a gwariant nwyddau a gwasanaethau), gellir cyfrifo allyriadau carbon blynyddol y Cyngor mewn modd cyson.

Ar sail ein data blynyddol, mae allyriadau blynyddol y Cyngor wedi lleihau er bod canran y gostyngiad wedi arafu rhwng 2022/23 a 2023/24.




*Graff 1 - Allyriadau Carbon y Cyngor Dros Amser*

Dylid nodi bod camau i ddatgarboneiddio asedau yn medru cymryd hyd at flwyddyn i ymddangos mewn data allyriadau carbon. Mae gwendidau cydnabyddedig hefyd yn y fethodoleg safonol i gyfrifo allyriadau rhai gweithgareddau. Bydd y gwaith o wella'r broses gasglu, gwella safon data ac adolygu data yn parhau.

Mae'n bwysig nodi bod gofynion adrodd data carbon 2019/20 a 2020/21 yn wahanol i'r blynyddoedd dilynol ble bu'n rhaid adrodd ar ddata ychwanegol a gwelwyd y gofynion yn esblygu. Gydag esblygiad blynyddol mewn trefniadau adrodd, gellir disgwyl newidiadau

mewn trefniadau a chanlyniadau blynyddol ein hallyriadau carbon. Gweler atodiad 1 ar gyfer dadansoddiad pellach o allyriadau carbon y Cyngor.

Yn gyfochrog ac ar sail data defnydd eiddo, mae'r Cyngor wedi datblygu dashfwrdd i alluogi swyddogion ddadansoddi allyriadau carbon o ddefnydd eiddo. Pwrpas y dashfwrdd yw helpu adnabod blaenoriaethau i ddatgarboneiddio a monitro ein siwrne tuag at sero net.
Mae'r dashfwrdd yn cael ei ddatblygu'n barhaus yn dilyn ymgynghoriad ac mae'r brif dudalen yn dangos gostyngiad yn yr allyriadau o'n hadeiladau.



*Ffigwr 10 - Sampl o Dhashfwrdd Allyriadau Carbon CSYM*

# Edrych ymlaen at 2024/2025 a Chasgliadau

Dyma gipolwg ar rai o'u ddatblygiadau sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod :

1.Cyflawni buddsoddiad £14M mewn systemau gwres carbon isel a cynlluniau cyfalaf

2. Parhau i drawsnewid fflyd y Cyngor a hwyluso teithio gwyrdd

3. Newid Hinsawdd wedi plethu o fewn systemau caffael newydd y Cyngor.

4. Llunio Cynllun Strategol Sero Net nesaf ar sail blaenoriaethau'r Cyngor

5. Datblygu'r Cyngor i fod yn wybodus o ddata allyriadau carbon i cefnogi penderfyniadau

6. Cynyddu ystyriaeth bioamrywiaeth a defnydd tir a'i roi mewn liniaru newid hinsawdd

## Casgliadau

1. Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd mewn nifer o brosiectau ar draws meysydd blaenoriaeth allweddol y Cynllun Tuag at Sero Net;
2. Bydd £14M o gyllid allanol i ddatgarboneiddio ein hasedau gweithredol drwy'r Grant Gwres Carbon Isel yn ein galluogi i wneud cynnydd sylweddol o ran lleihau ein hôl troed carbon;
3. Mae'r Cyngor yn parhau i dargedu allyriadau trafnidiaeth wrth fuddsoddi mewn fflyd cerbydau trydan y Cyngor, pwyntiau gwefru cyhoeddus a'r rhaglen teithio llesol;
4. Mae prosiectau bioamrywiaeth ac adfer natur yn parhau i ddatblygu drwy Gynllun Rheoli AHNE a Chynlluniau Bioamrywiaeth;
5. Yn fewnol, mae'r Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth newid hinsawdd gyda'i aelodau etholedig ac uwch arweinyddiaeth;
6. Mae dealltwriaeth o ddata allyriadau carbon yn parhau i wella'n flynyddol;
7. Gallwn weld bod cyfanswm allyriadau carbon wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol ond nid yw cyfradd y gostyngiad yn cyrraedd y disgwyliadau.
8. Mae dibyniaeth amlwg ar gyllideb allanol i gyflawni cynlluniau datgarboneiddio, gweler atodiad 2 am ddadansoddiad pellach. Bu cyllideb gyfatebol a chapasiti Gwasanaethau i reoli a chyflawni prosiectau yn hanfodol i ddenu grantiau allanol yn 23/24. O ganlyniad, mae argaeledd cyllid yn risg allweddol o ran cyflawni'r Cynllun Tuag at Sero Net a chyrraedd y targed carbon sero net erbyn 2030.
9. Er cynnydd mewn nifer o gynlluniau'r Cyngor o fewn y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net, dylid nodi'r her sylweddol sy'n parhau i wynebu'r Awdurdod i gyrraedd targed sero net carbon erbyn 2030.

# Atodiad 1 – Allyriadau Carbon y Cyngor 23/24

## Cefndir

- Mae'n ofynnol i bob sefydliad sector cyhoeddus adrodd ar allyriadau carbon yn unol â rhaglen adrodd sero net blynyddol Llywodraeth Cymru.
- O flwyddyn i flwyddyn, mae addasiadau neu newidiadau yn y fethodoleg mesur / gofynion data er mwyn adlewyrchu datblygiadau yn y maes mesur nwyon tŷ gwydr.
- Mae consensws o fewn y sector cyhoeddus am wendid rhai canlyniadau oherwydd y fethodoleg gyfredol e.e. y gadwyn gyflenwi a chymudo.
- Grŵp swyddogion aml-wasanaeth yn casglu'r data er mwyn adrodd ar ganlyniadau'r Cyngor bob blwyddyn.
- Gellir defnyddio'r data allyriadau carbon hefyd ar gyfer monitro ac adrodd yn fewnol.
- Oherwydd y cylch adrodd blynyddol, mae oedi o ran gweld deilliant ein gweithgareddau datgarboneiddio tan y cylch adrodd dilynol.

## Heriau a Chyfleoedd

- Gall newidiadau mewn methodoleg a dadansoddi data Llywodraeth Cymru gymhlethu monitro mewnol.
- Gall diffyg argaeledd data mewnol arwain at ganlyniadau ar sail rhagdybiaethau.
- Gellir adnabod cyfleoedd i wella data yn dilyn proses adrodd flynyddol.
- Wrth ddefnyddio data blynyddol, gellir blaenoriaethu ymdrechion i ddatgarboneiddio gweithgareddau sydd â'r allyriadau mwyaf.

## Canlyniadau Allyriadau Carbon

Cyfanswm Allyriadau Carbon Cyngor Sir Ynys Môn yn 2023/24 oedd 42,022 tunnell $CO_2e$. Gwelwyd gostyngiad o 19.7% o gymharu ag uchafswm yr allyriadau yn 2021/22 (graff 1)




*Graff 1 - Cyfanswm Allyriadau'r Cyngor Dros Amser*

Ers i'r Cyngor cychwyn adrodd ar ein hallyriadau mae'r gofynion adrodd i Lywodraeth Cymru wedi ymestyn neu newid dros amser. Wrth ddilyn gofynion 23/24, nid yw allyriadau defnydd tir wedi eu cynnwys yn y cyfanswm allyriadau blynyddol. Mae cyfanswm allyriadau blynyddol 23/24 y Cyngor oddeutu 1.5% yn uwch oherwydd hyn.

Mae'r cyfanswm allyriadau carbon yn cael ei dorri lawr i 4 prif gategori o fewn cyfundrefn adrodd Llywodraeth Cymru, sef allyriadau - Adeiladau, Trafnidiaeth, Gwastraff a'r Gadwyn Gyflenwi.

Mae Graff 2 yn dangos canrannau categorïau allyriadau carbon y Cyngor yn 23/24.




*Graff 2 - Canran Categoriau Allyriadau CSYM 23/24*

Mae'r defnydd o adeiladau, trafnidiaeth a gwastraff y Cyngor gyfwerth â 23% o gyfanswm allyriadau'r Cyngor. Prif ffynhonnell allyriadau'r Cyngor, sy'n gyfrifol am 77% o'r allyriadau, yw'r gadwyn gyflenwi, sef y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu prynu.

Gweler isod am ddadansoddiad pellach o'r categorïau.

## Adeiladau – 13% o gyfanswm allyriadau carbon 23/24




*Graff 3 – Allyriadau Blynyddol Defnydd Adeiladau*

- Mae graff 3 yn dangos allyriadau'r categori Adeiladau sy'n cynnwys defnydd adeiladau'r Cyngor (trydan, gwres a dŵr) a thrydan i oleuo'n strydoedd wedi gostwng dros amser.
- Mae allyriadau 2023/24 yn dangos gostyngiad o 18.8% o gymharu â defnydd adeiladau yn 2019/20.
- Er hyn, mae allyriadau carbon wedi cynyddu 5 tunnell CO2e rhwng 2022/23 a 2023/24.
- Disgwylir i'r allyriadau barhau i ddisgyn yn y blynyddoedd i ddod yn dilyn ein buddsoddiadau mewn systemau gwresogi carbon isel.
- Trwy ddefnyddio mesuryddion, ystyrir bod y data yn y categori yma o ansawdd uchel.

## Trafnidiaeth – 9.7% o gyfanswm allyriadau carbon 23/24




*Graff 4 - Allyriadau Carbon Trafnidiaeth*

- Graff 4 yn dangos fod cyfanswm allyriadau carbon trafnidiaeth wedi codi dros amser.
- Rhwng 2022/23 a 2023/24, mae gostyngiad o 5% mewn allyriadau blynyddol trafnidiaeth.
- Mae'r categori trafnidiaeth yn cynnwys defnydd fflyd y Cyngor, teithio busnes staff, cymudo staff a gweithio gartref.
- Mae cyfanswm allyriadau wedi cynyddu yn 2021/22 oherwydd gweithgareddau ychwanegol yn y categori yma, yn ogystal â defnyddio rhagdybiaethau i gyfrifo allyriadau.




*Graff 5 - Dadansoddiad Mathau Trafnidiaeth*

- O graff 5, gwelir bod defnydd fflyd ac offer y Cyngor yn cyfrif am 49% o'r allyriadau trafnidiaeth e.e. defnydd o gerbydau pŵl, cerbydau masnachol a lorïau gwastraff.
- Mae'r allyriadau fflyd a theithio busnes yn seiliedig ar ddata safon uchel a dibynadwy.
- Rydym hefyd yn adrodd ar gymudo a gweithio gartref ers 2021/22, gan ddefnyddio rhagdybiaethau cenedlaethol i lunio darlun blynyddol. O ganlyniad, mae'r data allyriadau yn israddol o gymharu â gweithgareddau eraill yn y categori trafnidiaeth.
- Bydd modd gwella safon data cymudo a gweithio gartref drwy waith ymgysylltu â'r gweithlu, cynnal holiaduron a dadansoddiad manwl o ymddygiadau staff.

## Gwastraff – 0.3% o gyfanswm allyriadau carbon 23/24




*Graff 6- Allyriadau Carbon o Gasglu Gwastraff*

- Mae'r Cyngor yn adrodd ar allyriadau carbon yn deillio o wastraff sefydliadol y Cyngor a gwastraff dinesig wedi ei gasglu gan yr Awdurdod.
- Roedd cyfanswm allyriadau o wastraff yn 128 tunnell CO2e yn 23/24 - gostyngiad o dros 80% mewn allyriadau carbon.
- Gwelir amrywiaeth sylweddol yn ein hallyriadau yn deillio o newidiadau mewn cytundebau casglu, gwelliannau mewn prosesau casglu a systemau monitro gwastraff sefydliadol.

## Cadwyn Gyflenwi – 75% o gyfanswm allyriadau carbon 23/24




*Graff 7 - Allyriadau Carbon o'r Gadwyn Gyflenwi*

- Mae'r allyriadau carbon o'r gwasanaethau a nwyddau yr ydym yn eu prynu yn cynrychioli mwyafrif o allyriadau carbon blynyddol y Cyngor.
- Gwelir yn graff 7 bod cyfanswm allyriadau'r Cyngor o'r gadwyn gyflenwi wedi gostwng ers 2021/22.
- Rhaid amlygu bod allyriadau wedi eu cyfrifo ar sail cyfanswm gwariant penawdau gwahanol. O ganlyniad, petai'r Cyngor yn gwario mwy ar nwyddau oherwydd ffactorau allanol e.e. chwyddiant, bydd allyriadau carbon yn cynyddu.
- Er gwendid y data, mae'n fuddiol i alluogi'r Awdurdod adnabod ym mha gategori mae'r gwariant a'r allyriadau carbon mwyaf.
- Mae graff 8 isod yn dangos canrannau carbon o fewn y gadwyn gyflenwi ar sail penawdau gwariant. Gwariant ar Adeiladau, Gweithgynhyrchu ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol oedd â'r canrannau uchaf o allyriadau o fewn ein cadwyn gyflenwi yn 2023/24.




*Graff 8 - Allyriadau Prif Benawdau Gwariant*

# Casgliadau ac Argymhellion

- Mae allyriadau carbon Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweld gostyngiad o 42,347tCO2e yn 2022/23, i lawr i 42,022tCO2e yn 2023/24.
- Gwelir bod allyriadau uniongyrchol o'r defnydd o adeiladau, trafnidiaeth a gwastraff yn cyfrif am 23% o allyriadau blynyddol y Cyngor.
- Disgwylir i allyriadau o'r defnydd o adeiladau a thrafnidiaeth barhau i ddisgyn ymhellach wrth i brosiectau datgarboneiddio barhau i gael eu cwblhau.
- Dynodir mwyafrif o allyriadau'r Cyngor i ffynonellau o'r gadwyn gyflenwi, sef 77% o'r cyfanswm blynyddol ar gyfer 2023/24.
- Argymhellir bod angen gwaith pellach i wella argaeledd data ac ansawdd data er mwyn cryfhau canlyniadau allyriadau carbon blynyddol y Cyngor.

# Atodiad 2 – Cyllideb Tuag At Sero Net 23/24

Gweler isod dabl yn nodi dadansoddiad o’r cyllidebau allanol a chyllidebau Cyngor Sir Ynys Môn o fewn y Cynllun Gweithredu Tuag at Sero Net 2023/2024.

| **Maes Rhaglen** | **Gweithred Allweddol** | **Cyllid 23/24 (Grant Allanol)** | **Cyllid 23/24 (Adnoddau Mewnol)** |
|---|---|---|---|
| Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni | Gweithredu prosiectau ddatgarboneiddio eiddo | £5.7M | £574,408 |
| Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni | Cartrefi newydd i safonau carbon niwtral | £1M (grantiau gwahanol) | £3.9M |
| Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni | Ôl-osod i wella stoc tai Cyngor | £4.45M (grantiau gwahanol) | £4.33M |
| Trafnidiaeth | Hyrwyddo teithio llesol | £1.53M - LlC a Thrafnidiaeth Cymru | |
| Trafnidiaeth | Datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan | £502K - Grant LlC | |
| Trafnidiaeth | Trawsnewid fflyd y Cyngor | £100K - Grant LlC | £390K |
| Defnydd Tir a Bioamrywiaeth | Gwella Bioamrywiaeth a choetiroedd | £1M (grantiau gwahanol) | |
| Defnydd Tir a Bioamrywiaeth | Cynlluniau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | £1M (grantiau gwahanol) | |

Tudalen 72

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Adroddiad Sicrwydd Llywodraethiant Gwybodaeth Blynyddol Ysgolion Ynys Môn 2024 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Hysbysu aelodau o'r lefel o gydymffurfiad a risg diogelu data mewn perthynas ag ysgolion, a chrynhoi blaenoriaethau presennol |
| **Adroddiad gan:** | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion<br>Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru |
| **Swyddog Cyswllt:** | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion<br>Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru |

**Pwrpas yr adroddiad hwn**

Darparu dadansoddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion o'r prif faterion Llywodraethiant Gwybodaeth (IG) ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2023 i Tachwedd 2024 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chrynhoi blaenoriaethau presennol.

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throsolwg o gydymffurfiaeth ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Môn â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth ysgol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig* (*UK GDPR*); *Deddf Diogelu Data 2018* a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion camau a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Tachwedd 2023), ac yn rhoi manylion ynghylch cynnwys y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024* a beth sydd wedi ei gyflawni ganddo.

Rhoddir manylion hefyd am yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2024-2025* ac y cynnydd hyd yma.

**Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion**

Ers yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd yn Tachwedd 2023, mae gan ysgolion y **polisïau** a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r rhan fwyaf o bolisïau yn ffurfiol ac wedi cael offerynnau i **fonitro** a **thystiolaethu eu cydymffurfiad** â'r holl bolisïau diogelu data. Mae hyn yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i leihau risgiau diogelu data a chefnogi ysgolion i dystiolaethu eu hatebolrwydd a'u cydymffurfiad.

Mae'r **ymarferion** rheoli gwybodaeth dydd-i-ddydd yn yr ysgolion yn parhau i fod yn dda. Er nad yw nifer o ysgolion wedi manteisio ar y cynnig am hyfforddiant gloywi

neu hyfforddiant mwy pwnc-benodol, mae'r rhan fwyaf o staff yr ysgolion bellach wedi derbyn **hyfforddiant** diogelu data ar ryw amser. Mae'n rhaid cymryd camau i ffurfioli trefniadau hyfforddiant gloywi gydag ysgolion i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant diogelu data yn rheolaidd ac i ofyn i ysgolion ddarparu tystiolaeth o bresenoldeb hyfforddiant diogelu data, gan gynnwys dyddiadau.

Mae darnau mwy penodol o waith angen eu cwblhau o hyd, gan gynnwys cwblhau'r gwaith gydag ysgolion yn addasu'r templed **ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth** wedi'i boblogi o flaen llaw; parhau i sicrhau bod **DPAau** yn eu lle ar gyfer pob ap a rhaglen a ddefnyddir; parhau i greu **DPIAau** lle mae prosesu risg uchel; cael ***Cynllun Parhad Busnes*** a ***Chynllun Adfer mewn Trychineb*** ar waith, a diweddaru'r ***Templed Cynllun Cyhoeddi***. Mae hefyd angen gwneud gwaith i sicrhau bod cofnodion a dogfennau ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r ddogfen ***Cyfnodau Cadw Ysgolion***.

Mae ysgolion yn parhau i ddangos eu bod yn deall eu **cyfrifoldebau** a'r goblygiadau fel y rheolydd data a'r disgwyliadau cyfreithiol yn sgil hynny. Mae ysgolion yn cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn llawer amlach ynghylch gwahanol faterion diogelu data a byddant yn gofyn am fwy o **gyngor, cefnogaeth ac arweiniad**.

Mae angen i ysgolion **hunan-fonitro eu cydymffurfiaeth** a sicrhau bod archwiliadau diogelu data yn cael eu cynnal a bod ganddynt dystiolaeth o'u cydymffurfiaeth ar gyfer yr elfen atebolrwydd yn y ddeddfwriaeth. Mae angen i **swyddogaethau monitro** fod ar waith i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i benaethiaid a staff ysgolion roi adborth ar sesiynau hyfforddiant ac ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaeth, cyngor ac arweiniad a rhoddir dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

| **Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Tachwedd 2024)** | **Sicrwydd Rhesymol** |
|---|---|
| Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r polisïau diogelu data allweddol a dylent fod yn monitro eu cydymffurfiaeth â pholisïau unigol. Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o ran sicrhau bod gan ysgolion y Cytundebau Diogelu Data gofynnol ar gyfer yr apiau a'r rhaglenni a ddefnyddir. Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac ysgolion drwy newyddlenni a thrwy fwletinau wythnosol y Gwasanaeth Dysgu. Mae cynnydd yn y nifer o ysgolion sy'n cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion am gefnogaeth, cyngor ac arweiniad. Mae angen ymgymryd â gwaith pellach ar ddarnau penodol o waith i sicrhau bod yr holl ysgolion ar yr un lefel o gydymffurfiaeth ac yn agosach at gydymffurfio'n llawn, gan allu tystiolaethu hyn. Mae hefyd angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod holl staff ysgolion wedi cwblhau hyfforddiant/hyfforddiant gloywi diogelu data a bod ysgolion yn ymgymryd â mwy o weithgareddau hunan-fonitro ac archwilio i sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd. | |

**Argymhellion**

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor, bod:

i. adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, gan gynnwys y datganiad, yn cael ei dderbyn.
ii. bod y Pwyllgor yn ardystio camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* – er mwyn galluogi ysgolion i weithredu'n llawn yn unol â gofynion diogelu data.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN

ELIN WILLIAMS

SWYDDOG DIOGELU DATA YSGOLION

**Tachwedd 2024**

**Cynnwys** **Tudalen**


1. Cyflwyniad 3
2. Casgliadau a Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2023 4
   - 2.1. Casgliadau a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2023 4
   - 2.2. Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2023 4
3. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 12
   - 3.1 Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024 12
     - 3.1.1. Ysgolion i fabwysiadu fersiynau diweddaraf o’r polisïau a’r canllawiau diogelu data wedi eu hadolygu 12
     - 3.1.2. Archwiliad Diogelu Data 12
     - 3.1.3. Cefnogi’r Ysgolion sy’n Cau yn Barhaol i roi Trefn ar Ddata Personol 13
   - 3.2 Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2024-2025 13
     - 3.2.1 Mabwysiadu’r ‘Polisi Rhannu Gwybodaeth Bersonol mewn Argyfwng Iechyd Meddwl’ newydd 13
4. Datblygiadau a Gweithgareddau Cyfredol 14
   - 4.1 Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion 14
   - 4.2 Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol 14
   - 4.3 Mapio’r Llifiau Data rhwng yr Ysgolion a’r Cyngor 14
5. Hyfforddiant Diogelu Data 14
6. Nifer y Digwyddiadau Diogelwch Data, Ceisiadau gan Wrthrych y Data, Ceisiadau Cofnod Addysg a Chwynion Diogelu Data 15
7. Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – Tachwedd 2024 16
8. Casgliadau a Chamau Nesaf 17
   - 8.1. Casgliadau 17
   - 8.2. Camau Nesaf 18

ATODIAD A – Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion Ynys Môn 2023-2024 (Fersiwn 1) 20

ATODIAD B – Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion Ynys Môn 2024-2025 (Drafft 1) 22

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throsolwg o gydymffurfiad ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn, gyda gofynion cyfreithiol mewn ymdrin â gwybodaeth ysgol, gan gynnwys cydymffurfiad â *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig* (*UK GDPR*), *Deddf Diogelu Data 2018* a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion o gamau gweithredu a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Tachwedd 2023) ac yn darparu manylion ynglŷn â chynnwys y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024* a beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma o dan *Strategaeth Diogelu Data Ysgolion 2024-2025.*

Roedd **45** o ysgolion yn Ynys Môn a oedd wedi arwyddo i ddefnyddio cefnogaeth ac arweiniad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar ddechrau'r cyfnod adrodd. Caewyd dwy ysgol gynradd yn barhaol dros yr haf (Ysgol Talwrn ac Ysgol Garreglefn), gyda chyfanswm yr ysgolion sy'n derbyn y gwasanaeth hwn bellach yn **43**:

| **Ysgolion Cynradd** | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Amlwch | Ysgol Esceifiog | Ysgol Llanfairpwll | Ysgol Penysarn |
| Ysgol Beaumaris | Ysgol Gymuned y Fali | Ysgol Llanfawr | Ysgol Rhoscolyn |
| Ysgol Gynradd Bodedern | Ysgol y Ffridd | Ysgol Llanfechell | Ysgol Rhosneigr |
| Ysgol Bodffordd | Ysgol Llandegfan | Ysgol Llangoed | Ysgol Rhosybol |
| Ysgol y Borth | Ysgol Goronwy Owen | Ysgol Llannerch-y-medd | Ysgol Rhyd y Llan |
| Ysgol Bryngwran | Ysgol y Graig | Ysgol Moelfre | Ysgol Santes Dwynwen |
| Ysgol Brynsiencyn | Ysgol Henblas | Ysgol Gymraeg Morswyn | Ysgol Santes Fair |
| Ysgol Cemaes | Ysgol Kingsland | Ysgol Parc y Bont | Ysgol Pentraeth |
| Ysgol Corn Hir | Ysgol Llanbedrgoch | Ysgol Pencarnisiog | Ysgol y Tywyn |
| Ysgol Cybi | | | |

| **Ysgolion Uwchradd** | **Ysgolion Arbennig** |
|---|---|
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Canolfan Addysg y Bont |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| Ysgol David Hughes | |
| Ysgol Gyfun Llangefni | |

| Ysgol Syr Thomas Jones | |
|---|---|

## 2. Casgliadau a Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2023

### 2.1. Casgliadau a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2023

Y canlynol oedd y **casgliadau** a adnabuwyd yn adroddiad Tachwedd 2023:

- Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â'r gweithredoedd yn y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* ac mae pob ysgol yn dod i gydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r polisïau diogelu data allweddol ac yn monitro eu cydymffurfiad â pholisïau unigol.
- Mae'r mwyafrif o staff ysgolion bellach wedi derbyn hyfforddiant diogelu data o leiaf unwaith, gyda llawer o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant mwy thematig. Mae nifer o lywodraethwyr ysgol hefyd wedi derbyn cyflwyniad ac wedi gwella eu dealltwriaeth o rwymedigaethau diogelu data'r ysgol.
- Mae ysgolion yn parhau i gael mewnbwn i ddatblygiadau a darnau o waith yr ymgymerir â hwy i symud y rhaglen diogelu data yn ei blaen drwy'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion.
- Mae cynnydd yn parhau gydag uwchraddio a chryfhau systemau, isadeiledd a diogelwch TGCh, gyda MFA yn cael ei alluogi ar gyfrifon HWB staff a llywodraethwyr a chyflwyniad InTune.
- Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol, gyda'r mwyafrif o ysgolion wedi rhannu'r rhain â rhieni ac wedi rhoi eu fersiynau cyffredinol a phlant a phobl ifanc ar wefan yr ysgol.
- Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi ymgymryd ag ymweliad archwilio i ysgolion unigol i fonitro cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau diogelu data eto eleni, sy'n rhoi mewnwelediad amhrisiadwy o ble mae ysgolion unigol arni o ran cydymffurfiaeth yn ogystal ag amlygu pa gefnogaeth sydd ei hangen.
- Mae cynnydd pellach wedi'i wneud, ond parhau i adolygu a chreu Cytundebau Prosesu Data addas ar gyfer yr holl apiau a rhaglenni presennol a newydd a ddefnyddir gan ysgolion.

### 2.2. Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2023

Nododd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn adroddiad Tachwedd 2023 pa ddarnau o waith oedd angen eu cwblhau gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data ac i gyflawni beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt fel y rheolydd data, sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau eu bod yn prosesu data personol yn gyfreithlon.

Cynhigiwyd y **gweithredoedd** canlynol fel y camau nesaf oedd angen eu cymryd i sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion. Mae cynnydd hyd yn hyn parthed y camau gweithredu i'w cymryd wedi eu nodi, yn ogystal ag unrhyw waith pellach sydd angen ei wneud.

**Allwedd Statws RAG**

| Lliw | Statws |
|---|---|
| (gwyrdd) | Ar drac i'w gwblhau'n llawn |
| (melyn) | Ychydig ar ei hôl hi o ran cynnydd, ond mae'r rhan fwyaf o dasgau'n cael eu cwblhau |
| (oren) | Ar ei hôl hi o ran cynnydd, gydag ychydig o dasgau'n cael eu cwblhau |
| (coch) | Dim cynnydd |

| Rhif | Gweithredoedd o Adroddiad Tachwedd 2023 | Cynnydd hyd yn hyn yn erbyn gweithredoedd a adnabuwyd (hyd at fis Tachwedd 2024) | Gwaith pellach i'w wneud |
|---|---|---|---|
| 1 | Monitro bod ysgolion yn monitro eu cydymffurfiad eu hunain gyda phob polisi diogelu data. | Mae ysgolion wedi derbyn dogfen *Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data* ym mis Rhagfyr 2022 i'w cefnogi gyda monitro eu cydymffurfiad â gweithredoedd allweddol yn y polisïau diogelu data unigol.<br><br>Gan y gwnaed y penderfyniad i beidio â chynnal ymweliadau archwilio unigol i ysgolion eleni, nid oes trefniadau monitro ffurfiol wedi bod ar waith ac mae'n rhywbeth sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Mae angen i ysgolion gymryd mwy o gyfrifoldeb dros fonitro eu cydymffurfiaeth eu hunain a chadw a chynnal tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth. | Rhoi mesurau ar waith i fonitro'n weithredol bod ysgolion yn monitro eu cydymffurfiaeth eu hunain â pholisïau diogelu data.<br><br>Gofyn am gael gweld tystiolaeth o gydymffurfiaeth gan ysgolion cyn i'r ymweliadau archwilio cydymffurfiaeth gael eu cynnal yn dilyn gweithrediad y ddeddfwriaeth diogelu data newydd. |
| 2 | Parhau i greu ac adolygu Cytundebau Prosesu Data ar gyfer apiau a rhaglenni presennol a newydd, gan gynnwys cytundebau ar gyfer apiau a rhaglenni ble mae'r Cyngor hefyd ynghlwm. | Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o ran cytuno ar Gytundebau Diogelu Data (DPA) ar gyfer apiau a rhaglenni penodol.<br><br>Pan fo ysgolion yn gofyn i gael defnyddio rhaglen newydd, mae'r Gwasanaeth TGCh yn gwirio â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion os oes unrhyw | Parhau i baratoi Cytundebau Diogelu Data lle bo angen ac asesu unrhyw gytundebau y mae ysgolion eisoes wedi'u llofnodi er mwyn cadarnhau |

Tudalen 80

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | risgiau gyda defnyddio rhaglenni penodol a p'un a oes angen DPA fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy.<br><br>Mae DPAau wedi'u creu neu eu cytuno ar gyfer 11 rhaglen yn ystod y cyfnod hwn. Mae Cytundeb Datgelu Data wedi ei greu ar gyfer ysgolion uwchradd hefyd.<br><br>Mae ysgolion wedi derbyn *Polisi Prosesu Data Ysgolion* yn flaenorol i'w fabwysiadu, a dylent fod yn monitro eu cydymffurfiaeth â'r polisi hwn. | eu bod yn cwrdd â disgwyliadau.<br><br>Oherwydd y nifer o wahanol apiau a rhaglenni a ddefnyddir gan ysgolion a gan fod ysgolion yn dechrau defnyddio rhaglenni newydd yn barhaus; bydd y gwaith hwn yn barhaus. |
| 3 | Parhau i ddarparu hyfforddiant diogelu data cyffredinol a phenodol i holl staff a llywodraethwyr ysgol gan fod hyn wedi cyfrannu at sicrhau bod pawb o fewn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data. | Mae sesiynau hyfforddiant wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod hwn (*gweler eitem 3.1.2 am ragor o wybodaeth ynghylch hyfforddiant*).<br><br>Mae'r nifer sydd wedi mynd ar hyfforddiant diogelu data wedi bod yn isel yn ystod y cyfnod yma ac mae angen gwneud mwy i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn derbyn hyfforddiant/hyfforddiant gloywi diogelu data rheolaidd.<br><br>Mae'r angen i ysgolion unigol gynnal cofrestr ganolog o ba aelodau staff sydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu data a'r dyddiad y cafodd ei fynychu wedi cael ei drafod gyda phenaethiaid/arweinwyr diogelu data. | Mae angen cynnal sesiynau hyfforddiant rheolaidd fel bod staff a llywodraethwyr o **bob** ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data/hyfforddiant gloywi neu hyfforddiant penodol fel bo angen ar gyfer rolau swydd penodol.<br><br>Ffurfioli trefniadau hyfforddiant gloywi gydag ysgolion i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant yn rheolaidd wrth symud ymlaen.<br><br>Swyddog Diogelu Data Ysgolion i ofyn i ysgolion ddarparu tystiolaeth o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bresenoldeb hyfforddiant diogelu data, gan gynnwys dyddiadau. |
| 4 | Parhau i fonitro bod pob ysgol wedi cael gwared yn ddiogel â dogfennau hanesyddol i sicrhau na chadwir unrhyw wybodaeth heibio ei chyfnod cadw. | Mae'r neges ynghylch cael gwared â dogfennau hanesyddol a phwysigrwydd cydymffurfio â'r ddogfen *Cyfnodau Cadw Ysgolion* wedi parhau i gael ei rhannu ag ysgolion.<br><br>Nid oes unrhyw fonitro ffurfiol wedi digwydd gan nad oes ymweliadau archwilio wedi bod i ysgolion eleni. | Swyddog Diogelu Data Ysgolion i fonitro bod ysgolion yn adolygu eu cofnodion ac yn glynu at y ddogfen *Cyfnodau Cadw Ysgolion*. Sicrhau bod mecanweithiau monitro ffurfiol ar waith. |
| 5 | Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae angen gwneud gwaith pellach ar sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel. | Mae templed DPIA cyffredinol wedi'i greu i ysgolion perthnasol ei addasu ar gyfer eu systemau CCTV. Mae hwn wedi'i dderbyn a'i gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion ac mae cyfarfodydd yn y broses o gael eu cynnal i gefnogi ysgolion i ddiwygio'r templed ar gyfer eu hamgylchiadau unigol.<br><br>. | Parhau i gynnal a threfnu cyfarfodydd gyda'r holl ysgolion unigol sydd â system CCTV weithredol ar waith i addasu'r templed DPIA CCTV ar gyfer eu hamgylchiadau unigol.<br><br>Parhau nes bod gan yr holl ysgolion perthnasol DPIA ar gyfer eu system CCTV ac yna monitro bod ysgolion yn ei gadw'n gyfredol a'i ddiweddaru.<br><br>Datblygu cwblhad templedi DPIA cyffredinol eraill, a bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion barhau i gefnogi ysgolion |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyda chwblhau unrhyw DPIAau eraill fel bo angen. |
| 6 | Mae templed ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth sydd wedi'i boblogi o flaen llaw wedi'i greu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae angen ei gymeradwyo'n derfynol fel y gall ysgolion ei addasu ar gyfer eu hanghenion unigol. Sesiynau i'w cynnal i gefnogi ysgolion i addasu'r templed. | Mae ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth cyfunol sydd wedi'i boblogi o flaen llaw wedi'i ddatblygu ar gyfer ysgolion cynradd, ac mae templed ar gyfer ysgolion uwchradd wrthi'n cael ei weithio arno.<br><br>Mae fersiwn ysgolion cynradd wedi'i derbyn a'i chymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion. Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag un dalgylch i'w cefnogi i ddiwygio'r templed. Mae angen trefnu cyfarfodydd gyda dalgylchoedd/ysgolion unigol eraill.<br><br>Mae mwy o waith yn digwydd ar gwblhau'r templed ysgolion uwchradd gan fod hyn yn fwy cymhleth oherwydd bod cymaint o wahanol apiau a systemau yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ysgolion uwchradd. | Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gwblhau'r gwaith o gefnogi ysgolion cynradd i addasu'r templed ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth wedi'i boblogi o flaen llaw ar gyfer eu hanghenion unigol.<br><br>Cwblhau'r gwaith o gwblhau templed ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth wedi'i boblogi o flaen llaw ar gyfer ysgolion uwchradd. |
| 7 | Gwneud y *Cynllun Parhad Busnes* a'r *Cynllun Adfer Trychineb* yn derfynol a'u rhannu ag ysgolion i'w mabwysiadu. | Mae *Cynllun Parhad Busnes* a *Chynllun Adfer Trychineb* drafft wedi'u creu yn dilyn trafodaethau yn y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion.<br><br>Mae mwy o waith wedi'i gwblhau ers hyn, ond mae angen cwblhau'r gwaith o hyd a'u cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion am gymeradwyaeth. | Yn dilyn cymeradwyo'r *Cynllun Parhad Busnes* a'r *Cynllun Adfer Trychineb*, byddant yn cael eu rhannu ag ysgolion i'w mabwysiadu, a gellir eu haddasu i gwrdd ag anghenion ysgolion unigol. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cefnogi ysgolion ag addasu'r cynlluniau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Gwneud swyddogaethau monitro yn derfynol a'u mabwysiadu i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i benaethiaid a staff ysgolion ddarparu adborth ar sesiynau hyfforddi ac ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. | Defnyddir y system CRM gorfforaethol i ddogfennu pa gefnogaeth wedi ei ddarparu i ysgolion a'r amser a dreulir yn darparu'r gefnogaeth (e.e., mae faint o amser a dreulir ar greu DPA yn cael ei ddogfennu yn ogystal â'r amser a dreulir yn darparu hyfforddiant). Defnyddir hwn fel offeryn monitro yn y Gwasanaeth Dysgu.<br><br>Mae holiadur wedi'i ddatblygu i benaethiaid, staff ysgolion a llywodraethwyr ddarparu adborth ar hyfforddiant. Bydd angen gwneud hwn yn derfynol ac ei gyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion i'w gymeradwyo.<br><br>Darperir dolen gyswllt i lywodraethwyr ysgol sydd wedi mynychu'r hyfforddiant diogelu data fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant llywodraethwyr ysgol i gwblhau ffurflen adborth. | Yn dilyn cymeradwyo'r holiadur hyfforddiant, cychwyn defnyddio hwn i gael adborth ar sesiynau hyfforddiant a ddarperir gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.<br><br>Parhau i ddefnyddio'r system CRM gorfforaethol fel teclyn monitro.<br><br>Cynnwys swyddogaethau adborth a monitro yn y CLG newydd pan fydd hwn wedi ei greu. |
| 9 | Cwblhau darn o waith i gadarnhau pa gofnodion sydd angen eu trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd er mwyn sicrhau bod proses glir ac unffurf i bob ysgol ei defnyddio. | Mae gwaith wedi cychwyn ar gadarnhau pa gofnodion sydd angen eu trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd drwy drafodaethau cychwynnol yn y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion. Mae mwy o waith angen ei wneud ar hyn. | Parhau a chwblhau darn o waith i gadarnhau pa gofnodion sydd angen eu trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd i sicrhau bod proses glir ac unffurf i'r holl ysgolion ei defnyddio. |
| 10 | Creu templed *Cynllun Cyhoeddi* newydd i ysgolion ei addasu a'i fabwysiadu. | Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar adolygu'r templed *Cynllun Cyhoeddi* presennol gan fod angen iddo ffocysu mwy ar y dogfennau a'r wybodaeth gwirioneddol y mae ysgolion yn eu cyhoeddi. | Yn dilyn cymeradwyo'r templed, bydd hwn yn cael ei rannu ag ysgolion i'w addasu i adlewyrchu eu hamgylchiadau unigol a bydd angen iddo gael ei fabwysiadu a bod ar gael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae fersiwn drafft wedi ei ddatblygu ond mae angen ei rannu gyda'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion ar gyfer eu mewnbwn ac ei gymeradwyo. | yn gyhoeddus (ei rannu ar wefannau ysgolion neu drwy ffyrdd priodol eraill).<br><br>Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cynnig cefnogaeth i ysgolion i addasu'r templed. |
| 11 | Adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol ar gyfer y gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024. | Gwnaed penderfyniad i roi estyniad ar y CLG a oedd ar waith oherwydd y newidiadau yn y ddeddfwriaeth a bod fersiwn newydd o'r CLG yn cael ei greu ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym. Roedd disgwyl i hyn ddigwydd yn ystod haf 2024. Rhoddwyd cyfle i ysgolion nodi os nad oeddent am barhau â'r CLG presennol. | Adolygu a fydd y CLG presennol yn cael estyniad yn sgil y bil newydd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Hydref 2024. |
| 12 | Ail-sgorio'r atebion i'r cwestiynau GDPR ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol er mwyn rhoi darlun presennol yn dilyn gweithredu'r camau gweithredu yn y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion*. Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gynnal sesiynau i ddarparu cefnogaeth i benaethiaid i ail-sgorio'r atebion. | Nid yw hyn wedi digwydd oherwydd blaenoriaethau eraill.<br><br>Caiff tystiolaeth o gynnydd ei dal yn yr adroddiadau y mae'r ysgolion wedi'u derbyn yn dilyn eu harchwiliadau diogelu data unigol, ond bydd angen trefnu sesiynau i gwblhau'r gwaith hwn ar gyfer sefyllfa fwy cyfredol. | Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gynnal sesiynau i roi cefnogaeth i benaethiaid ail-sgorio eu hatebion i'r cwestiynau GDPR ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol. |
| 13 | Paratoi ar gyfer y newidiadau fydd yn digwydd o ganlyniad i'r *Data Protection and Digital Information Bill (DPDI)* yn cael ei basio ac yn disodli *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*. Gwneud y newidiadau sydd eu hangen i bolisïau, dogfennau allweddol a hyfforddiant a sicrhau bod | Ni ddaeth y *Data Protection and Digital Information Bill* yn gyfraith cyn yr etholiad cyffredinol, a chyflwynwyd bil newydd, y *Data (Use and Access) (DUA) Bill* i'r Senedd yn hwyr ym mis Hydref 2024.<br><br>Mae hyn wedi effeithio'r weithred hon gan na wnaethpwyd newidiadau i bolisïau, dogfennau | Paratoi ar gyfer y newidiadau a fydd yn digwydd yn sgil y *Data (Use and Access) (DUA) Bill* yn cael ei basio i ddisodli'r *UK GDPR* and *Data Protection Act 2018*. Gwneud y newidiadau gofynnol i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgolion yn llawn ymwybodol o'r newidiadau ac yn cydymffurfio. | allweddol a hyfforddiant oherwydd bod y gyfraith bresennol ar waith o hyd. | bolisïau, dogfennau allweddol a hyfforddiant a sicrhau bod ysgolion yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau ac yn cydymffurfio. |

## 3. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion

### 3.1. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024

Mae *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* ar gyfer y flwyddyn ysgol 2023-2024 wedi'i datblygu (*gweler copi o'r strategaeth yn ATODIAD A*).

Trafodir yr holl bwyntiau gweithredu yn *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024* dan y penawdau canlynol neu maent eisoes wedi'u trafod dan eitem 2.2 uchod:

#### 3.1.1. Ysgolion i fabwysiadu fersiynau diweddaraf o'r polisïau a'r canllawiau diogelu data wedi eu hadolygu

Mae ysgolion wedi derbyn pob polisi diogelu data mandadol ac allweddol (rhannwyd y pecyn terfynol o bolisïau newydd ag ysgolion ym mis Rhagfyr 2022). Mae'r mwyafrif o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r 14 o bolisïau diogelu data.

Mae polisi newydd wedi'i greu a'i rannu ag ysgolion perthnasol i'w fabwysiadu – y '*Polisi Defnydd o Radio Dwyffordd heb ei Amgryptio*'. Mae darn o waith yn digwydd i edrych ar ba gynhyrchion radios dwyffordd wedi'u hamgryptio sydd ar gael ac sy'n addas i'w defnyddio yn yr ysgol. I ysgolion sydd angen parhau i ddefnyddio radios dwyffordd heb eu hamgryptio, mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu iddynt ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod disgwyliadau diogelu data yn cael eu cwrdd.

Y bwriad oedd adolygu'r polisïau diogelu data a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y cyfnod hwn, ond penderfynwyd gohirio hyn am y tro ac adolygu'r holl bolisïau unwaith yr oedd y ddeddfwriaeth diogelu data newydd yn dod i rym (roedd disgwyl iddi ddod i rym yn ystod haf 2024). Roedd unrhyw newidiadau i bolisïau presennol i'w gwneud yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd (*Data Protection and Digital Information Bill*). Gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau nad oedd yn rhaid i ysgolion fabwysiadu polisi a fyddai'n cael ei adolygu eto o fewn cyfnod byr o amser.

Fodd bynnag, ni ddaeth y *Data Protection and Digital Information Bill* yn gyfraith cyn yr etholiad cyffredinol a chyflwynwyd bil newydd, y *Data (Use and Access) Bill* i'r Senedd ym mis Hydref 2024. Bydd polisïau yn awr yn cael eu hadolygu unwaith y bydd y *Data (Use and Access) Bill* yn dod yn gyfraith.

Mae ysgolion wedi cael *Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data* i'w cefnogi  Mae'r ddogfen hon yn cefnogi ysgolion i gadarnhau eu bod wedi gweithredu'r prif ofynion yn yr holl bolisïau diogelu data, sy'n cefnogi ysgolion i arddangos atebolrwydd a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

#### 3.1.2 Archwiliad Diogelu Data

Ni ddigwyddodd unrhyw archwiliadau diogelu data yn 2024 oni bai am 1 ysgol na chafodd ymweliad yn 2023. Ymwelodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion â phob ysgol i adolygu cydymffurfiaeth a threfniadau diogelu data rhwng Mawrth 2023 a Hydref 2023 ac i'r ysgol derfynol ym mis Mawrth 2024.

Gwnaed penderfyniad i beidio â chynnal archwiliadau yn ystod 2024 gan fod yr ysgolion mewn lle da o ran cydymffurfiaeth sylfaenol ac roedd ysgolion wedi derbyn tri ymweliad ers 2019.

Teimlwyd hefyd y byddai'n fwy buddiol cynnal archwiliad unwaith y byddai'r ddeddfwriaeth diogelu data newydd yn dod i rym. Byddai hyn yn gyfle i fonitro cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion newydd ac i roi arweiniad i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio.

Gwnaed y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y ffaith bod y *Data Protection and Digital Information Bill* yn y broses o ddod yn gyfraith yn ystod 2024 ac y dylid canolbwyntio adnoddau ar bethau eraill yn y cyfamser i sicrhau bod gan ysgolion gytundebau addas ar waith.

Y bwriad bellach yw cynnal ymweliadau archwilio diogelu data unwaith y bydd *y Data (Use and Access) Bill* yn dod i rym a bod ysgolion wedi cael amser i weithredu unrhyw newidiadau. Bydd angen rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod ysgolion yn monitro eu cydymffurfiaeth eu hunain ac yn gallu tystiolaethu eu cydymffurfiaeth.

3.1.3. Cefnogi'r Ysgolion sy'n Cau yn Barhaol i gael Trefn ar eu Data Personol
Rhoddwyd cefnogaeth arwyddocaol i Ysgol Talwrn ac Ysgol Garreglefn i fynd drwy'r data personol a chofnodion a dogfennaeth eraill a oedd yn cael eu cadw gan yr ysgolion fel rhan o gau'r ysgolion yn barhaol.

3.2. *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2024-2025*
Mae *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2024-2025* wedi'i datblygu ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol (*gweler copi o'r strategaeth yn ATODIAD B*). Fersiwn ddrafft yw hon a bydd angen ei chymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion.

Mae'r canlynol yn cynnwys manylion ynglŷn â chynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â gweithredoedd sy'n ychwanegol i'r rhai a gynhwysir dan eitemau 3.1 a 2.2:

3.2.1. Mabwysiadu'r '*Polisi ar Rannu Gwybodaeth Bersonol mewn Argyfwng Iechyd Meddwl'* newydd
Polisi newydd yw hwn sydd wedi'i greu yn dilyn arweiniad gan yr ICO.

Bydd y polisi yn rhoi mwy o sicrwydd i ysgolion fel cyflogwyr ynghylch rhannu gwybodaeth am weithwyr mewn digwyddiad o argyfwng iechyd meddwl.

Mae hwn mewn fersiwn drafft ar hyn o bryd ac angen mynd drwy'r broses o gael ei wirio ac ei dderbyn cyn y bydd yn cael ei rannu gyda ysgolion i'w fabwysiadu fel polisi.

## 4. Datblygiadau a Gweithgareddau Cyfredol

4.1. Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion

Sefydlwyd y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion yn Ebrill 2022 ac mae wedi parhau i gyfarfod.

Mae'r grŵp yn fforwm lle gall ysgolion ddarparu mewnbwn ac adborth ar faterion a datblygiadau diogelu data.

Mae cynrychiolydd o bob dalgylch yn ffurfio aelodaeth o'r grŵp, gyda chynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hefyd cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cadeirio cyfarfodydd, a Rheolwr Contractau a Gwasanaethau'r Gwasanaeth Dysgu a chynrychiolydd o Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth TG yn aelodau.

Mae'r grŵp yn gweithio ar ddarnau penodol o waith a fydd yn cefnogi datblygiadau pellach. Mae'r grŵp hwn yn fforwm pwysig fel bod ysgolion yn rhan o ddatblygiadau a'u bod yn gallu darparu adborth a mewnbwn. Rhennir a derbynnir polisïau a gweithdrefnau gan y grŵp.

4.2. Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn darparu diweddariadau rheolaidd i ysgolion, sy'n cynnwys rhannu newyddlen dymhorol. Hyd yn hyn, mae ysgolion wedi derbyn **10** newyddlen, gyda **3** wedi bod yn ystod y cyfnod adrodd hwn (Mawrth, Gorffennaf a Tachwedd).

Mae adran diogelu data ysgolion hefyd yn y bwletin llywodraethwyr ysgol.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn parhau i fod yn aelod o Fforwm TGCh Ysgolion a'r Gweithgor Gwella Systemau a Prosesau.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd yn darparu diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth yn ymwneud â diogelu data drwy fwletin wythnosol y Gwasanaeth Dysgu.

4.3. Mapio'r Llifiau Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor

Mae gwaith wedi parhau gyda mapio'r llifiau data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor i adnabod lle mae angen cytundeb. Mae angen rhagor o waith i gwblhau'r darn hwn o waith, ond bydd hon yn dasg barhaus wrth i fwy o wasanaethau a systemau gael eu defnyddio.

## 5. Hyfforddiant Diogelu Data

Mae'r hyfforddiant canlynol wedi'i ddarparu i ysgolion gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion rhwng Tachwedd 2023 a Thachwedd 2024:

| **Natur yr Hyfforddiant** | **Nifer y Sesiynau a Gynhaliwyd** |
|---|---|
| Hyfforddiant diogelu data ar gyfer penaethiaid newydd | **1** (20.09.24) |
| Delio â Cheisiadau Gwybodaeth (gan Unigolion a'r Heddlu) a Rhannu Gwybodaeth Bersonol a Sensitif yn Ddiogel | **1** (15.05.24) |
| Hyfforddiant diogelu data i lywodraethwyr ysgol | **1** (07.05.24) |
| Hyfforddiant diogelu data cyffredinol ar gyfer staff ysgolion | Dalgylch –**1** (03.06.24)<br>Ysgol unigol - **2** (08.04.24) & (03.09.24) |
| Hyfforddiant weminar diogelu data ar gyfer HMS, yn canolbwyntio ar elfen 'Atebolrwydd' yr UK GDPR, gan gynnwys cyflwyniad a baratowyd gan yr ICO, i dimau rheoli ac arweinwyr ysgolion | **1** (ar gael i'w weld o 02.09.24) |
| **Cyfanswm** | **7** |

Mae cyflwyniad diogelu data wedi'i roi i **2** corff llywodraethol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cyflwyniad yn amlygu'r prif ofynion a disgwyliadau ar ysgolion mewn perthynas â rhwymedigaethau diogelu data.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cwblhau'r modiwl diogelu data fel rhan o'u tanysgrifiad i'r rhaglen Educare.

Mae sesiynau hyfforddiant wedi parhau i gael eu cynnal a chânt eu cynnig i ysgolion naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae'r nifer o ysgolion sy'n manteisio ar y cynnig i gynnal sesiynau hyfforddiant yn isel, er bod ysgolion yn cael eu hatgoffa y dylid darparu hyfforddiant diogelu data yn rheolaidd. Byddwn yn cychwyn ffurfioli trefniadau hyfforddiant gloywi gydag ysgolion i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant yn rheolaidd wrth symud ymlaen.

Mae ysgolion wedi cael gwybod bod yn rhaid iddynt gynnal cofrestr ganolog o ba aelodau staff sydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu data a'r dyddiad at ddibenion atebolrwydd. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gofyn i ysgolion ddarparu tystiolaeth o fynychu hyfforddiant diogelu data, gan gynnwys dyddiadau wrth symud ymlaen.

## 6. Nifer y Digwyddiadau Diogelwch Data, Ceisiadau gan Wrthrych y Data, Ceisiadau Cofnod Addysg a Chwynion Diogelu Data

Y canlynol yw'r nifer o ddigwyddiadau diogelwch data, ceisiadau gan wrthrych y data, ceisiadau cofnod addysg a chwynion diogelu data gan ysgolion y mae'r

Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion ar eu cyfer:

| | **Rhagfyr 2023-Tachwedd 2024** | **Chwefror 2023 – Tachwedd 2023** |
|---|---|---|
| **Nifer y digwyddiadau diogelwch data yr adroddwyd** | **13** (gyda **2** yn adroddadwy i'r ICO) | **15** (gyda **3** yn adroddadwy i'r ICO) |
| **Nifer y ceisiadau gan wrthrych y data** | **11** (gyda **5** yn gyngor yn unig a **6** yn cynnwys paratoi/gwirio data) | **18** (gyda **9** yn gyngor yn unig a **9** yn cynnwys paratoi/gwirio data) |
| **Nifer y ceisiadau am cofnodion addysg** | **5** (gyda **1** yn gyngor yn unig a **4** yn cynnwys paratoi/gwirio data) | **Ni adroddwyd ar ffigyrau y llynedd** |
| **Nifer y cwynion diogelu data** | **5** (gyda **4** yn cael eu derbyn gan unigolion ac **1** drwy'r ICO) | **0** |

Mae llai o ddigwyddiadau diogelwch data wedi bod yn ystod y cyfnod hwn na'r cyfnod adrodd blaenorol (dylid nodi bod y cyfnod adrodd eleni yn hirach na'r cyfnod adrodd blaenorol). Mae'r ICO wedi cadarnhau nad oes angen unrhyw gamau pellach ar gyfer y digwyddiadau yr adroddwyd arnynt.

Mae'r nifer o geisiadau gan wrthrych y data a dderbyniwyd wedi lleihau yn ystod y cyfnod hwn, ond mae mwy o geisiadau cofnodion addysg wedi'u derbyn. Mae rhai ysgolion wedi gofyn am gyngor, a rhai wedi gofyn am gefnogaeth gyda pharatoi'r data personol perthnasol neu wirio bod yr ysgol wedi duo gwybodaeth allan yn gywir neu wedi cymhwyso'r eithriadau cywir yn eu hymatebion.

Mae mwy o gwynion yn ystod y cyfnod hwn na'r cyfnod diwethaf (ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn y cyfnod diwethaf). Allan o'r **5** cwyn, dim ond **1** a dderbyniwyd drwy'r ICO gan y gwnaed y gweddill yn uniongyrchol gan yr unigolion eu hunain.

## 7. Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – Tachwedd 2024

Ers yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd yn Tachwedd 2023, mae gan ysgolion y **polisïau** a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r rhan fwyaf o bolisïau yn ffurfiol ac wedi cael offerynnau i **fonitro** a **thystiolaethu eu cydymffurfiad** â'r holl bolisïau diogelu data. Mae hyn yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i leihau risgiau diogelu data a chefnogi ysgolion i dystiolaethu eu hatebolrwydd a'u cydymffurfiad.

Mae'r **ymarferion** rheoli gwybodaeth dydd-i-ddydd yn yr ysgolion yn parhau i fod yn dda. Er nad yw nifer o ysgolion wedi manteisio ar y cynnig am hyfforddiant gloywi neu hyfforddiant mwy pwnc-benodol, mae'r rhan fwyaf o staff yr ysgolion bellach wedi derbyn **hyfforddiant** diogelu data ar ryw amser. Mae'n rhaid cymryd camau i ffurfioli trefniadau hyfforddiant gloywi gydag ysgolion i sicrhau bod staff yn derbyn

hyfforddiant diogelu data yn rheolaidd ac i ofyn i ysgolion ddarparu tystiolaeth o bresenoldeb hyfforddiant diogelu data, gan gynnwys dyddiadau.

Mae darnau mwy penodol o waith angen eu cwblhau o hyd, gan gynnwys cwblhau'r gwaith gydag ysgolion yn addasu'r templed **ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth** wedi'i boblogi o flaen llaw; parhau i sicrhau bod **DPAau** yn eu lle ar gyfer pob ap a rhaglen a ddefnyddir; parhau i greu **DPIAau** lle mae prosesu risg uchel; cael ***Cynllun Parhad Busnes*** a ***Chynllun Adfer mewn Trychineb*** ar waith, a diweddaru'r ***Templed Cynllun Cyhoeddi***. Mae hefyd angen gwneud gwaith i sicrhau bod cofnodion a dogfennau ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r ddogfen ***Cyfnodau Cadw Ysgolion***.

Mae ysgolion yn parhau i ddangos eu bod yn deall eu **cyfrifoldebau** a'r goblygiadau fel y rheolydd data a'r disgwyliadau cyfreithiol yn sgil hynny. Mae ysgolion yn cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn llawer amlach ynghylch gwahanol faterion diogelu data a byddant yn gofyn am fwy o **gyngor, cefnogaeth ac arweiniad**.

Mae angen i ysgolion **hunan-fonitro eu cydymffurfiaeth** a sicrhau bod archwiliadau diogelu data yn cael eu cynnal a bod ganddynt dystiolaeth o'u cydymffurfiaeth ar gyfer yr elfen atebolrwydd yn y ddeddfwriaeth. Mae angen i **swyddogaethau monitro** fod ar waith i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i benaethiaid a staff ysgolion roi adborth ar sesiynau hyfforddiant ac ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaeth, cyngor ac arweiniad a rhoddir dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

| **Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Tachwedd 2024)** | **Sicrwydd Rhesymol** |
|---|---|
| Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r polisïau diogelu data allweddol a dylent fod yn monitro eu cydymffurfiaeth â pholisïau unigol. Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o ran sicrhau bod gan ysgolion y Cytundebau Diogelu Data gofynnol ar gyfer yr apiau a'r rhaglenni a ddefnyddir. Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac ysgolion drwy newyddlenni a thrwy fwletinau wythnosol y Gwasanaeth Dysgu. Mae cynnydd yn y nifer o ysgolion sy'n cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion am gefnogaeth, cyngor ac arweiniad. Mae angen ymgymryd â gwaith pellach ar ddarnau penodol o waith i sicrhau bod yr holl ysgolion ar yr un lefel o gydymffurfiaeth ac yn agosach at gydymffurfio'n llawn, gan allu tystiolaethu hyn. Mae hefyd angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod holl staff ysgolion wedi cwblhau hyfforddiant/hyfforddiant gloywi diogelu data a bod ysgolion yn ymgymryd â mwy o weithgareddau hunan-fonitro ac archwilio i sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd. | |

## 8. Casgliadau a Chamau Nesaf

### 8.1. <u>Casgliadau</u>

- Mae cynnydd yn y nifer o ysgolion ac yn y nifer o gwestiynau, ymholiadau a cheisiadau am gefnogaeth y mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn eu derbyn

am gefnogaeth gan ysgolion, gyda **591.85** awr wedi'u recordio yn y CRM am gefnogaeth diogelu data rhwng 01.11.23 a 27.11.24.

- Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac ysgolion drwy newyddlenni a thrwy fwletinau wythnosol y Gwasanaeth Dysgu.
- Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o ran adolygu a chreu Cytundebau Prosesu Data addas ar gyfer apiau a rhaglenni presennol a newydd a ddefnyddir gan ysgolion.
- Mae cynnydd wedi'i wneud i sicrhau bod gan ysgolion sydd â systemau CCTV Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) addas ar waith.
- Mae ysgolion yn parhau i gael mewnbwn i ddatblygiadau a darnau o waith yr ymgymerir â hwy i symud y rhaglen diogelu data yn ei blaen drwy'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion.
- Mae angen ymgymryd â mwy o waith i sicrhau bod holl staff ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu data gloywi a sicrhau bod ysgolion yn cadw cofrestr o ba aelodau staff sydd wedi derbyn hyfforddiant a'r dyddiad.
- Mae'n rhaid gwneud mwy o waith i fonitro bod ysgol yn monitro ac yn archwilio eu cydymffurfiaeth â'r holl bolisïau diogelu data ac yn gallu tystiolaethu cydymffurfiaeth.
- Mae'n rhaid ymgymryd â mwy o waith i sicrhau bod gan ysgolion ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth priodol a chyfredol.
- Mae angen gorffen a mabwysiadu swyddogaethau monitro i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion.
- Mae cynnydd yn parhau gyda gweithredoedd o fewn y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* ac mae ysgolion yn dod yn agosach i gydymffurfio yn llawn gyda deddfwriaeth diogelu data.

## 8.2. Camau Nesaf

- Monitro'n weithredol bod ysgolion yn monitro eu cydymffurfiaeth â'r holl bolisïau diogelu data. Gofyn am gael gweld tystiolaeth o gydymffurfiaeth gan ysgolion cyn i'r ymweliadau archwilio cydymffurfiaeth gael eu cynnal yn dilyn gweithrediad y ddeddfwriaeth diogelu data newydd.
- Parhau i greu ac adolygu Cytundebau Prosesu Data ar gyfer apiau a rhaglenni presennol a newydd, gan gynnwys cytundebau ar gyfer apiau a rhaglenni ble mae'r Cyngor hefyd ynghlwm.
- Parhau i gynnig a darparu hyfforddiant cyffredinol a phenodol i'r holl staff a llywodraethwyr ysgol. Ffurfioli trefniadau hyfforddiant gloywi gydag ysgolion i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant yn rheolaidd a gofyn i ysgolion ddarparu tystiolaeth o bresenoldeb hyfforddiant diogelu data, gan gynnwys dyddiadau.
- Parhau i fonitro bod yr holl ysgolion wedi gwaredu â dogfennau hanesyddol yn ddiogel i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw heibio ei chyfnod cadw a bod ysgolion yn glynu at y ddogfen *Cyfnodau Cadw Ysgolion*.
- Parhau â'r gwaith o sicrhau bod risgiau diogelu data yn cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data yn cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel, gan gynnwys DPIA ar gyfer ysgolion sydd â system CCTV.

- Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gwblhau'r gwaith o ran cefnogi ysgolion i addasu'r templed ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth sydd wedi'i boblogi o flaen llaw ar gyfer eu hanghenion unigol. I gynnwys cwblhau'r gwaith o greu templed ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Cwblhau'r *Cynllun Parhad Busnes* a'r *Cynllun Adfer mewn Trychineb* a'u rhannu ag ysgolion i'w mabwysiadu.
- Cwblhau a mabwysiadu swyddogaethau monitro i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i benaethiaid a staff ysgolion roi adborth ar sesiynau hyfforddiant ac ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaeth, cyngor ac arweiniad a roddir dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.
- Cwblhau'r darn o waith i gadarnhau pa gofnodion sydd angen eu trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd er mwyn sicrhau bod proses glir ac unffurf i'r holl ysgolion ei defnyddio.
- Cwblhau'r gwaith o greu templed *Cynllun Cyhoeddi* newydd i ysgolion ei addasu a'i fabwysiadu.
- Adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol ar gyfer y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion.
- Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gynnal sesiynau i roi cefnogaeth i benaethiaid i ail-sgorio eu hatebion i'r cwestiynau GDPR ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol.
- Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gwblhau'r '*Polisi ar Rannu Gwybodaeth Bersonol mewn Argyfwng Iechyd Meddwl*' a'i rannu ag ysgolion i'w fabwysiadu.
- Paratoi ar gyfer y newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r *Data (Use and Access) (DUA) Bill* yn cael ei basio ac yn adleoli'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*. Gwneud y newidiadau sydd eu hangen i bolisïau, dogfennau allweddol a hyfforddiant a sicrhau bod ysgolion yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau ac yn cydymffurfio.

**ATODIAD A**

## STRATEGAETH DATBLYGU DIOGELU DATA YSGOLION 2023-24

## DYDDIADAU ALLWEDDOL I YSGOLION WEITHREDU

## FERSIWN 1

| Mis gweithred yn cychwyn | Gweithred | Dyddiad gweithred angen ei gwblhau erbyn |
|---|---|---|
| **Hydref 2023** | • **Addasu Templed Cofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA) a Cofrestr Asedau Gwybodaeth Ysgolion (wedi ei boblogi yn barod)** ar gyfer adlewyrchu trefniadau diogelu data penodol yr ysgol. Mi fydd sesiynau grŵp/sesiynau unigol yn cael eu cynnal lle bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi cymorth i ysgolion addasu'r templed.<br><br>• **(*Os yn berthnasol*)- Cwblhau DPIA CCTV-** i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gynnal cyfarfodydd gyda ysgolion unigol er mwyn cwblhau DPIA CCTV wedi ei addasu o'r templed DPIA CCTV safonol. | Pob ysgol unigol gyda ROPA a Cofrestr Asedau Gwybodaeth ac wedi cadarnhau hyn ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol erbyn **09.02.24**<br><br>Pob ysgol gyda system CCTV i gyd gyda DPIA CCTV cyfredol ar gyfer eu hysgol unigol nhw erbyn **09.02.24** |
| **Chwefror 2024** | • **Ysgolion i fabwysiadu fersiynau diweddaraf o'r polisïau a'r canllawiau diogelu data wedi eu hadolygu:**<br>○ Polisi Diogelu Data Ysgolion<br>○ Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion<br>○ Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion<br>○ Canllaw Diogelu Data Corff Llywodraethu Ysgolion<br>○ Canllaw ar Ddigwyddiadau Diogelwch Data | Ysgolion wedi mabwysiadu ac wedi cadarnhau ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol erbyn **24.05.24** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ebrill 2024** | • **Ysgolion i dderbyn y fersiwn newydd o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth am wasanaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion** (cytundeb presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024).<br><br>• **Ail-sgorio Atebion Cwestiynau GDPR ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol** er mwyn rhoi darlun cyfredol yn dilyn gweithredu ar gweithredoedd o fewn y Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion. Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gynnal sesiynau er mwyn rhoi cymorth i Benaethiaid ail-sgorio yr atebion. | Ysgolion wedi derbyn ac arwyddo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd erbyn **24.05.24**<br><br>Sesiynau wedi eu cynnal a phob ysgol wedi ail-sgorio erbyn **28.06.24** |
| **Mawrth 2024 - Mehefin 2024** | • **Cynnal Archwiliad Diogelu Data Blynyddol-** Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymweld â phob ysgol unigol i adolygu trefniadau a cydymffurfiaeth diogelu data. I ganolbwyntio os mae ysgolion yn gallu tystiolaethu eu bod yn monitro eu cydymffurfiaeth â'r holl bolisïau diogelu data. | Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi cwblhau pob ymweliad unigol i ysgolion erbyn **28.06.24** |

**ATODIAD B**

**STRATEGAETH DATBLYGU DIOGELU DATA YSGOLION 2024-25**

**DYDDIADAU ALLWEDDOL I YSGOLION WEITHREDU**

**DRAFFT 1**

| Mis gweithred yn cychwyn | Gweithred | Dyddiad gweithred angen ei gwblhau erbyn |
|---|---|---|
| **Hydref 2024** | • **Addasu Templed Cofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA) a Cofrestr Asedau Gwybodaeth Ysgolion (wedi ei boblogi yn barod)** ar gyfer adlewyrchu trefniadau diogelu data penodol yr ysgol. Mi fydd sesiynau grŵp/sesiynau unigol yn cael eu cynnal lle bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi cymorth i ysgolion addasu'r templed.<br><br>• **(*Os yn berthnasol*)- Cwblhau DPIA CCTV-** i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gynnal cyfarfodydd gyda ysgolion unigol er mwyn cwblhau DPIA CCTV wedi ei addasu o'r templed DPIA CCTV safonol. | Pob ysgol unigol gyda ROPA a Cofrestr Asedau Gwybodaeth ac wedi cadarnhau hyn ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol erbyn **23.05.25**<br><br>Pob ysgol gyda system CCTV i gyd gyda DPIA CCTV cyfredol ar gyfer eu hysgol unigol nhw erbyn **11.04.25** |
| **Chwefror 2025** | • **Ail-sgorio Atebion Cwestiynau GDPR ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol** er mwyn rhoi darlun cyfredol yn dilyn gweithredu ar gweithredoedd o fewn y Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion. Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gynnal sesiynau er mwyn rhoi cymorth i Benaethiaid ail-sgorio yr atebion.<br><br>• **Mabwysiadu'r *Cynllun Parhad Busnes* a'r *Cynllun Adfer mewn Trychineb*** a sicrhau bod y rhain wedi cael eu diwygio i adlewyrchu anghenion unigol yr ysgol. | Sesiynau wedi eu cynnal a phob ysgol wedi ail-sgorio erbyn **23.05.25**<br><br>Yr holl ysgolion i sicrhau bod ganddynt *Gynllun Parhad Busnes* a *Chynllun Adfer mewn Argyfwng* erbyn **20.06.25** |

| | | |
|---|---|---|
| **Mawrth 2025** | • **Mabwysiadu'r '*Polisi ar Rannu Gwybodaeth Bersonol mewn Argyfwng Iechyd Meddwl*' newydd**. Mae hwn yn bolisi newydd sydd angen ei fabwysiadu yn dilyn arweiniad gan yr ICO. | Yr holl ysgolion i fabwysiadu'r polisi a chadarnhau ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol erbyn **18.07.25** |
| **Ebrill 2025** | • **Mabwysiadu ac addasu'r templed *Cynllun Cyhoeddi* newydd -** i sicrhau bod y templed yn cael ei addasu'n benodol i adlewyrchu cyhoeddiadau unigol yr ysgol ac i sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus (i'w rannu ar wefannau ysgolion neu drwy ffyrdd priodol eraill). Gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion roi cymorth. | Yr holl ysgolion i sicrhau bod y templed *Cynllun Cyhoeddi* newydd wedi'i addasu, ei fabwysiadu a'i wneud ar gael yn gyhoeddus erbyn **18.07.25** |
| **Medi 2024 - Gorffennaf 2025** | • **Sicrhau bod yr holl staff ysgolion wedi derbyn hyfforddiant/hyfforddiant gloywi sy'n addas ar gyfer eu rôl swydd yn ystod y flwyddyn a bod cofnod yn cael ei gadw o bwy sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a phryd.** Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cysylltu ag ysgolion unigol i sicrhau bod holl staff ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu data diweddar. | Holl ysgolion i sicrhau bod hyfforddiant diogelu data perthnasol wedi'i gwblhau gan holl staff yr ysgol erbyn **18.07.25** |
| | • **Sicrhau bod mecanweithiau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth yr ysgol â gofynion diogelu data, gan gynnwys cydymffurfiaeth â pholisïau a bod monitro ac archwiliadau cydymffurfiaeth rheolaidd yn digwydd.** Defnyddio offerynnau a ddarperir megis y ddogfen '*Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data*', y '*Ffurflen Archwilio Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion*' ac Adolygiad Rheolaeth Ysgol. Gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion roi cymorth. | Yr holl ysgolion i sicrhau bod mecanweithiau ar waith i fonitro ac archwilio cydymffurfiaeth yr ysgol â gofynion deddfwriaeth diogelu data **(parhaus)** |
| | • **Gweithredu proses i sicrhau bod yr holl ddogfennau a chofnodion ffisegol a digidol yn cael eu cadw'n unol â'r ddogfen *Cyfnodau Cadw Ysgolion*.** Gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion roi cefnogaeth. | Yr holl ysgolion i sicrhau bod proses ar waith i gadw'r holl ddogfennau a chofnodion yn unol â'r ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion **(parhaus)** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2023-24 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>ChristianBranch@anglesey.gov.wales |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Stephen Nicol<br>Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch<br>StephenNicol@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad sicrwydd blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (3.4.8.7.3) wrth ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor yn ehangach (3.4.8.7.1). Wrth ystyried yr adroddiad bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu (3.4.8.7.2). Gofynnir i'r Pwyllgor hefyd gadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr (3.4.8.8.1). | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Cyngor, hyd at 31 Mawrth 2024, ar weithgareddau'r Cyngor yn gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ystod 2023-24.

1.2 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys dadansoddiad o ddamweiniau a digwyddiadau a llwyddiannau allweddol. Mae hefyd yn nodi'r cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried a yw gweithgareddau'r Cyngor yn gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol.
- Derbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch i lefel dderbyniol.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Cyngor 2023 / 24

CYNNWYS

**Crynodeb gweithredol** ... 3
1 **Cyflwyniad** ... 4
2 **Rheolaeth Gorfforaethol** ... 5
3 **Gwybodaeth Ystadegol** ... 5
4 **Partneriaethau** ... 14
5 **Ymgynghori ar y Cyd** ... 14
6 **Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol** ... 14
7 **Perfformiad Diogelwch** ... 15
8 **Cynllun Gweithredu Strategol** ... 18
9 **Casgliad** ... 19
10 **Argymhelliad** ... 20

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad iechyd a diogelwch Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2023/24.

Roedd rhaid rhoi sylw sylweddol i ddau fater heriol yn ystod 2023/24. Derbyniwyd cyfarwyddyd newydd gan y Llywodraeth Cymru ar y camau i'w cymryd mewn perthynas ag adeiladau sy'n cynnwys Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC). Darparwyd y cyfarwyddyd ychydig ddyddiau cyn dechrau'r tymor academaidd newydd, a chafodd effaith sylweddol.

Roedd yr Adran Eiddo wedi bod yn rhagweithiol o ran monitro'r deunydd yn y lleoliadau hysbys. Oherwydd hyn, hwyluswyd y gwaith i gymryd camau brys a chaniatawyd Cyngor Sir Ynys Môn i fod y cyntaf i hysbysu Llywodraeth Cymru o'r sefyllfa leol.

Cafwyd cydweithio rhwng Eiddo, Addysg, Iechyd a Diogelwch, gan ysgogi cynlluniau i ddechrau gwaith adferol a dulliau o ddarparu addysg yn ddiogel a phrydlon.

Dyfeisiwyd cynllun adferol gan yr adran Eiddo ar gyfer y deunyddiau. Dyfeisiodd yr adran Addysg gynlluniau er mwyn gweithio gyda'r ysgolion dan sylw er mwyn parhau i ddarparu addysg i ddisgyblion. Rhoddwyd y gwersi a ddysgwyd o COVID ar waith wrth reoli'r sefyllfa.

Cafodd y Ffliw Adar effaith sylweddol yn ystod 2023 - 2024. Gweithiodd adrannau Morwrol, Gwastraff a Diogelu'r Cyhoedd - Iechyd Anifeiliaid ac Iechyd a Diogelwch - Cyngor Sir Ynys Môn gyda'i gilydd i ddatblygu dull diogel i gasglu adar “heintus” oedd wedi marw o ardaloedd cyhoeddus. Roedd angen rheolau llym ar waith er mwyn lliniaru risgiau ffliw adar ac atal yr haint rhag trosglwyddo i bobl neu anifeiliaid eraill. Gweithredwyd y rheolau hyn yn effeithiol ac effeithlon.

Mae nifer y damweiniau / digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd i'r cyngor wedi cynyddu'n sylweddol o'r flwyddyn flaenorol. Ar ei ben ei hun, gall y cynnydd hwn beri pryder, fodd bynnag, mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, a cheir rhagor o fanylion yn hwyrach yn yr adroddiad.

## 1 Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad ym maes Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau yn darparu cyfres o benawdau fel cymorth ar gyfer adrodd ar berfformiad ym maes iechyd a diogelwch. Nid yw'n fwriad i'r fframwaith fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond fe ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad o ran rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- **Prif Gyflawniadau**

Mae pedwar cyflawniad allweddol, fel y nodwyd yn flaenorol, cafodd dau fater penodol effaith sylweddol ar waith dydd i ddydd y Cyngor yn ystod 2023 – 2024 – RAAC ac ffliw adar. Ymdriniwyd â'r ddau fater yn effeithiol ac effeithlon gydag adrannau'n cydweithio o fewn y Cyngor.

- **RAAC**

Roedd rhaid gweithredu ar unwaith ar gyfarwyddiadau diwygiedig gan y Llywodraeth ynghylch y camau i'w cymryd gydag adeiladau oedd â choncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) yn rhan o'r strwythur. Gan fod yr Adran Eiddo wedi bod yn monitro'r deunydd hwn roedd y lleoliadau'n hysbys. Gweithredodd yr Adrannau Eiddo, Addysg ac Iechyd a Diogelwch ar unwaith a rhoddwyd cynlluniau ar waith yn gyflym iawn.

Lluniwyd cynllun adfer gan yr adran Eiddo ar gyfer y deunyddiau. Lluniodd yr adran Addysg, ar y cyd â'r ysgolion dan sylw, gynlluniau i barhau i ddarparu addysg i ddisgyblion. Effeithiwyd ar y ddwy ysgol fwyaf yn y Sir. Mae'n debyg y byddai'r effaith ar addysgu a threfn ddyddiol y cymunedau ynghlwm wedi bod hyd yn oed mwy sylweddol heb y gwaith effeithlon a wnaed gan y Cyngor.

- **Ffliw Adar**

Roedd effaith yr achos o ffliw adar ar Ynys Môn yn ddifrifol. Arweiniodd hyn at ganfod nifer fawr o adar marw ar draethau ac mewn ardaloedd eraill dan reolaeth Cyngor Môn. Oherwydd bod ffliw adar yn creu risg ychwanegol, roedd rhaid dyfeisio dull gwahanol o gasglu adar marw. Roedd rhaid cydymffurfio â gwahanol ddeddfwriaeth a mesurau rheoli mewn perthynas â thrin yr adar marw.

Lluniodd yr Adrannau Gwastraff a Thwristiaeth drefniadau gweithio i fynd i'r afael â'r broblem hon. Roedd yn ymddangos bod y trefniadau'n gweithio'n effeithiol. Roedd hyn

yn osgoi cyhoeddusrwydd drwg posib yn gysylltiedig â'r mater. Roedd hyn hefyd yn atal risg sylweddol i staff a'r cyhoedd.

- **Y Gronfa Ddysgu**

Dylid ystyried parhau i ddarparu'r Gronfa Ddysgu fel dull o ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant fel cyflawniad allweddol. Mae hyn wedi caniatáu i staff a phartneriaid allanol gael mynediad at wybodaeth a ddylai gynorthwyo o ran eu hiechyd a'u diogelwch.

- **Staff**

Oherwydd trefniadau gweithio newydd, mae staff wedi bod yn hyblyg ac wedi dangos ymrwymiad i barhau i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel.

## 2 Rheolaeth Gorfforaethol

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth (TA) yn parhau i ddarparu parhad a llywodraethiant i'r cyngor o safbwynt rheolaeth a chamau gweithredu cyffredinol, ac mae penderfyniadau'n dal i gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith. Cefnogwyd hyn drwy gyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Corfforaethol er mwyn galluogi i unrhyw faterion gael eu dwyn gerbron y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i'w datrys.

Lluniwyd y Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2022/23 gyda'r nod o adfer "busnes fel arfer" yn dilyn cyfyngiadau Covid19. Er bod y cynllun hwn yn caniatáu ailgyflwyno nifer o systemau gwaith, efallai y bydd angen adolygu rhai systemau gwaith gan fod arferion gweithio amrywiol wedi newid.

## 3 Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r data a gyflwynir isod yn ymwneud â'r holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2023/24. Mae damweiniau a digwyddiadau wedi eu categoreiddio mewn tri phrif grŵp – Mân, Difrifol a RIDDOR.

**Mân ddamweiniau a digwyddiadau fyddai damweiniau/digwyddiadau** lle nad oedd yr anaf neu'r golled yn sylweddol. Mae hynny'n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle nad oedd neb wedi cael anaf neu golled, a phe bai anaf neu golled wedi digwydd ni fyddai'r canlyniadau wedi bod yn sylweddol.

**Mae damweiniau/digwyddiadau difrifol** yn cynnwys y rheini a arweiniodd at anaf neu golled sylweddol neu lle'r oedd posibilrwydd o anaf neu golled o'r fath. Mae hynny'n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle na chafodd neb anaf neu golled, ond lle gallai'r canlyniad fod wedi bod yn sylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

**Mae damweiniau a digwyddiadau RIDDOR** yn ddamweiniau a digwyddiadau sydd yn cwrdd â meini prawf penodol ac mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r meini prawf ar gyfer rhoi gwybod am

ddamweiniau a digwyddiadau o’r fath i’w gweld yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y damweiniau a’r digwyddiadau yn yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â’r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr, cyfleusterau a staff.

**Yr holl ddigwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt**

Tabl 1 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2023/24

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a Gofnodwyd yn 2023/24</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 1675</td></tr>
<tr><td>Mân 1323</td></tr>
<tr><td>Difrifol 341</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 11</td></tr>
</table>

Tabl 2 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2022/23

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2022/23</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 1237</td></tr>
<tr><td>Mân 884</td></tr>
<tr><td>Difrifol 240</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 11</td></tr>
</table>

**Tabl 3 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2021/22**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2021/22</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 966</td></tr>
<tr><td>Mân 815</td></tr>
<tr><td>Difrifol 147</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 4</td></tr>
</table>

Wrth ddadansoddi Tabl 1, 2 a 3 gwelir cynnydd yn nifer y damweiniau a digwyddiadau yn 2023/24 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Credir mai dychwelyd at arferion busnes fel arfer yn dilyn yr argyfwng COVID19 sydd i gyfrif am hyn.

Oherwydd dyletswydd gofal y Cyngor tuag at y cyhoedd fel rhan o'r ymrwymiad, mae digwyddiadau a gofnodwyd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol. Mae'r cyhoedd yn cynnwys disgyblion ysgol, disgyblion cyn ysgol, aelodau Clybiau Ieuenctid, Cleientiaid mewn cartrefi gofal a defnyddwyr cyfleusterau Hamdden.

Gall digwyddiadau yn gysylltiedig â'r grŵp hwn gynnwys damweiniau ar feysydd chwarae, cleientiaid yn llithro, baglu a disgyn oherwydd problemau symudedd, digwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon a chyflyrau meddygol. Maent yn cael eu cofnodi am reswm cyfreithiol, rhag ofn y bydd angen camau pellach.

Mae niferoedd ar gyfer y digwyddiadau hyn yn cael eu dangos yn Nhabl 4 isod

**Tabl 4 – gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau gwaith**

| Math o leoliad | Cyfanswm |
|---|---|
| Ysgolion (Disgyblion) | 529 |
| Digwyddiadau Dechrau'n Deg a Chylch Meithrin a Chlybiau Ieuenctid (Disgyblion ac Aelodau) | 158 |
| Canolfannau Hamdden (Defnyddwyr) | 97 |
| Cartrefi Gofal (Cleientiaid | 217 |

Dengys yr uchod y cafwyd gwybod am 1001 o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r Cyhoedd mewn cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.

**Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig**

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y damweiniau a digwyddiadau yn gysylltiedig â gweithwyr yn unig.

**Tabl 5 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig yn 2023/24**




| |
|---|
| Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig) |
| Cyfanswm 357 |
| Mân 273 |
| Difrifol 78 |
| RIDDOR 6 |

**Tabl 6 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig 2022/23**




| |
|---|
| Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig) |
| Cyfanswm 326 |
| Mân 263 |
| Difrifol 57 |
| RIDDOR 6 |

**Tabl 7 – Digwyddiadau’n gysylltiedig â gweithwyr yn unig 2021/22**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm<br>188</td></tr>
<tr><td>Mân<br>161</td></tr>
<tr><td>Difrifol<br>23</td></tr>
<tr><td>RIDDOR<br>4</td></tr>
</table>

Wrth ddadansoddi Tabl 5, 6 a 7 gwelir bod cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn ystod 2023/24 o gymharu â’r ddwy flynedd flaenorol.

**Mathau o Ddigwyddiadau**

Mae’r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn cael eu dangos isod yn Nhabl 8

**Tabl 8**

| **Math o Ddigwyddiad** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| **Ymosodiad Corfforol Anableddau Dysgu** | 171 |
| Mae digwyddiad o’r math hwn yn gysylltiedig ag ymosodiad gan gleientiaid neu ddisgyblion, yn anfwriadol o bosib. Mae’r posibilrwydd o achosi niwed yn cael ei gydnabod. | |
| **Ymosodiad Corfforol** | 22 |
| Mae digwyddiad o’r math hwn yn ystyried y gallai’r person fod yn bwriadu achosi niwed. Mae’r math hwn o ddigwyddiad yn amrywio o wthio i daro person. Cafwyd cysylltiad corfforol. | |
| **Digwyddiad Treisgar / Difrïo** | 76 |
| Mae digwyddiad o’r math hwn yn ymwneud â sylwadau difrïol neu fygythiol sy’n cael eu hanelu at staff gan y cyhoedd. Gallai gynnwys aelodau o’r cyhoedd sy’n cwyno am broblemau mewn ffordd ymfflamychol. | |

| | |
|---|---|
| **Ymddygiad Heriol** | 90 |
| Mae hyn yn gysylltiedig ag ymddygiad ymosodol gan gleientiaid / disgyblion, ond, oherwydd problem galluedd meddyliol, efallai nad oedd yn fwriad achosi gofid. | |
| **Codi a Chario** | 14 |
| Mae digwyddiadau Codi a Chario yn deillio o godi gwrthrychau neu gynorthwyo cleientiaid | |
| **Llithro, Baglu a Disgyn** | 367 |
| Digwyddiadau a gofnodwyd lle mae gweithwyr wedi disgyn ac wedi cael anaf. Gallai hyn gynnwys arwynebau llithrig neu ormod o rwystrau. | |

**Ymosodiad Corfforol Anableddau Dysgu**

Digwyddodd y digwyddiadau hyn yn bennaf yn y meysydd Addysg a Gofal. Roeddent yn gysylltiedig â digwyddiadau lle gallai person fod wedi ymosod heb fwriadu achosi niwed. O'r 171 digwyddiad, roedd aelodau staff wedi cael eu taro mewn 121 ohonynt. Yn y maes Gofal, byddai hyn wedi arwain at lunio asesiad risg ar y cleient er mwyn rhoi sylw i anghenion diogelwch y cleient ac aelodau staff. Byddai proses debyg yn cael ei dilyn mewn sefydliadau addysg arbennig.

Mewn sefydliadau addysg cyffredinol gallai'r digwyddiadau hyn fod wedi arwain at ddarparu cymorth gan y Tîm Ymyrraeth Gynnar.

**Ymosodiad Corfforol**

Roedd y digwyddiadau hyn yn y sector Addysg yn bennaf. Nid yw hyn yn cynnwys digwyddiadau rhwng disgyblion. Byddai camau disgyblu lleol wedi'u rhoi ar waith.

**Digwyddiad Treisgar / Difrïo**

Digwyddodd y digwyddiadau hyn mewn croestoriad o wasanaethau'r Cyngor. Mae cam-drin geiriol dros y ffôn wedi'i gynnwys yn y ffigyrau hyn. Mae'r Polisi Rheoli Cysylltiadau – Gweithredoedd Annerbyniol gan Gwsmeriaid wedi ystyried y mathau hyn o ddigwyddiadau ac mae'n caniatáu i staff ddweud wrth y cleient fod yr ymddygiad yn annerbyniol a rhoi'r ffôn i lawr. Byddai ffurflen digwyddiad yn cael ei chwblhau yn sgil hynny. Os yw'n ddigwyddiad wyneb yn wyneb efallai y bydd asesiad risg yn cael ei lunio. Os yw'n ddigwyddiad mewn adeilad cyhoeddus, megis Canolfan Hamdden, efallai y bydd y person sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ddifrïol yn cael ei wahardd o'r adeilad.

**Ymddygiad Heriol**

Digwyddodd y digwyddiadau hyn yn y meysydd Addysg a Gofal. Roedd y digwyddiadau'n gysylltiedig ag ymddygiad disgyblion neu gleientiaid oedd yn aflonyddu ar y bobl oedd yn bresennol neu'r gwaith oedd yn cael ei wneud. Gallai hyn fod wedi arwain at adolygu'r asesiad risg.

**Codi a Chario**

Digwyddodd digwyddiadau Codi a Chario yn y maes gofal yn bennaf. Byddai hyn yn gysylltiedig â chynorthwyo cleientiaid yn hytrach na chodi gwrthrychau. Darperir hyfforddiant penodol er mwyn caniatáu i staff gynorthwyo a chodi cleientiaid yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

**Llithro, Baglu a Disgyn**

Cofnodwyd 367 digwyddiad llithro, baglu a disgyn. Mae'r categori disgyn yn cael ei rannu'n ddau, sef disgyn oddi ar wrthrych a disgyn o uchder. Roedd 166 o'r achosion o lithro, baglu a disgyn a gofnodwyd yn ymwneud â disgyblion ysgol. Ystyrir bod hyn o fewn y terfynau rhesymol ar gyfer chwarae cyffredinol mewn ysgol. Cofnodwyd 160 achos o lithro, baglu a disgyn mewn Cartrefi Gofal ac yn y maes Gofal. Roedd hyn yn gysylltiedig â chleientiaid yn disgyn, o bosib oherwydd cyflyrau meddygol neu oherwydd eu bod yn eiddil. Pan fydd cleient yn disgyn mewn Cartref Gofal, mae asesiad risg yn gysylltiedig â disgyn yn cael ei gynnal yn benodol ar gyfer y cleient hwnnw. Y bwriad fyddai nodi'r risg o ddisgyn yn y dyfodol a chamau posib i'w cymryd i leihau'r risg. Roedd 17 digwyddiad o lithro, baglu a disgyn cyffredinol pryd cafodd staff y cyngor eu hanafu.

Mae 'Math arall o ddigwyddiad' yn cael ei restru fel math o ddigwyddiad ar y system gofnodi. Mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiad sy'n anodd ei gategoreiddio. Efallai fod aelod o staff wedi adrodd am rywbeth fel pryder. Cofnodwyd cyfanswm o 300 digwyddiad o dan y pennawd hwn.

Roedd 20 o ddigwyddiadau wedi eu cofnodi ar gyfer mathau eraill o ddigwyddiadau, megis Cyflwr Meddygol. O'r 20 digwyddiad, roedd 4 yn gysylltiedig â staff y cyngor. Ystyriwyd bod niferoedd y digwyddiadau hyn yn isel ac mae'n bosib nad oedd patrwm amlwg i achosi pryder sylweddol.

Cofnodwyd 58 digwyddiad lle cafodd eiddo ei ddifrodi neu ei golli.

**Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR)**

RIDDOR yw'r gyfraith sy'n nodi bod rhaid i gyflogwyr, a phobl eraill sydd â rheolaeth dros safleoedd gwaith, adrodd a chadw cofnodion am ddamweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi marwolaeth; damweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi rhai mathau o anafiadau difrifol (anafiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt), achosion lle cafwyd diagnosis o rai mathau o glefydau diwydiannol; a rhai 'digwyddiadau peryglus' (digwyddiadau a allai achosi niwed).

Mae'n rhaid rhoi gwybod am ddamweiniau yn gysylltiedig â gwaith sy'n ymwneud â'r cyhoedd neu bobl nad ydynt yn y gwaith os caiff person ei anafu ac os ydynt yn cael eu cludo o safle'r ddamwain i'r ysbyty i dderbyn triniaeth ar gyfer yr anaf hwnnw. Nid yw'n ofynnol sefydlu pa driniaeth a ddarparwyd yn yr ysbyty, ac nid oes angen rhoi gwybod am ddigwyddiadau lle cludwyd pobl i'r ysbyty dim ond fel rhagofal pan nad oedd unrhyw arwydd o anaf.

Cyflwynir dadansoddiad o'r adroddiadau RIDDOR isod yn nhabl 9.

**Tabl 9 Adroddiadau RIDDOR**

| Dyddiad | Digwyddiad | Rheswm ar yr adroddiad |
|---|---|---|
| 19/05/2023 | Llithro, Baglu a Disgyn, Ar yr un lefel – Disgybl wedi disgyn yn ystod gweithgaredd chwaraeon, oherwydd diffyg ar y safle. | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty o'r safle |
| 12/06/2023 | Math arall o ddamwain – disgynnodd un aelod o staff a thynnu aelod o staff arall i lawr wrth ddisgyn. Cafodd yr ail aelod o staff ei anafu. | Anaf sy'n achosi absenoldeb o'r gwaith am fwy na 7 diwrnod |
| 22/06/2023 | Difrod/colli eiddo – rhan o gyfarpar sy'n cynnal pwysau wedi methu | Cyfarpar codi wedi methu |
| 22/06/2023 | Difrod/colli eiddo – rhan o gyfarpar sy'n cynnal pwysau wedi methu | Cyfarpar codi wedi methu |
| 26/06/2023 | Anaf chwaraeon – Aelod o staff wedi disgyn yn ystod gweithgaredd | Anaf sy'n achosi absenoldeb o'r gwaith am fwy na 7 diwrnod |
| 11/09/2023 | Baglu, Llithro a Disgyn, Ar yr un lefel – aelod o'r cyhoedd wedi llithro ar ddŵr mewn safle o dan do | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 12/10/2023 | Disgyn o uchder o dan 2m – contractwr wedi disgyn oddi ar ysgol | Aelod o'r Cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 11/12/2023 | Anaf wrth Godi a Chario – gweithiwr yn anafu ei gefn wrth gyflawni tasg codi a chario | Anaf sy'n achosi absenoldeb o'r gwaith am fwy na 7 diwrnod |
| 15/12/2023 | Llosgi – aelod o staff wedi llosgi ei law gyda dŵr poeth | Anaf sy'n achosi absenoldeb o'r gwaith am fwy na 7 diwrnod |

| | | |
|---|---|---|
| 06/02/2024 | Gwydr/offer miniog – disgybl wedi anafu ei fraich gyda ffenestr wydr | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 06/03/2024 | Disgyn o uchder o dan 2m – aelod o staff wedi disgyn wrth osod arddangosfa | Anaf penodedig – torri asgwrn |

**Tabl 10 – Cymhariaeth tymor hir**

Cofnodion sydd ar gael ar y system bresennol rhwng 2016 a 2024




Oherwydd yr argyfwng Covid19, roedd nifer o arferion gweithio wedi eu cyfyngu rhwng 2019 a 2022. Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio, gofynnodd yr aelodau am ffigyrau cymharol ar gyfer y tymor hir.

Mae'r tabl isod yn dangos fod y ffigyrau wedi gostwng yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Mae blwyddyn 2022/23 yn dangos cynnydd o gymharu â 2020/21 a 2021/22. Roedd y cynnydd hwn i'w ddisgwyl wrth i weithgarwch gynyddu. Roedd y ffigyrau'n parhau i fod yn is na ffigyrau yn ystod y blynyddoedd cyn Covid.

Gwelwyd cynnydd yn ystod 2023/24 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn 2023/24, roedd cynnydd o 242 yn yr holl ddigwyddiadau o gymharu â 2016/17, sef y flwyddyn lle'r oedd y niferoedd ar eu uchaf cyn hynny. Roedd cynnydd o 42 yn y digwyddiadau Gweithwyr yn Unig yn 2023/24 o gymharu â 2018/19, sef y flwyddyn lle'r oedd y niferoedd ar eu uchaf cyn hynny.

Gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y cynnydd. Gallai ymwybyddiaeth well o'r angen i roi gwybod am ddigwyddiadau fod yn ffactor. Yn ystod y cyfnod Covid, tynnwyd sylw staff at yr angen i roi gwybod am ddigwyddiadau. Oherwydd difrifoldeb y pandemig efallai fod y diwylliant adrodd wedi gwreiddio ymysg y staff.

Gallai cynnydd mewn gweithgareddau gwaith fod i gyfrif am y cynnydd yn y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Efallai bod y newid a welwyd mewn nifer o arferion gweithio yn dilyn covid yn rheswm am y cynnydd. Mae hyn yn dangos bod angen adolygu'r holl arferion gweithio presennol, a'r rheolaethau, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol. Bydd hyn yn sail ar gyfer y Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer 2024/25.

## 4 Partneriaethau

### Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Mae Timau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi bod yn cyd-drafod. Canolbwyntiwyd ar bynciau penodol er mwyn sefydlu dull tebyg i'w ddefnyddio o ran rheolaethau iechyd a diogelwch.

### Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Mae'r HSE wedi cynnal archwiliad rhagweithiol o waith RAAC mewn ysgol ar Ynys Môn. Pwrpas hyn oedd asesu'r gwaith a gwblhawyd a threfniadau ar gyfer rheoli asbestos tra'r oedd y gwaith yn cael ei wneud. Aseswyd y trefniadau gweithio amgen ar gyfer yr ysgol yn ystod y gwaith hwn.

## 5 Ymgynghori ar y Cyd

### Grŵp Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhithiol yn ystod 2022/23. Roedd y cyfarfodydd yn caniatáu i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch o holl wasanaethau'r Cyngor rannu gwybodaeth.

## 6 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Darperir Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol dwyieithog gan Gyngor Gwynedd, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae ychydig dros 450 o apwyntiadau ar gael i staff bob blwyddyn. Caiff y rhain eu dyrannu drwy atgyfeiriad gan reolwr llinell neu drwy hunan-atgyfeiriad gan yr aelod staff. Mae tua 200 o apwyntiadau ar gael i staff sy'n credu y gallant elwa o ffisiotherapi. Mae'r apwyntiadau hyn ar gael drwy atgyfeiriad gan y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn dilyn ymgynghoriad.

# 7 Perfformiad Diogelwch

## Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae’r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn nodi strwythur o gefnogaeth ar gyfer y Cyngor. Mae’r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi’i leoli yn yr adran gwarchod y cyhoedd, sydd yn rhan o’r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Mae’r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei reoli gan y Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol. Mae’r Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol yn adrodd i’r Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd sydd, yn ei dro, yn adrodd i’r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Mae’r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnwys tri aelod craidd, sef Prif Ymgynghorydd a dau Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch. Cyflawnwyd hyn gan fod yr Ymgynghorydd Cynorthwyol a’r Ymgynghorydd dan Hyfforddiant wedi ennill Diploma Cenedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch. Mae’r cymhwyster yn cael ei gydnabod fel cymhwyster angenrheidiol er mwyn darparu cyngor iechyd a diogelwch cymwys. Dylai’r ffaith fod dau Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn cael eu cyflogi gynorthwyo’r Cyngor i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a darparu cyngor cymwys.

Mae cynllun gwaith y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhan o’r Cynllun Gwasanaeth Trwyddedu ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mae’n rhan o’r Cynllun Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a Chynllun Gwasanaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Cyflwynir gweithredoedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol isod.

**Tabl 11 Gweithredoedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

| **Gweithredoedd Allweddol** | **Meini Prawf Llwyddiant** (Sut gwyddom ein bod wedi cyflawni’r Weithred Allweddol?) | **Targedau Chwarterol 2022 / 2023** | | | | **Adnoddau** Ac eithrio eich adnoddau eich hun |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a’i gyfrifoldebau iechyd a diogelwch (mewnol ac allanol) yn effeithiol | Datblygu cynllun gweithredu Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 1 | | | 1 drafft | |
| | Adolygu Polisïau – diweddaru’r Porth Polisi. Polisïau ar-lein ar y fewnrwyd wedi’u diweddaru | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | System 4Policy. Cymorth gan TGCh i ddarparu dolenni o Monitor |
| | | Targed | | | | |
| | | 8 | 7 | 9 | 7 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 8 | 7 | 9 | 7 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cofrestr Risg ar gyfer Pobl a allai fod yn Dreisgar/Damweiniau. Monitro system marciwr Pobl Dreisgar Posib. Adolygu bob chwarter. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | TGCh – gweithio gyda'r system CRM |
| | | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | Canran ymateb i ddamweiniau RIDDOR ar safleoedd yr Awdurdod Lleol o fewn 5 diwrnod. | Ch1 | Ch22 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 100% | 100% | 100% | 100% | |
| | | Nifer damweiniau RIDDOR | | | | |
| | | 5 | 1 | 3 | 2 | |
| | Cyfarfodydd rheoli gwasanaeth. Mynychu cyfarfodydd i adrodd ar faterion Iechyd a Diogelwch pryd a phan fydd angen / neu ar ôl derbyn cais. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Gwasanaethau i drefnu'r cyfarfod a'r lleoliad |
| | | 100% ar ôl derbyn cais neu pan fydd angen. | | | | |
| | | 2 | 2 | 3 | 10 | |
| | Cyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch. Cyfarfodydd Chwarterol. Rhaglen yn seiliedig ar bynciau. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 0 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 0 | 2 | 1 | 0 | |
| | Bwletinau Iechyd a Diogelwch Chwarterol ar bynciau byw. Y nod yw creu diwylliant Iechyd a Diogelwch. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 1 | 1 | 1 | 0 | |
| | Cyflwyno eitem ar Iechyd a Diogelwch fel rhan o'r hyfforddiant Cynefino Corfforaethol. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Adnoddau Dynol i drefnu dyddiadau a darparu lleoliad |
| | | 100% ar gais | | | | |
| | | 2 | 2 | 1 | 0 | |
| | Gwaith adweithiol yn unol â tharged lefel gwasanaeth o ddarparu ymateb cychwynnol o fewn un diwrnod gwaith. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Ceisiadau fesul chwarter | | | | |
| | | 80 | 191 | 207 | 129 | |
| | | Cyfanswm o 607 | | | | |
| | Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | | | | 1 | |
| | Nifer o ymyriadau iechyd a diogelwch a gynlluniwyd ar safleoedd y Cyngor. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 10 | 10 | 10 | 10 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cyffredinol yw hwn ar gyfer ystod o weithgareddau sy’n cael eu cynnal ar draws yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith monitro rhagweithiol, archwiliadau a gweithgareddau archwilio ymatebol megis ymchwilio i ddamweiniau. | 14 | 6 | 16 | 7 | |
| | Rhoi rhaglen Gofal Llygaid DSE ar waith gyda darparwr newydd a monitro’r gwasanaeth. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Y weithred oedd rhoi system newydd ar waith gyda darparwr gofal llygaid er mwyn cynnal profion llygaid a darparu sbectol i ddefnyddwyr DSE, yn unol â’r gofynion o dan y Rheoliadau DSE. | | | | |
| | | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| Ystadegau Damweiniau | Adroddiadau Chwarterol | 1 | 1 | 1 | 1 | |

## 8 Cynllun Gweithredu Strategol

Bydd hyn yn manylu'r amcanion a'r gweithredoedd lefel-uchel sy'n cefnogi gwelliant parhaus rheoli iechyd a diogelwch a chydmffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol.

| Cynllun Gweithredu Strategol | |
|---|---|
| **CYNLLUNIO** | Ystyried lefel cydymffurfio presennol o ran Iechyd a Diogelwch a'r safon a ddymunir.<br><br>Penderfynu beth sydd angen ei gyflawni, pwy fydd yn gyfrifol am beth, sut i gyflawni'r nodau, a sut fyddant yn cael eu mesur.<br><br>Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i adlewyrchu'r uchod.<br><br>Penderfynu sut i fesur perfformiad. Dylai hyn gynnwys mwy nag edrych ar ffigyrau damweiniau'n unig; edrych am ddangosyddion sydd ar y blaen yn ogystal â dangosyddion sydd ar ei hôl hi.<br><br>Ystyried tân ac argyfyngau eraill. Dylai hyn gynnwys cydlynu mewn gweithleoedd a rennir.<br><br>Cynllunio ar gyfer newidiadau a nodi unrhyw ofynion cyfreithiol penodol sy'n berthnasol. |
| **GWEITHREDU** | Nodi'r proffil risg.<br><br>Asesu'r risgiau, nodi beth allai achosi niwed yn y gweithle, pwy allai gael ei niweidio a sut, a beth sydd ei angen i reoli'r risg.<br><br>Penderfynu beth yw'r blaenoriaethau a nodi'r risgiau mwyaf.<br><br>Trefnu gweithgareddau i wireddu'r cynllun.<br><br>Cynnwys gweithwyr a chyfathrebu, fel bod pawb yn eglur ynglŷn â'r hyn sydd ei angen a'u bod yn gallu trafod problemau – datblygu agweddau ac ymddygiad cadarnhaol.<br><br>Darparu adnoddau digonol, gan gynnwys cyngor cymwys pan fydd angen. Rhoi eich cynllun ar waith.<br><br>• Penderfynu ar fesurau ataliol ac amddiffynnol sydd eu hangen a'u rhoi ar waith.<br>• Darparu'r offer a'r cyfarpar cywir i wneud y gwaith a'u cynnal a'u cadw.<br>• Hyfforddi a chyfarwyddo, i sicrhau fod pawb yn gymwys i wneud eu gwaith.<br>• Goruchwylio i sicrhau fod y trefniadau'n cael eu dilyn. |

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU** | Mesur eich perfformiad<br><br>Sicrhau fod y cynllun wedi'i roi ar waith – nid yw 'gwaith papur' yn unig yn fesur da o berfformiad.<br><br>Asesu pa mor dda mae'r risgiau'n cael eu rheoli ac a yw'r canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni.<br><br>O dan rai amgylchiadau gallai archwiliadau ffurfiol fod yn ddefnyddiol.<br><br>Ymchwilio i'r hyn sy'n achosi damweiniau, digwyddiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd. |
| **GWIRIO** | Adolygu Perfformiad<br><br>Dysgu o ddamweiniau a digwyddiadau, data afiechyd, camgymeriadau a phrofiad perthnasol, gan gynnwys o sefydliadau eraill.<br><br>Ailymweld â chynlluniau, dogfennau polisi ac asesiadau risg i weld a oes angen eu diweddaru.<br><br>Gweithredu ar wersi a ddysgwyd, gan gynnwys o adroddiadau archwilio ac ymchwilio. |

## 9 Casgliad

2023/24, yw'r flwyddyn gyntaf yn dilyn adfer o'r argyfwng Covid19. Ailgyflwynwyd trefniadau "gweithio arferol" yn llawn. Rhoddwyd nifer o ddulliau gweithio newydd ar waith. Roedd hyn yn cynnwys dull mwy hyblyg o weithio fel y'i diffinnir yn y Polisi Gweithio Hybrid.

Dylid cydnabod y gwaith a gwblhawyd gan adrannau perthnasol yn y Cyngor i fynd i'r afael â'r ddau brif fater, sef RAAC a'r Ffliw Adar. Mae'r gallu i ddyfeisio a gweithredu cynlluniau ar fyr rybudd er mwyn mynd i'r afael â'r ddau fater yn effeithiol yn dangos ymrwymiad y Cyngor at warchod iechyd a diogelwch mewn unrhyw sefyllfa.

Wrth i waith barhau i fynd rhagddo bydd angen mesur ac adolygu'r holl drefniadau gweithio. Gan fod eleni wedi bod yn flwyddyn pan aethpwyd yn ôl at drefniadau "gweithio arferol", dylid ei defnyddio fel asesiad o drefniadau gweithio presennol.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd digwyddiadau heb eu rheoli lle bu'n rhaid gwneud gwaith adweithiol. Roedd angen rhoi sylw brys i broblemau concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) mewn ysgolion. Aethpwyd i'r afael â hyn trwy sefydlu grŵp strategol i asesu'r camau angenrheidiol. Roedd hyn yn cynnwys camau adfer ar

yr adeiladau a gwneud trefniadau amgen ar gyfer addysgu. Ymddengys i'r ddeubeth gael eu gwneud yn llwyddiannus. Mae'n werth nodi bod Cyngor Môn yn gallu darparu rhestr o eiddo lle'r oedd RAAC yn bresennol ar y diwrnod pan gyhoeddwyd canllawiau diwygiedig y Llywodraeth Cymru. Efallai nad oedd hynny'n wir mewn sefydliadau eraill.

Roedd angen rhoi trefniadau amgen ar waith ar gyfer ffliw adar yn ystod misoedd yr haf er mwyn sicrhau bod adar marw'n cael eu casglu'n brydlon ac yn ddiogel.

Mae nifer y digwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Efallai bod hyn yn ganlyniad i bwysau ar y gymdeithas yn dilyn yr argyfwng Covid19 a phwysau ar yr economi. Mae'n bosib bod y Cyngor ar y rheng flaen o ran delio gyda phroblemau cymdeithasol ac efallai ei fod felly o dan fwy o bwysau i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol. Ymddengys bod hyn wedi digwydd ac efallai mai dyma sydd i gyfrif am y cynnydd a gofnodwyd mewn trais ac ymddygiad ymosodol, oherwydd yr amodau hyn.

Credir y dylai 2024/25 fod yn gyfnod o fesur y trefniadau a'r rheolaethau presennol a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn addas.

## 10 Argymhelliad

Dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 4 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc / Testun:** | Archwilio Allanol – Adroddiad Monitro |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>01248 752502<br>CarysEdwards@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad<br>01248 752511<br>GwyndafParry@ynysmon.gov.uk |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn yr adroddiad hwn yn unol â'i Gylch Gorchwyl –

- 3.4.8.11.3 Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a **bydd yn monitro eu hargymhellion**; ac

- 3.4.8.13.1 Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr argymhellion sydd ynghlwm a'r adroddiadau wedi cael sylw dilys gan wasanaethau'r Cyngor Sir a bod y rhai perthnasol yn cael eu gwireddu mewn modd ystyrlon.

**Cyflwyniad**

1. Er mwyn arddangos llywodraethu da, mae'r adroddiad yn manylu ar ymateb y cyngor i adroddiadau archwilio allanol ac argymhellion cysylltiedig a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr.

2. Darperir diweddariadau yn erbyn y gwaith y mae'r cyngor wedi'i wneud ers yr hyn a gyflwynwyd i'r pwyllgor yma ym mis Ebrill 2024.

3. Mae'r adroddiad hwn wedi'i symleiddio a'i ail ddylunio i sicrhau ei fod yn fwy cryno ac yn haws ei ddarllen na'r fersiwn flaenorol.

**Argymhelliad**

4. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn –

    a. Ystyried yr adroddiad a derbyn yr ymatebion a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o waith y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig.

# Archwilio Allanol – Adroddiad Monitro



**Paratowyd gan:** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2024

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd y cyngor wrth ymateb i argymhellion o adroddiadau rheoleiddiol lleol a chenedlaethol dros y 24 mis diwethaf sydd heb eu gweithredu eto. Mae monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn gonglfaen i lywodraethu effeithiol.

Mae ein Cod Llywodraethu Lleol 2023-28 yn dangos sut mae'r cyngor yn dilyn yr egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Yr egwyddorion sefydledig yw:

**Egwyddor A**
- Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol

**Egwyddor B**
- Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

**Egwyddor C**
- Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

**Egwyddor D**
- Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu

**Egwyddor E**
- Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo

**Egwyddor F**
- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

**Egwyddor G**
- Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio

Mae adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddiol a sut mae'r cyngor yn ymateb i argymhellion yn cyd-fynd yn agos ag **Egwyddor G** ac **Egwyddor F**.

Mae'r adroddiadau hyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod y cyngor yn gweithredu'n dryloyw ac yn cael ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau, ei ddefnydd o adnoddau, a'i ddarpariaeth o wasanaethau. Trwy werthuso cydymffurfiad y cyngor â'i ddyletswyddau statudol a nodi meysydd i'w gwella, maent yn cefnogi llywodraethu ar sail tystiolaeth ac yn galluogi'r cyngor i ddangos ei ymrwymiad i welliant parhaus.

Trwy adolygu ac ymateb yn weithredol i'r argymhellion, mae'r cyngor yn dangos ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac i fodloni ei ddyletswyddau statudol.

# Crynodeb

Ym mis Hydref 2024, mae'r cyngor wedi gweithredu 20% o’r argymhellion, mae 68% o'r ymatebion ar waith, ac mae 12% ar ei hôl hi. Mae’r siart isod yn nodi teitlau adroddiadau archwiliadau lleol a chenedlaethol ac yn gwerthuso’r ymateb i’w hargymhellion.




Mae'r niferoedd yn y siart bar uchod yn nodi sawl argymhelliad sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol ym mhob adroddiad rheoleiddiol.

# Trosolwg Manwl

## Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A2** Defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig | • Mae amcanion Cynllun y Cyngor ac yr amcanion llesiant yn rhoi ffocws ar Dlodi<br>• Cymeradwywyd y Cynllun Strategol Taclo Tlodi gan y Pwyllgor Gwaith ym Mawrth 2024<br>• Mae meysydd blaenoriaeth allweddol i daclo tlodi ar yr Ynys dros y pum mlynedd nesaf yn cael eu monitro'n fisol ac yn cael eu hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth. Wrth ddatblygu'r Cynllun, ystyriwyd y cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor gan gydnabod bod angen cyflawni mwy gyda llai.<br>• Mae Dangosfwrdd PowerBI gyda dangosyddion cysylltiedig â Thlodi wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei ddiweddaru'n chwarterol. | Wedi gweithredu |
| **A3** Dynodi aelod cabinet fel hyrwyddwr tlodi'r cyngor ac yn dynodi uwch swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda wrthdlodi | • Arweinydd y Cyngor yw'r hyrwyddwr dynodedig ar gyfer Tlodi | Wedi gweithredu |
| **A5** Gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt. | • Ystyrir y gwaith hwn yn rhan o'r gwaith arferol y mae'r cyngor yn ei wneud gyda thrigolion. Mae'r holl dimau sy'n gweithio gyda thrigolion yn ymwybodol o sut i gael mynediad at wybodaeth a chefnogaeth am Dlodi ac argyfwng costau byw<br>• Rydym yn diweddaru tudalen we'r Cyngor yn rheolaidd gyda gwybodaeth bwysig am ymateb i'r argyfwng costau byw<br>• Mae'r Tîm Cynhwysiant Ariannol yn hynod effeithiol wrth hyrwyddo trwy dudalen Facebook Tai Môn ac yn cydweithio gyda phartneriaid lleol. Maent yn parhau i anfon diweddariadau am y sesiynau galw heibio. Mae posteri'n | Wedi gweithredu |

Tudalen 125

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| | cael eu diweddaru'n wythnosol ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol<br>• Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, Cyngor ar Bopeth, Medrwn Môn a Menter Môn i ddeall a chael gwell gwybodaeth am yr hyn sydd ei angen ar yr Ynys<br>• Gyda'r defnydd o'r Gronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) ddiweddar, rydym wedi cynnal nifer o sesiynau o fewn ein cymunedau ledled yr ynys i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael | |
| **A6** Optimeiddio eu gwasanaethau digidol trwy greu un dudalen lanio ar eu gwefan | • Mae tudalen we mewn lle sy'n cael ei monitro a'i diweddaru'n rheolaidd gan gynnwys dolenni i'r gwaith a wneir gan bartneriaid. | Wedi gweithredu |
| **A7** Rydym yn argymell y dylai cynghorau<br>• sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;<br>• cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy'n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth;<br>• creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau;<br>• cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallent ac na allant rannu data a pha ddata y gallent ac na allant ei rannu; ac<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data | • Mae'r cyngor yn gweithio ar asesiad aeddfedrwydd data ac yn datblygu cynllun gweithredu i nodi unrhyw wendidau neu gyfleoedd i gryfhau prosesau busnes<br>• Mae gan y cyngor CRM mewn lle sy'n cael ei ddatblygu yn unol â'r Strategaeth Ddata i wella prosesau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid. Mae'r ffurflenni eisoes ar gael ar y system yn defnyddio manylion personol, a fewnosodir gan y preswylydd ac sy'n cael eu storio ar y CRM, i lenwi agweddau cyffredin ar ffurflenni cais.<br>• Mae protocolau rhannu data mewn lle ac yn cael eu diweddaru pan nodir gwelliannau | Ar waith |

## ‘Cyfle wedi golli’ Mentrau Cymdeithasol - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** I gael y gorau o’u gwaith gyda a’u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a’r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio’r rhestr wirio yn Atodiad 2 i:<br>• hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd;<br>• adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a<br>• mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi’u nodi’n glir i fynd i’r afael â’r bylchau a’r gwendidau a nodwyd trwy’r hunanwerthusiad. | Mae mentrau cymdeithasol o arwyddocâd mawr ar Ynys Môn ac yn bartneriaid allweddol wrth gyflawni ar draws gwasanaethau. Mae hyn wedi’i amlygu o fewn Cynllun y Cyngor 2023–2028 ac mae cydweithio’n cael ei gydnabod fel un o werthoedd y Cyngor.<br><br>‘Cydweithio: Rydym yn gweithio fel tîm, gyda’n cymunedau a’n partneriaid, i gyflawni’r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.’<br><br>Mae ein partneriaid allweddol yn cynnwys Medrwn Môn, Menter Môn, Môn CF a Chyngor ar Bopeth Ynys Môn.<br><br>Mae Cynllunio Lle yn parhau i wneud cynnydd ar draws yr Ynys gyda 8 cynghrair bellach ar waith<br><br>Mae grantiau SPF yn parhau i wella a chefnogi gweithgareddau menter gymdeithasol.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol gynrychiolaeth yn Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Gogledd Cymru sy’n cynnwys aelodau o gynghorau eraill yn y gogledd, Cwmpas, Menter Môn a Medrwn Môn. Mae'r rhwydwaith yn trafod unrhyw faterion y mae mentrau cymdeithasol yn eu hwynebu gan gynnwys gofynion ariannu i’r dyfodol.<br><br>Mae’r Cyngor yn paratoi Cynllun Strategol Caffael newydd sy’n adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), Deddf Caffael 2023, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael | Ar waith |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| | Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024. | |
| **A2** I lywio gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol:<br>• yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol;<br>• yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a'i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac<br>• yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. | Mae'r rhestr wirio wedi'i chwblhau er mwyn hunanwerthuso ymgysylltiad, rheolaeth, perfformiad ac arferion, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu.<br><br>Mae'r partneriaid allweddol uchod i gyd wedi adrodd i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'r Cyngor. | Ar waith |
| **A3** Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ddatblygu cynllun gweithredu<br><br>Bydd gweithgareddau cyfredol a blaenoriaethau'r dyfodol yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol nesaf y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Ar waith |

## ‘Craciau yn y Sylfeini’ – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A5** Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy’n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio’n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai’r Cynlluniau:<br>• fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru;<br>• nodi sut y bydd adnoddau’n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol;<br>• dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a<br>• chynnwys mesurau deilliant sy’n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig. | Ni fu modd sicrhau cynnydd hyd yn hyn oherwydd anawsterau parhaus wrth recriwtio a llwyth gwaith cynyddol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae’n anodd recriwtio staff cymwysedig i swyddi arbenigol ym maes cynllunio, ac nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn.<br><br>Mae gan y Cyngor gynlluniau ar waith i ymateb i’r her hon, gan gynnwys addasu swydd disgrifiadau a bod yn agored i ddarparu cyfleoedd i staff ennill y cymwysterau angenrheidiol o fewn eu rolau. Mae pecynnau recriwtio hefyd wedi’u dylunio sy’n amlinellu manteision gweithio i’r Gwasanaeth a’r Cyngor. | Ar ei hôl hi |
| **A6** Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:<br>• sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau’n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â’r Rheoliadau;<br>• adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi’r wybodaeth honno’n flynyddol yn unol â’r Rheoliadau;<br>• sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso’r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a<br>• diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â’r Rheoliadau. | Cynhaliwyd rhai cyfarfodydd archwilio cychwynnol gyda chydweithwyr o’r Adran Gyllid, ond ni fu modd sicrhau cynnydd ystyrlon oherwydd yr anawsterau parhaus wrth recriwtio a’r llwyth gwaith cynyddol a nodwyd uchod. | Ar ei hôl hi |

Tudalen 129

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A7** Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau a/neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol. | Trafodwyd cynllunio rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ym mis Mehefin eleni i sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol ar gyfer y Gogledd. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw gyfathrebu pellach hyd yn hyn. | Ar ei hôl hi |
| **A8** Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso ac i graffu arnynt. | Mae'r Gofrestr Risg Gwasanaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau strategol. | Ar waith |

## ‘Gyda’n gilydd fe allwn ni’ – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** I gryfhau cydnerthedd cymunedau a chynorthwyo pobl i fod yn fwy hunanddibynnol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a’r systemau cywir. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio’r offeryn gwerthuso yn Atodiad 2 i:<br>• hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac ymarfer cyfredol;<br>• adnabod ble y mae angen gwelliant; a<br>• drafftio a chyflawni cynllun gweithredu sy’n cynnwys fframiau amser a chyfrifoldebau wedi’u nodi’n gywir i fynd i’r afael â’r bylchau a’r gwendidau a adnabuwyd wrth gwblhau’r offeryn gwerthuso. | Mae Cynllunio Lle yn parhau i wneud cynnydd ar draws yr Ynys gyda 8 cynghrair cymunedol bellach wedi’u sefydlu ar draws 11 o wardiau etholiadol Ynys Môn.<br><br>Mae cynghreiriau cymunedol yn bartneriaethau cydweithredol sy’n dwyn ynghyd lleisiau amrywiol, gan gynnwys trigolion, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol ac eraill. Wrth weithio gyda’i gilydd, maent yn datblygu atebion arloesol, sy’n cael eu harwain gan y gymuned, i fynd i’r afael â blaenoriaethau lleol ac i ymateb i ymgynghoriadau gan sefydliadau megis y Bwrdd Iechyd, Cyngor Sir Ynys Môn, a Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Mae nifer o grantiau’r Gronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) yn cael eu cyflawni gan y Cyngor a’i bartneriaid i wella ac atgyfnerthu gwytnwch cymunedol. | Ar waith |
| **A2** I helpu awdurdodau lleol i fynd i’r afael â’r bylchau a gaiff eu canfod ganddynt yn dilyn eu hunanwerthusiad, rydym yn argymell eu bod:<br>• yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i’r Cynllun Gweithredu wedi’u gwblhau sy’n codi o’r ymarfer hunanwerthuso;<br>• adrodd ar berfformiad, monitro perfformiad a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd mewn pwyllgorau craffu perthnasol; a<br>• diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o’i berfformiad | Mae’r rhestr wirio wedi’i chwblhau er mwyn hunanwerthuso ymgysylltiad, rheolaeth, perfformiad ac arferion, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu.<br><br>Mae’r partneriaid allweddol uchod i gyd wedi adrodd i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio’r Cyngor. | Ar waith |

## Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Er mwyn galluogi rhanddeiliaid i asesu safleoedd posibl, dylai cynghorau greu proses systematig i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer adfywio a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt:<br>• dylai hyn dynnu ar ddata sydd eisoes gan gynghorau, yn ogystal â ffynonellau data allanol i ddatblygu darlun cyfansawdd a mwy cyflawn o safleoedd; a<br>• lle y bo'n hysbys, dylid enwi rhwystrau allweddol i helpu ymdrechion i'w goresgyn. | Mae gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd raglen ar waith i fynd i'r afael â safleoedd Tir Llwyd, lle mae hynny'n bosibl, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a phartneriaid. | Ar waith |
| **A2** Er mwyn helpu i sicrhau bod gweithgarwch adfywio a gwaith i lunio'r amgylchedd yn cael ei oleuo gan anghenion cymunedau dylai Cynghorau gynyddu cyfleoedd i gynnwys y gymuned mewn rhaglenni adfywio, wrth greu cynlluniau a chyflawni'r gwaith datblygu ei hun. | Mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd bob amser yn ceisio ymgysylltu â thrigolion a chymunedau i lywio ein gweithgareddau adfywio. Ar hyn o bryd (Tachwedd 2024) mae Ymgynghoriad Canol Trefi Ynys Môn ar waith i lywio Cynlluniau Lle. | Ar waith |
| **A3** Er mwyn darparu ffocws ac ysgogiad i ddatblygu safleoedd tir llwyd dylai Cynghorau adolygu eu dulliau adfywio presennol a, lle y bo hynny'n briodol, pennu polisïau a thargedau adfywio cliriach, mwy uchelgeisiol. Gyda'i gilydd, dylai'r rhain:<br>• ddisgrifio dull a disgwyliadau'r Cyngor;<br>• disgrifio sut y byddant yn darparu adnoddau ar gyfer eu dull; a<br>• disgrifio sut y mae'r dull yn cyd-fynd â nodau polisi cenedlaethol a blaenoriaethau cynllunio rhanbarthol. | Credwn, yn enwedig o ystyried maint ein hadnoddau cyfyngedig (pobl ac arian), bod ein polisïau a'n targedau adfywio yn ddigon uchelgeisiol. Er y byddwn bob amser yn ymdrechu i wneud mwy, rhaid i ni hefyd fod yn realistig ac yn bragmatig. | Ar waith |

## Adolygiad o Strategaeth Ddigidol - Lleol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth<br>Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth dylai'r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys<br>• cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â thynnu ar farn rhanddeiliaid o ffynonellau presennol;<br>• amcanion a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill, a nodi cyfleoedd i gydweithio;<br>• dadansoddiad pellach o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol (gweler ein meini prawf archwilio ar gyfer C.1.1 a C1.2 yn Atodiad 1 am rai enghreifftiau o'r hyn y gallai hyn ei gynnwys) | Mae'r Strategaeth Ddigidol ar waith erbyn hyn.<br><br>Pwrpas y Cynllun Strategol hwn yw:<br>• Cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun y Cyngor fel y galwn wella'n barhaus a darparu'r gwasanaeth gorau posib<br>• Darparu fframwaith clir er mwyn gyrru'r blaenoriaethau digidol yn eu blaen yn dilyn gwaith ymgysylltu allanol ac ymgynghoriad mewnol<br>• Cydnabod a chefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Cefnogi dulliau modern o weithio a gweithredu a dyhead y Cyngor i fod yn hyblyg o ran cynnig gwasanaeth er mwyn gwella effeithiolrwydd<br>• Dilyn trywydd a chyfeiriad y Strategaeth Ddigidol i Gymru - gweledigaeth ar y cyd | Wedi gweithredu |
| **A2** Nodi goblygiadau adnoddau.<br>Er mwyn helpu i sicrhau bod modd cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau o ran adnoddau yn y tymor byr a'r hirdymor o'i chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriedir. | Mae cynllun blynyddol wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar ofynion gwasanaethau a'r gyllideb sydd ar gael | Ar waith |
| **A3** Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian.<br>Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. | Caiff y strategaeth ddigidol ei monitro'n chwarterol yn y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid (Moderneiddio). Mae'r Bwrdd yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd, Arweinwyr Grwpiau, Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, ac uwch swyddogion eraill.<br>Bydd adroddiad blynyddol ar gynnydd hefyd ar gael. | Ar waith |

## Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau - Lleol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch-arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau. | • Mae Cerdyn Sgorio Corfforaethol newydd ar waith ar gyfer 24–25.<br>• Mae'r Arolwg Preswylwyr wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd i uwch arweinwyr a phwyllgorau yn Ch4<br>• Mae dangosfyrddau PowerBI wedi'u datblygu i fonitro tueddiadau, gan gynnwys Dangosfwrdd Poblogaeth a Demograffeg, Dangosfwrdd Tlodi, Dangosfwrdd Sero Net, ac eraill sy'n cael eu datblygu | Ar waith |
| **A2** Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau arfaethedig | • Darperir gwybodaeth chwarterol i uwch arweinwyr ynghylch cwblhau amcanion Cynllun y Cyngor. Mae byrddau rhaglen ar waith i hwyluso trafodaethau a gwelliannau lle mae angen.<br>• Mae dangosfyrddau PowerBI ar waith<br>• Bydd canlyniadau'r Arolwg Preswylwyr yn cael eu dadansoddi, a bydd ymateb yn cael ei weithredu | Ar waith |
| **A3** Mae angen i'r Cyngor gael sicrwydd bod ganddo drefniadau cadarn i sicrhau ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch-arweinwyr sy'n ymwneud â safbwynt a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. | • Mae gweithredu dangosfyrddau newydd PowerBI a'r Cerdyn Sgorio wedi nodi gwendidau ynghylch a chadernid ac ansawdd rhai ffynonellau data. Mae'r rhain wedi'u gwella neu wrthi'n cael eu gwella.<br>• Mae safbwynt defnyddwyr yn bwysig ac mae sawl arolwg cwsmeriaid wedi'u datblygu neu'n cael eu datblygu i gryfhau ein gwybodaeth am safbwyntiau defnyddwyr a chanlyniadau | Ar waith |

## Gosod amcanion llesiant - Lleol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dylai'r Cyngor sicrhau bod fersiynau nesaf ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos yn glir:<br>• sut bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu blaenoriaethu i gyflawni ei amcanion llesiant; a<br>• sut y gallai targedau arbedion presennol ac yn y dyfodol neu risgiau ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar gyflawni ei amcanion llesiant. | Trafodwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 25/26 yn y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi. Nododd fod angen £0.5M ychwanegol i gwblhau Amcanion Cynllun y Cyngor.<br><br>Mae gwaith yn parhau i adnabod arbedion cyn gosod y gyllideb. Ymgynghorir ar rai ohonynt yn y flwyddyn newydd. | Ar waith |
| **A2** Dylai'r Cyngor roi ystyriaeth fanylach i dueddiadau, risgiau a chyfleoedd perthnasol er mwyn adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol. | Mae dangosfyrddau PowerBI wedi'u datblygu i fonitro tueddiadau, gan gynnwys Dangosfwrdd Poblogaeth a Demograffeg, Dangosfwrdd Tlodi, Dangosfwrdd Sero Net, ac eraill sy'n cael ei dylunio.<br><br>Caiff risgiau eu monitro'n chwarterol tra bo cyfleoedd yn cael eu harchwilio pan gânt eu hadnabod. | Ar waith |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc** | **ER GWYBODAETH YN UNIG:** Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - Diweddariad Chwarterol 30 Medi 2024 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ofynnol iddo oruchwylio trefniadau archwilio allanol (3.4.8.11.3) a goruchwylio effeithiolrwydd cysylltiadau rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill (3.4.8.11.4). Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor hefyd dderbyn ac ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, fydd yn ffynhonnell sicrwydd defnyddiol (3.4.8.13.1). | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa o ran cyflawni rhaglen waith Archwilio Cymru mewn perthynas â:

- darparu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol, sydd wedi'i gynllunio i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2025 ac a fydd yn cychwyn unwaith y bydd yr Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2023-24 y Cyngor wedi'i gwblhau

- gwaith archwilio ariannol ar Ddatganiad Cyfrifon 2023-24, sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac y bwriedir ei gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2024

- ardystiad parhaus o Ddatganiadau Grant (ar gyfer 2022-23 a 2023-24), gan gynnwys Cyfraniadau Pensiynau Athrawon, Trethi Annomestig a Chymhorthdal Budd-dal Tai, gyda'r mwyafrif wedi eu cynllunio i'w cwblhau erbyn mis Tachwedd 2024

- gwaith archwilio perfformiad 2022-23, gan gynnwys Adolygiad Thematig o Ofal heb ei Drefnu, a gyflwynwyd i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 13 Tachwedd 2024

- gwaith archwilio perfformiad 2023-24, sy'n cynnwys adolygiadau thematig o Gomisiynu, lle mae gwaith maes yn cael ei wneud ar hyn o bryd, a Chynaliadwyedd Ariannol, lle mae'r adroddiad wrthi'n cael ei gymeradwyo ar hyn o bryd cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024. Mae prosiect lleol i ddilyn i fyny ar yr archwiliad

Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) o 2018 wedi'i ddileu yn sgil newidiadau yn nhrefniadau SATC.

- Mae dau brosiect lleol ar y gweill ar gyfer 2024-25, yn gysylltiedig â threfniadau seiberddiogelwch y Cyngor a threfniadau ar gyfer sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd, yn ogystal â gwaith parhaus i asesu lefel y sicrwydd archwilio sydd ei angen.

1.2 Mae'r Diweddariad hwn hefyd yn darparu trosolwg o'r astudiaethau cenedlaethol awdurdod lleol a gynlluniwyd ac sy'n mynd rhagddynt, a ph'un a fwriedir gwneud unrhyw waith maes yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Nid oes unrhyw waith maes wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd yn y Cyngor ar gyfer unrhyw un o'r astudiaethau cenedlaethol.

1.3 Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o waith sy'n cael ei wneud ledled Cymru gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Nid yw'n manylu ar unrhyw waith penodol yn gysylltiedig â'r Cyngor.

1.4 Mae'r adroddiad yn darparu rhestr o adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers Medi 2023, ynghyd â gwaith sy'n mynd rhagddo ac a gynlluniwyd. Ers cyhoeddi'r Diweddariad, mae un ohonynt, Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23, wedi'i gyhoeddi ac mae'n cynnwys astudiaeth achos o Gyngor Sir Ynys Môn.

1.5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn manylu ar ddigwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Dda. Mae'n darparu manylion digwyddiad o'r enw "Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith bositif" a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Conwy ar 9 Hydref 2024.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried yr adroddiad a nodi'r sicrwydd a ddarperir ynddo.

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 30 Medi 2024

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024.** | Ionawr 2025 | Bydd y gwaith drafftio yn dechrau ar ôl cwblhau'r Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2023-24 y Cyngor. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Hawliadau a Ffurflenni Grant 2022-23** | Ardystio pob hawliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ardystio y cytunwyd arnynt gyda'r corff dyfarnu. | Tachwedd 2024 | Mae'r ardystiad profi Budd-dal Tai heb ei gwblhau a bydd y profion yn cael eu cwblhau ym mis Tachwedd 2024. |
| **Archwiliad o ddatganiadau cyfrifon 2023-24 y Cyngor** | Archwiliad statudol o ddatganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor. | Archwiliad i'w gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2023 | Gwaith archwilio ar y gweill |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Hawliadau a Ffurflenni Grant 2023-24** | Ardystio pob hawliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ardystio y cytunwyd arnynt gyda'r corff dyfarnu. | Mae gwaith archwilio Pensiynau Athrawon ac Ardrethi Annomestig Genedlaethol yn mynd rhagddo ac i'w ardystio ym mis Tachwedd 2024.<br><br>Archwiliad Budd-dal Tai i ddilyn ardystiad o hawliad 2022-23. | Wedi dechrau ar y gwaith archwilio |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal Heb ei Drefnu** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion, yn ogystal ag atal mynd i mewn i'r ysbyty. Bydd y gwaith yn ystyried hefyd pa gamau a gymerir i ddarparu datrysiadau tymor canol i hir. | Awst 2022 – Tachwedd 2024 | Adroddiad i'w ystyried erbyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad thematig – comisiynu** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mawrth 2024 – Mawrth 2025 | Cam cynllunio gwaith maes |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | Mawrth – Gorffennaf 2024 | Adroddiad yn y cam clirio<br><br>Dyddiad cyhoeddi dangosol yr Adroddiad Cryno Cenedlaethol: Tachwedd 2024 |
| **Prosiect lleol – Gwaith dilynol ar SATC 2018** | O ganlyniad i newidiadau yn nhrefniadau SATC, nid yw ein gwaith dilynol arfaethedig yn cael ei ystyried yn briodol mwyach felly ni fydd gwaith yn digwydd, a bydd y Cyngor yn cael ad-daliad ar ôl cwblhau gwaith 23/24. | Amherthnasol | Amherthnasol |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2024-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor, gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ar y gweill | Gwaith maes yn mynd rhagddo |
| **Gwaith prosiect lleol – Adolygiad o Drefniadau Seiberddiogelwch** | Adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i ddarparu seiberddiogelwch. | Ebrill – Gorffennaf 2025 | Cwmpasu |
| **Gwaith prosiect lleol – Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd** | Adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i sefydlu awdurdod iechyd porthladd. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Llety Dros Dro** | Archwilio'r costau, y galw a sut mae gwasanaethau'n cydweithio i symud yr ymateb i lety dros dro yn ei flaen. | Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ar ddechrau 2025 | Gwaith maes ar y gweill | Bydd arolygon hefyd yn cael eu dosbarthu i Benaethiaid Tai a Swyddogion Adran 151 ym mhob prif gyngor. |
| **Cynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol** | Archwilio a yw buddsoddiad cyfalaf yn y sylfaen asedau mewn llywodraeth leol yn gallu ateb galw | I'w gadarnhau | Cwmpasu | I'w gadarnhau |
| **Cyfyngiadau ariannol / gwasanaethau llywodraeth leol yn ôl disgresiwn** | Archwilio'r effeithiau posibl a phrosesau penderfynu cynghorau yng nghyd-destun yr egwyddor datblygu cynaliadwy. | I'w gadarnhau | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |

## Estyn

Gwnaethom archwilio gwasanaethau addysg llywodraeth leol (LGES) Caerffili a Cheredigion yn ystod tymor yr haf. Cyhoeddwyd yr adroddiadau ddechrau mis Medi. Nodwyd ymarfer cryf gennym yn y ddau awdurdod lleol.

Yn ystod tymor yr hydref byddwn yn arolygu LGES Casnewydd. Rydym hefyd wedi trefnu arolygiad annibynnol o waith ieuenctid yr awdurdod lleol ychydig wythnosau cyn yr arolygiad LGES. Er bod y rhain yn ddau ddarn o waith ar wahân, bydd canfyddiadau'r arolygiad ieuenctid yn llywio'r arolygiad LGES. Gwnaethom dreialu'r trefniant hwn ym Mro Morgannwg y gwanwyn diwethaf, ac mae ein harfarniad o'r trefniant hwn yn dangos bod symleiddio'r broses arolygu yn gweithio'n dda ac yn ychwanegu gwerth at ein gwaith yn gyffredinol.

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Byddwn yn cynnal ymweliad monitro yn Nhorfaen ym mis Hydref i ystyried y cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd.

Byddwn hefyd yn cynnal ymweliad cyswllt gwell â Sir Ddinbych ym mis Hydref, gan ganolbwyntio ar agweddau penodol ar bresenoldeb ac anghenion dysgu ychwanegol. Cyhoeddir llythyr canlyniadau'r ymweliad hwn ar ein gwefan.

Byddwn yn gwneud gwaith maes mewn sampl o awdurdodau lleol i ategu dau adroddiad thematig. Byddwn yn ymweld â 10 ALlau i ddysgu am eu dulliau o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd; a phum ALl arall i arfarnu eu cymorth ar gyfer MDPh mathemateg a rhifedd yn eu hysgolion.

Ddechrau mis Medi, gwnaethom hyfforddi carfan newydd o arolygwyr cymheiriaid a fydd yn cael eu defnyddio ar ein timau arolygu, yn ogystal â chynnal sesiwn ddiweddaru ar gyfer ein harolygwyr cymheiriaid presennol.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau thematig**<br><br>**Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol (CLD T)** | Gan gydweithio ag AGIC, cwblhawyd arolygiad gwiriad sicrwydd yn Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar Dimau Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT). Arolygiad ar y cyd CLDT RCT | 2024-25 | Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024 |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | Ail arolygiad gwiriad sicrwydd ym Mlaenau Gwent gan asiantaeth unigol | Mawrth 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Byddwn yn parhau â rhaglen flynyddol o waith ar y cyd sy'n canolbwyntio ar CLDT a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT). | | |
| **Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Adroddiad Trosolwg ar gyfer Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) 2019 – 2024 Adroddiad trosolwg ar gyfer Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) 2019 – 2024 \| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (agic.org.uk). | Medi 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Canfyddiadau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Mehefin 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Ein canfyddiadau o Gyngor Dinas a Sir Caerdydd Adroddiad Arolygiad ar y Cyd Caerdydd | 7 Mai 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Canfyddiadau o Gyngor Sir Ddinbych – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Chwefror 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Canfyddiadau o Gyngor Sir Powys – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Powys 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Hydref 2023 | Wedi'i gyhoeddi |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygu perfformiad Awdurdodau Lleol** | Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru | | |
| | Rydym wrthi'n adolygu ein Cod Ymarfer a byddwn yn ei gyhoeddi'n fuan. | Hydref 2024 | I'w gyhoeddi |
| | Adroddiad o wasanaethau plant ac oedolion Cyngor Sir y Fflint ym mis Chwefror 2024 – Cyhoeddi adroddiad arolygu gwasanaethau oedolion a phlant Cyngor Sir y Fflint \| Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Chwefror 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Gwnaethom gyhoeddi Adroddiad ar Arolygiad Gwerthuso Perfformiad: Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Fynwy | 2 Mai 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Gwnaethom gyhoeddi Sir Benfro – Arolygiad gwiriad gwella Gwiriad gwella gwasanaethau oedolion Cyngor Sir Penfro | 13 Mehefin 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Gwnaethom gyhoeddi Arolygiad Gwerthuso Perfformiad gwasanaethau oedolion Abertawe 240711-swansea-pei-report-cy.pdf (arolygiaethgofal.cymru) | Mai 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Arolygiad o Wasanaethau Troseddwyr Ifanc** | Gwnaethom gefnogi'r gwaith o ddarparu Arolygiad Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc HMIP yn Sir Ddinbych a Chonwy. Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid: Conwy a Sir Ddinbych (justiceinspectorates.gov.uk) | 8 Mai 2024 | Wedi'i gyhoeddi |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Medi 2023

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Teithio llesol (adroddiad ac offeryn data) | Medi 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Medi 2024 |
| Tai fforddiadwy | Medi 2024 |
| Cyllid y GIG – a diweddariad yr offeryn data hyd at 31 Mawrth 2024 | Awst 2024 |
| Digidol yn ôl dyluniad? – Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru | Awst 2024 |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru | Gorffennaf 2024 |
| Cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer TVR Automotive Ltd | Gorffennaf 2024 |
| A465 Adran 2 – diweddariad | Mehefin 2024 |
| Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol | Mai 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Ebrill 2024 |
| Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru | Mawrth 2024 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd | Chwefror 2024 |
| Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn defnyddio data o gyfrifon drafft 2022-23 | Ionawr 2024 |
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd | Ionawr 2024 |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd | Tachwedd 2023 |
| Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru | Tachwedd 2023 |
| Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a cholledion wedi'u dioddef – Cyngor Cymuned Harlech | Tachwedd 2023 |
| Diffodd y galwadau diangen: Ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau | Hydref 2023 |
| Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: dilyniant (llythyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Hydref 2023 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Menter Twyll Genedlaethol – adroddiad bob dwy flynedd | Hydref 2024 |
| Gwasanaethau canser | Tachwedd 2024 |
| Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn defnyddio data o gyfrifon drafft 2023-24 | Tachwedd 2024 |
| Canfyddiadau paru data peilot cofrestru meddygon teulu | Tachwedd/Rhagfyr 2024 |
| Gofal heb ei drefnu (negeseuon cenedlaethol – llif cleifion yn yr ysbyty ac oedi wrth ryddhau) | Tachwedd/Rhagfyr 2024 |
| Rheolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau tref a chymuned | Tachwedd/Rhagfyr 2024 |
| Cynllunio gweithlu'r GIG (negeseuon cenedlaethol) | Tachwedd/Rhagfyr 2024 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

[2] Mae ein Cynllun Blynyddol 2024-25 hefyd yn rhestru gwaith sy'n mynd rhagddo, y mae rhywfaint ohono wedi'i gyhoeddi ers hynny, neu waith y bwriedir ei ddechrau yn ystod 2024-25. Mae Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 –hefyd yn darparu rhai manylion ychwanegol am bynciau penodol a bydd yn parhau i lywio ein gwaith o gynllunio'r rhaglen waith ar gyfer 2025-26.

| **Teitl** | **Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig** |
|---|---|
| Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (y sector cyhoeddus cyfan ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru) | Adolygiad ar draws y sector cyhoeddus – Tachwedd/Rhagfyr 2024<br><br>CNC i'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Buddsoddi cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru | Rhagfyr 2024/Ionawr 2025 |
| Heriau i'r sector diwylliannol | Erbyn diwedd 2024 (ar gyfer y rhan fwyaf o adroddiadau lleol – unrhyw negeseuon cenedlaethol ar ddechrau 2025) |
| Canolfan Ganser Newydd Felindre | Dechrau 2025 |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | Erbyn mis Mawrth 2025<br>(ar gyfer cam cychwynnol y gwaith ar osod amcanion llesiant) |
| Canfyddiadau o archwiliadau datblygu cynaliadwy (adroddiad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Erbyn dechrau mis Mai 2025 |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | Cwmpasu ar y gweill, y bwriad o'i gyflawni ddechrau'r haf |
| Ailgydbwyso gofal a chymorth | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG (gwaith archwilio lleol mewn byrddau iechyd) | I'w gadarnhau (gwaith lleol ym mhob Bwrdd Iechyd wedi dechrau ym mis Mai 2024) |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Cymorth i fusnesau | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cymorth i wasanaethau bysiau a rheilffyrdd | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cynnydd gyda buddsoddiad mewn adeiladau ysgol a choleg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Dulliau cyrff y GIG o drawsnewid digidol (gwaith archwilio lleol) | I'w gadarnhau (gwaith archwilio lleol yn cael ei gyflwyno o fis Hydref 2024) |
| Trefniadau arbed costau cyrff y GIG | I'w gadarnhau (adroddiad archwilio lleol bron wedi'i gwblhau) |

## Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
| --- | --- |
| **Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol** Mae trefniadau llywodraethu da yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gwasanaethau gwerth am arian i ddinasyddion a chymunedau yng Nghymru. Pwyllgorau Archwilio yw un o'r sylfeini sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu da. Gyda phwysau sylweddol ar gyllid y sector cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol, mae angen cynyddol am arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol. Mae Pwyllgorau Archwilio yn chwarae rhan hanfodol yn hyn. Mae'r digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i rannu profiadau, dysgu, a rhwydweithio gyda chymheiriaid ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. | 9 Hydref 2024, 10:30 – 15:30<br>Canolfan Fusnes Conwy<br><br>Mae'r adnoddau o'n digwyddiad yng Nghaerdydd ar 22 Mai **ar gael yma.** |
| **Blog GPX: Prosiect 100 o Storïau** | https://www.audit.wales/cy/blog/gpx/2024/7/11/cyfnewidfa-arfer-da-prosiect-100-o-storiau |
| **Blog GPX: Dull amlasiantaethol o ymdrin â chwympiadau** | https://www.audit.wales/cy/blog/gpx/2024/8/22/cyfnewidfa-arfer-da-dull-amlasiantaethol-o-ymdrin-chwympiadau |
| **Blog GPX: Prosiect Ymchwil Cynghorwyr a Gofal** | https://www.audit.wales/cy/blog/gpx/2024/9/11/cyfnewidfa-arfer-da-prosiect-ymchwil-cynghorwyr-gofal |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 f4 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Blaenraglen Waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2024-25 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2024-25

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 27 Tachwedd 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2) | Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1) | | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)<br><br>Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5) |
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2023-24 (3.4.8.3.1/2)<br><br>Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f2 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f3 (3.4.8.3.2) | | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f4 (3.4.8.3.2)<br><br>Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2) |

Tudalen 154

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 27 Tachwedd 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2) | ~~Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023-24 (3.4.8.4.4) (yn amodol)~~ | | Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2023-24 (3.4.8.4.4) |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2023-24 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | ~~Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)~~ | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2025-26) (3.4.8.5.1/3/4)<br><br>Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | |
| Gwerth am arian (3.4.8.6) | *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6.3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* | | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | | *Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)*<br><br>*Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.2/3)*<br><br>*Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Astudiaeth Genedlaethol) (3.4.8.11.2/3)* | |

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 27 Tachwedd 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)~~<br><br>~~Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)~~ | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | ~~Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.8.3) (dros dro)~~ | | ~~Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>Diweddariad Rheoli Risgiau Newid Hinsawdd a Dod yn Sero Net (3.4.8.8.3) | | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | ~~Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-24 (3.4.8.9.4/5/6)~~ | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-24 (3.4.8.9.4/5/6) | | | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-28 (3.4.8.9.2/3) | |

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 27 Tachwedd 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2022-24 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6) | *Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2023-24 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)* | | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.5/6/7/8/11/14/15) (3.4.8.6.3)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.1/8/11/13) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/5)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | Rhaglen Waith ac Amserlen – | | Rhaglen Waith ac Amserlen – | Adroddiad Archwilio | Rhaglen Waith ac Amserlen – | Rhaglen Waith ac Amserlen – | Rhaglen Waith ac Amserlen – |

Tudalen 158

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 27 Tachwedd 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Diweddariad Chwarterol (Ch4 2023) (3.4.8.11.2/3)<br><br>Cynllun Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.1/3) | | Diweddariad Chwarterol (Ch1 2024) (3.4.8.11.2/3) | Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4) | Diweddariad Chwarterol (Ch2 2024) (3.4.8.11.2/3) | Diweddariad Chwarterol (Ch3 2024) (3.4.8.11.2/3)<br><br>Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3)<br><br>Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.2/3)<br><br>Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Astudiaeth Genedlaethol) (3.4.8.11.2/3) | Diweddariad Chwarterol (Ch4 2024) (3.4.8.11.2/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1) | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, | | Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau | | |

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 27 Tachwedd 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cwynion a Chwythu Chwiban 2023-24 (3.4.8.14.1/2)<br><br>~~Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24 (3.4.8.14.1)~~ | | Cyhoeddus Cymru 2023-24 (3.4.8.14.1) | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.15.1/2/3) | | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[1] | | | | | | | |
| 3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol[2] | | | | | | | |

[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[2] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cygnor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant (3.4.8.2.10)

## Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

| Maes | Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg | Amherthnasol | Sesiwn Briffio | Mathew Henshaw, Prif Swyddog Digidol | I'w gytuno | |
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Mehefin 2023<br>Awst 2023 | | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2) | Medi 2023 | | | | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Hydref 2023 | | | | |
| Atal Twyll a Llygredd | Rhagfyr 2023 | | | | |
| Rheoli Risg | Mawrth 2024 | | | | |



## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr[3] | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |

[3] Mae'r modiwl Ninjas Seiber yn fyw unwaith eto ar ddangosfwrdd Pwll Dysgu yr Aelodau. Fel un o ofynion cyllid y grant, bydd gofyn i'r tîm Hyfforddiant a Datblygu adrodd ar gynnydd yn chwarterol, a byddant yn codi ymwybyddiaeth bellach gydag aelodau cyn bo hir.

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2023/24***
***Annual Cyber Security Report 2023/24***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |

14: Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).
18: Information relating to any action taken or to be taken in connection with the prevention, investigation or prosecution of crime.

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| Information relating to the effectiveness of the Council's cyber security arrangements indirectly relates to the security of the public's personal and confidential data. There is a public interest in access to the information as the public may be considered to be stakeholders in the Council's cyber security. | Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>Gall hefyd ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau gweithredu'r Cyngor a gymerwyd mewn cysylltiad ag atal troseddu.<br><br>Placing information about the Council's cyber security arrangements into the public domain would be likely to increase the risk to the security of the Council's network and the integrity of its data. The information could be exploited by criminals and other parties who seek to undermine the Council's security measures. The likelihood of harm to the business affairs of the Council, arising from disclosure is high resulting in prejudice to the commercial and financial interests of the Council. The public interest in ensuring the security of data holdings is strong. |

Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]

Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]

Document is Restricted

This page is intentionally left blank